Cyngor Sir CEREDIGION CEREDIGION County Council

# Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007 – 2022

# Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Fersiwn Derfynol

**Ebrill 2013**

**Bryan Thomas, MCIEH, FRSH**

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, | Director of Environmental Services and Housing, |
| Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA | Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA |
| Ffôn 01545 570881 Ffacs: 01545 572117 | Tel: 01545 570881 Fax: 01545 572117 |

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| **1.** | **Cefndir** | | **1** |
| | 1.1 | Cyflwyniad | 1 |
| | 1.2 | Cynllun Datblygu Lleol | 2 |
| | 1.3 | Arfarniad o Gynaliadwyedd | 5 |
| | 1.4 | Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 6 |
| | 1.5 | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 6 |
| **2.** | **Ymgynghori** | | **9** |
| | 2.1 | Gweithgor Cynaliadwyedd | 9 |
| | 2.2 | Ymgynghoriad Cwmpasu | 9 |
| **3.** | **Methodoleg Gwerthuso** | | **13** |
| | | Gofynion Deddfwriaethol | 13 |
| | 3.1 | Y Gofynion ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd | 13 |
| | 3.2 | Y Gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol | 13 |
| | 3.3 | Cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol | 14 |
| | 3.4 | Camau a Thasgau yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | 16 |
| | 3.5 | Cwmpas yr Arfarniad | 18 |
| **4.** | **Cyd-destun Cynaliadwyedd, Gwaelodlin ac Amcanion** | | **21** |
| | 4.1 | Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol / Y Cyd-destun Polisi | 21 |
| | 4.2 | Cynllun Gofodol Cymru | 21 |
| | 4.3 | Cynlluniau Datblygu a Chynlluniau Cymunedol Awdurdodau Cyfagos | 25 |
| **5.** | **Gwaelodlin Gymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd** | | **29** |
| | 5.2 | Y prif broblemau ac ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a nodwyd | 30 |
| | 5.3 | Amcanion Cynaliadwyedd | 30 |
| | 5.4 | Newidiadau tebygol yn y cyd-destun amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn absenoldeb unrhyw Gynllun | 32 |
| | 5.5 | Cysondeb Amcanion | 38 |
| **6.** | **Arfarniad o Gynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion y Cynllun** | | **41** |
| | 6.1 | Datblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion | 41 |
| | • | Gorwel o 15 mlynedd, | 41 |
| | • | Mae'n neilltuol ar gyfer Ceredigion, | 41 |
| | • | Mae'n rhoi ystyriaeth i agenda a pholisïau Llywodraeth Cymru ac i strategaethau a chynlluniau awdurdodau cyfagos, ac | 41 |
| | • | Mae'n dal hanfod y teimladau a aseswyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. | 41 |
| | 6.2 | Cydweddoldeb y Weledigaeth gydag Amcanion yr AC/AAS | 44 |
| | 6.3 | Cydweddoldeb Amcanion y Cynllun gydag Amcanion AC/AAS | 46 |
| | 6.4 | Prif negeseuon y gwerthusiad | 48 |
| **7.** | **Arfarniad o Gynaliadwyedd o Bolisïau Adneuo'r Cynllun** | | **51** |
| | 7.1 | Datblygu Polisïau Adneuo | 51 |

7.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd Polisïau CDLl 57
7.3 Gwerthusiad o Ansicrwydd a Risgiau Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol 61
7.4 Prif negeseuon yr arfarniad 63
7.5 Asesu Effeithiau Crynodol Amcanion, Polisïau a Safleoedd a Neilltuwyd y Cynllun 69
7.6 Y Strategaeth 69
7.7 Mathau penodol o Gynigion Defnydd Tir 70
7.8 Polisïau Rheoli Datblygu 71
7.9 Effeithiau Crynodol yn ôl Amcan AC/AAS (SA/SEA) 72
7.10 Casgliadau 80
7.11 Anawsterau a gafwyd wrth Asesu Effaith y Cynllun Datblygu Lleol 80

**8. Arfarniad o Gynaliadwyedd Dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol 83**

8.2 Crynodeb o Asesiadau Safleoedd a Neilltuwyd 88

**9. Camau Nesaf 89**

9.2 Mabwysiadu'r Cynllun 89
9.3 Cam E: Monitro effeithiau sylweddol y cynllun 89

**10. Gweithredu / Monitro 91**

10.1 Gweithredu'r Cynllun 91
10.2 Monitro Effeithiau'r Cynllun 91

**11. Cyfeiriadaeth 101**

**Atodiadau**

Mae'r rhain ar gael ar y wefan
http://www.ceredigion.gov.uk ac yn swyddfa'r Cyngor ym Mhenmorfa.

# Rhestr Byrfoddau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **AA** | Appropriate Assessment | Asesiad Priodol | |
| **ADSL** | Asymmetric Digital Subscriber Line | Llinell Tanysgrifiad Digidol Asymetrig | **ADSL** |
| **AMR** | Annual Monitoring Report | Adroddiad Monitro Blynyddol | |
| **AONB** | Area of Outstanding Natural Beauty | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol | **AHNE** |
| **AQMA** | Air Quality Management Assessment | Asesiad Rheoli Ansawdd Aer | |
| **ASS** | Allocated Sites Schedule | Rhestr y Safleoedd a Neilltuwyd | |
| **BAP** | Biodiversity Action Plan | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | |
| **BGS** | British Geological Survey | Arolwg Daearegol Prydain | **BGS** |
| **BME** | Black Minority Ethnic | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | |
| **BPEO** | Best Possible Environmental Option | Y Dewis Amgylcheddol Gorau Posibl | |
| **BREEAM** | British Research Establishment Environmental Assessment Methods | Dulliau Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu | |
| **BRMA** | Broad Rental Market Area | Ardal Marchnad Rentu Eang | |
| **C02** | Carbon Dioxide | Carbon Deuocsid | **C02** |
| **C2020** | Ceredigion 2020 | Ceredigion 2020 | **C2020** |
| **C4S** | Centre for Sustainability | Y Ganolfan ar gyfer Cynaliadwyedd | **C4S** |
| **CAMS** | Catchment Area Management Strategy | Strategaeth Rheoli Dalgylch | |
| **CCC** | Ceredigion County Council | Cyngor Sir Ceredigion | |
| **CCW** | Countryside Council Wales | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | |
| **CE** | Chief Executive | Prif Weithredwr | |
| **CD&E** | Construction, Demolition and Excavation | Adeiladu, Dymchwel a Chloddio | |
| **CFSH** | Code for Sustainable Homes | Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy | |
| **CHD** | Coronary Heart Disease | Clefyd Coronaidd y Galon | |
| **CIA** | Community Impact Assessment | Asesiad o'r Effaith Gymunedol | |
| **CROW** | Countryside and Rights of Way Act | Y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy | |
| **cSAC** | Candidate Special Area of Conservation | Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig | **yACA** |
| **CYPP** | Ceredigion Young Persons Plan | Cynllun Pobl Ifanc Ceredigion | |
| **DCWW** | Dŵr Cymru Welsh Water | Dŵr Cymru | |
| **DDA** | Disability Discrimination Act | Y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd | |
| **DECS** | Department of Education and Community Services | Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol | |
| **DEFRA** | Department of Environment Food and Rural Affairs | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | |
| **DESH** | Department of Environmental Services and Housing | Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai | |
| **DF** | Department of Finance | Yr Adran Gyllid | |
| **DHPW** | Department of Highways, | Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Properties and Works | | |
| **DLHE** | Destination of Leavers from Higher Education | Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch | |
| **DMIPPS** | Draft Ministerial Interim Planning Policy Statement | Datganiad Polisi Cynllunio Interim Drafft y Gweinidog | |
| **DSS** | Department of Social Services | Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| **DTI** | Department of Trade and Industry | Yr Adran Masnach a Diwydiant | |
| **EA** | Environment Agency | Asiantaeth yr Amgylchedd | |
| **EAW** | Environment Agency Wales | Asiantaeth Amgylchedd Cymru | |
| **EAFRD** | European Agricultural Fund for Rural Development | Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig | |
| **EIA** | Environmental Impact Assessment | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | |
| **EASR** | European Age Standardised Rates | Cyfraddau Safonedig Oedran Ewropeaidd | |
| **EC** | European Commission | Y Comisiwn Ewropeaidd | |
| **EES** | European Employment Strategy | Strategaeth Gyflogi Ewrop | |
| **EIA** | Environmental Impact Assessment | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol | |
| **EQS** | European Quality Standard | Safon Ansawdd Ewrop | |
| **EU** | European Union | Yr Undeb Ewropeaidd | |
| **FCA** | Flood Consequences Assessment | Asesiad Canlyniadau Llifogydd | |
| **FTE** | Full Time Equivalent | Cyfwerth Llawn Amser | |
| **GCR** | Geological Conservation Review | Adolygiad Cadwraeth Daearegol | |
| **GDP** | Gross Domestic Product | Cynnyrch Mewnwladol Crynswth | |
| **GIS** | Geographical Information Systems | Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol | |
| **GQA** | General Quality Assessment | Asesiad Ansawdd Cyffredinol | |
| **GVA** | Gross Value Added | Gwerth Ychwanegol Crynswth | |
| **Ha** | Hectares | Hectarau | |
| **HAP** | Habitat Action Plan | Cynllun Gweithredu Cynefinoedd | |
| **HCW** | Health Commission Wales | Comisiwn Iechyd Cymru | |
| **HE** | Higher Education | Addysg Uwch | |
| **HEES** | Home Energy Efficiency Scheme | Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref | |
| **HHSRS** | Housing Health and Safety Rating | Graddfa Iechyd a Diogelwch Tai | |
| **HIA** | Health Impact Assessment | Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | |
| **HM** | Her Majesties | Ei Mawrhydi | |
| **HMO** | House of Multiple Occupancy | Tŷ Amlfeddiannaeth | |
| **HRA** | Habitats Regulations Assessment | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | |
| **IBERS** | Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences | Sefydliad Gwyddorau Biolegol. Amgylcheddol a Gwledig | |
| **ICC** | Integrated Children Centres | Canolfannau Integredig y Plant | |
| **ICOMOS** | International Council on Monuments and Sites | Y Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ICR** | Initial Consultation Report | Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol | |
| **ICT** | Information Communication Technology | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | |
| **IDO** | Interim Development Orders | Gorchmynion Datblygu Interim | |
| **IGER** | Institute of Grassland and Environmental Research (now IBERS) | Sefydliad Glaswelltir ac Ymchwil Amgylcheddol (IBERS bellach) | |
| **IHD** | Ischaemic Heart Disease | Clefyd Ischaemig y Galon | |
| **IPCC** | Interdepartmental Panel on Climate Change | Panel Rhyngadrannol ar Newid Hinsawdd | |
| **ISAR** | Initial Sustainability Appraisal Report | Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol | |
| **JHLA** | Joint Housing Land Availability | Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai | |
| **JNCC** | Joint Nature Conservation Committee | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | |
| **JREC** | Johannesburg Renewable Energy Coalition | Cynghrair Ynni Adnewyddadwy Johannesburg | |
| **KI** | Key Issues | Materion Allweddol | |
| **KSG** | Key Stakeholder Group | Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol | |
| **KSI** | Killed or Seriously Injured | Marwolaeth neu Anaf Difrifol | |
| **LA** | Local Authority | Awdurdod Lleol | |
| **LBAP** | Local Biodiversity Action Plan | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | |
| **LDA** | Local Development Agency | Asiantaeth Datblygu Lleol | |
| **LDP** | Local Development Plan | Cynllun Datblygu Lleol | |
| **LDPW** | Local Development Plan Wales | Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru | |
| **LGAP** | Local Geodiversity Action Plan | Cynllun Datblygu Geoamrywiaeth Lleol | |
| **LHMA** | Local Housing Market Assessment | Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol | |
| **LHS** | Local Housing Strategy | Strategaeth Dai Leol | |
| **LLTI** | Limiting Long Term Illness | Salwch Cyfyngus Hirdymor | |
| **LNR** | Local Nature Reserve | Gwarchodfa Natur Leol | |
| **LPA** | Local Planning Authority | Awdurdod Cynllunio Lleol | |
| **LS** | Linked Settlements | Aneddiadau Cyswllt | |
| **MMO** | Marine Management Organisation | Sefydliad Rheoli Morol | |
| **MPPW** | Minerals Planning Policy Wales | Polisi Cynllunio Mwynau Cymru | |
| **MTAN** | Minerals Technical Advice Note | Nodyn Cyngor Technegol Mwynau | |
| **MW** | Mega Watt | Megawat | |
| **NCN** | National Cycle Network | Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol | |
| **NH3** | Ammonia | Amonia | |
| **NHAS** | National Air Quality Strategy | Strategaeth Genedlaethol Ansawdd Aer | |
| **NHS** | National Health Service | Gwasanaeth Iechyd Gwladol | |
| **NNR** | National Nature Reserve | Gwarchodfa Natur Genedlaethol | |
| **N02** | Nitrogen Dioxide | Nitrogen Deuocsid | |
| **N0x** | Nitrogen Oxide | Nitrogen Ocsid | N0x |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **NPA** | National Park Authority | Awdurdod Parc Cenedlaethol | |
| **NTS** | Non Technical Summary | Crynodeb Annhechnegol | |
| **ODPM** | Office of Deputy Prime Minister | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog | |
| **ONS** | Office of National Statistics | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | |
| **ORS** | Opinion Research Services | | |
| **PLASC** | Pupil Level Annual School Census | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion | |
| **PM10** | Particulates of less than 10 micro metres diameter | Gronynnau llai na 10 micro medr o ddiamedr | |
| **PPM** | Parts Per Million | Rhan mewn miliwn | |
| **PPP** | Plans, Policies and Programmes | Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni | |
| **PPW** | Planning Policy Wales | Polisi Cynllunio Cymru | |
| **RAWP** | Regional Aggregated Working Party | Gweithgor Rhanbarthol Cyfunol | |
| **RBMP** | River Basin Management Plan | Cynllun Rheoli Basn Afon | |
| **RIGS** | Regionally Important Geological and Geomorphological Sites | Safleoedd Daearegol a Geomorffaid Pwysig Ranbarthol | |
| **ROMP** | Review of Old Mineral Planning Permission | Adolygu Hen Ganiatadau Cynllunio Mwynau | |
| **RQO** | River Quality Objective | Amcan Ansawdd Afonydd | |
| **RRÂ** | Race Relations Amendments Act | Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol | |
| **RSC** | Rural Service Centre | Canolfan Gwasanaethau Gwledig | |
| **RSL** | Registered Social Landlord | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | |
| **RTP** | Regional Transport Plan | Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol | |
| **RTS** | Regional Technical Statement | Datganiad Technegol Rhanbarthol | |
| **RWP** | Regional Waste Plan | Cynllun Gwastraff Rhanbarthol | |
| **SA** | Sustainability Appraisal | Arfarniad o Gynaliadwyedd | **AC** |
| **SAC** | Special Area Conservation | Ardal Cadwraeth Arbennig | |
| **SAR** | Sustainability Appraisal Report | Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | |
| **SEA** | Strategic Environmental Assessment | Asesiad Amgylcheddol Strategol | **AAS** |
| **SEN** | Special Educational Needs | Anghenion Addysg Arbennig | **AAA** |
| **SINC** | Sites of Important Nature Conservation | Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig | |
| **SLA** | Special Landscape Area | Ardal Tirwedd Arbennig | |
| **SME** | Small or Medium Sized Enterprise | Busnesau Bach a Chanolig | |
| **S02** | Sulphur Dioxide | Sylffwr Deuocsid | |
| **SLA** | Special Landscape Area | Ardal Tirwedd Arbennig | |
| **SPA** | Special Protection Area | Ardal Gwarchodaeth Arbennig | |
| **SPZ** | Source Protection Zone | Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr | |
| **SPG** | Supplementary Planning Guidance | Canllawiau Cynllunio Ategol | |
| **SRA** | Strategic Regeneration Area | Ardal Adfywio Strategol | |
| **SSA** | Strategic Search Area | Ardal Chwilio Strategol | |
| **SSSI** | Site of Special Scientific Interest | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | **SODdGA** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **STEAM** | Scarborough Tourism Economic Assessment Model | Model Asesiad Economaidd Twristiaeth Scarborough | |
| **SUDS** | Sustainable Drainage System | System Draenio Cynaliadwy | |
| **SWRAWP** | The South Wales Regional Aggregates Working Party | Gweithgor Cyfun Rhanbarthol De Cymru | |
| **SWG** | Sustainabiliy Working Group | Gweithgor Cynaliadwyedd | |
| **TAN** | Technical Advise Note | Nodyn Cyngor Technegol | |
| **TGA** | Tourism Growth Area | Ardal Dwf Twristiaeth | |
| **TPO** | Tree Preservation Order | Gorchymyn Cadw Coed | |
| **Trac** | Trafnidiaeth Canolbarth Cymru Mid Wales Transportation | Trafnidiaeth Canolbarth Cymru | |
| **TWH** | Terra Watt Hour | Awr Terawat | |
| **UDP** | Unitary Development Plan | Cynllun Datblygu Unedol | **CDU** |
| **UKCIP** | UK Climate Impacts Programme | Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y Deyrnas Unedig | |
| **UNESCO** | United Nations Educational, Scientific and Cultural Organisation | Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig | **UNESCO** |
| **USC** | Urban Service Centre | Canolfan Gwasanaethau Trefol | |
| **UA** | University of Aberystwyth | Prifysgol Aberystwyth | |
| **UWTD** | University of Wales Trinity St. David | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | |
| **WAG** | Welsh Assembly Government | Llywodraeth Cynulliad Cymru | |
| **W&CA** | Wildlife and Countryside Act | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad | |
| **WCED** | World Commission on Environment and Development | Comisiwn y Byd ar Amgylchedd a Datblygu | |
| **WDA** | Welsh Development Agency | Awdurdod Datblygu Cymru | |
| **WHQS** | Welsh Housing Quality Standards | Safonau Ansawdd Tai Cymru | |
| **WISE** | Wales Institute for Sustainable Environment | Sefydliad Cymru ar gyfer Amgylchedd Cynaliadwy | |
| **WSP** | Wales Spatial Plan | Cynllun Gofodol Cymru | |

# 1. Cefndir

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Ers 2007, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol. Pan gaiff ei fabwysiadu bydd y cynllun hwn yn disodli Cynllun Fframwaith Dyfed (addaswyd 1991) a Chynllun Datblygu Unedol Ceredigion Fersiwn Addasiadau a Gynigir (2006). Mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yn ffurfio rhan o ddogfennau fersiwn derfynol y Cyngor ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn unol â dyletswydd y cyngor i wneud Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) o'r cynllun.

1.1.2 Fis Ionawr 2008 lluniodd y Cyngor Adroddiad Cwmpasu (Cyngor Sir Ceredigion 2008). Roedd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys adolygiad polisi, gwerthusiad o'r ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sy'n effeithio ar Geredigion, a set o amcanion (y fframwaith arfarnu). Yn ystod y broses Cynllun Datblygu Lleol, ymgynghorodd y Cyngor ar y dogfennau canlynol, sy'n nodi ymagwedd strategol a pholisi'r Cynllun Datblygu Lleol:

- CDLl Ceredigion: Strategaeth a Ffefrir (Cyngor Sir Ceredigion, 2009a)
- CDLl Ceredigion: Adneuo (Cyngor Sir Ceredigion, 2010a)
- CDLl Ceredigion: Newidiadau â Ffocws Arfaethedig (Cyngor Sir Ceredigion, 2011a)
- CDLl Ceredigion: Newidiadau sy'n deillio o rai o'r Materion sy'n Codi yn ystod Sesiynau Gwrandawiad 1-3 Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Cyngor Sir Ceredigion, 2012a)

1.1.3 Aseswyd cynnwys strategol a pholisi'r dogfennau hyn gan ddefnyddio'r fframwaith a nodwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu. Cyhoeddwyd y casgliadau ac ymgynghorwyd ynglŷn â hwy yn:

- Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol (Cyngor Sir Ceredigion, 2009b)
- Adroddiad Cynaliadwyedd Adneuo (Cyngor Sir Ceredigion, 2010b)
- Atodiad i'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo: Fersiwn Gyflwyno (CCC, 2011b)
- Atodiad i Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Adroddiad Cynaliadwyedd Adneuo: Materion sy'n Codi mewn perthynas ag Adran 6 y Cynllun Datblygu Lleol (Cyngor Sir Ceredigion, 2012b)

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn ymlaen o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Adneuo a'i atodiadau ac yn cyflwyno'r arfarniad o fersiwn derfynol y Cynllun Cynllun Datblygu Lleol fel y'i mabwysiadwyd gan y Cyngor

ar 25 Ebrill 2013.

1.1.4 Mae'r Cyngor yn cynnal ei Werthusiad Cynaliadwyedd ei hun o'r Cynllun Datblygu Lleol ac mae wedi sicrhau cymorth y Ganolfan Cynaliadwyedd (C4S) i asesu'r opsiynau a ffefrir, sicrhau ansawdd y broses, a chynnig cyngor ar adegau allweddol. Mae'r Arfarniad wedi cael ei gefnogi gan nifer o weithdai rhwng swyddogion y Cyngor a'r Gweithgor Cynaliadwyedd (SWG).

## 1.2 Cynllun Datblygu Lleol

1.2.1 Cyflwynwyd y Cynlluniau Datblygu Lleol gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 gan ddisodli'r Cynlluniau Datblygu Unedol. Bwriad y system newydd yw gwneud y Cynlluniau Datblygu yn fwy crynoa mwy seiliedig ar dystiolaeth, gan hyrwyddo cyfranogiad cymunedau lleol. Mae'r broses Cynllun Datblygu Lleol hefyd wedi ei dylunio gyda'r bwriad o helpu i sicrhau datblygu cynaliadwy, fel a nodir gan bolisi Llywodraeth Cymru (LlC). Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gynllun statudol ac mae'n nodi polisïau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Sir am oddeutu 15 mlynedd; hyd at 2022.

1.2.2 Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw i:

- Ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill, ar lefel llywodraeth Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol; ac
- Ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol.

1.2.3 Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i:

- Bolisïau cenedlaethol cyfredol;
- Cynllun Gofodol Cymru;
- Strategaeth Gymunedol y Cyngor ei hun; a'r
- Adnoddau sy'n debygol o fod ar gael ar gyfer gweithredu'r cynllun.

1.2.4 Y prif ffynonellau polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yw:

- Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 5 (Tachwedd 2012);
- Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru) (dyddiadau amrywiol);
- Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005);
- Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau (2004); a
- Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006).

1.2.5 Cymeradwywyd Diweddariad 2008 o Gynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf

2008. Mae Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi sylw i'r:


- Strategaeth Wastraff ar gyfer Cymru a Chynlluniau Gwastraff Rhanbarthol;
- Y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a pholisïau eraill a baratowyd o dan Ddeddf Trafnidiaeth 2000;
- Strategaethau Tai Lleol; ac
- Atal a lleihau damweiniau mawr.

1.2.6 Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn gadarn o ran eu cynnwys ac o ran y broses o'u cynhyrchu, ac mae'n rhaid iddynt fod wedi eu seilio ar dystiolaeth gadarn a chredadwy. Mae 'Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005), yn nodi'r 10 maen prawf cadernid y mae'n rhaid i Gynllun Datblygu Lleol eu cyflawni. Gellir dosbarthu'r profion hyn yn dri chategori – gweithdrefnau, cysondeb, cydlyniad ac effeithiolrwydd.

1.2.7 Pan orffennodd y Cyngor ei Gynllun Datblygu Lleol, fe'i hadneuwyd er mwyn i'r cyhoedd gael ei weld a gwneud sylwadau arno, yna fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gael ei archwilio gan arolygydd annibynnol. Penderfynodd yr arolygydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru fod y cynllun yn ddigon cadarn, gan roi sylw i'r deg prawf cadernid a bennir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.

1.2.8 Dechreuwyd y gwaith ar Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn 2007. Cymerawyodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gytundeb cyflenwi y Cynllun Datblygu Lleol, ar 14 Mehefin 2007. Mae'r cytundeb yn rhoi disgrifiad manwl o'r ffordd y byddir yn mynd rhagddi i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol yng Ngheredigion. Diwygiwyd y Cytundeb Cyflenwi ym mis Ebrill 2010. Mae'r ddogfen hon (ynghyd â diwygiad 2010) ar gael ar wefan y Cyngor: www.ceredigion.gov.uk

1.2.9 Yn Ffigur 1.1. dangosir prif gyfnodau'r broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol a'r amserlen ar gyfer y gwaith hwnnw yng Ngheredigion. Mae'r prosesau wedi eu rhannu yn 'Gyfnodau Diffiniol', yr ystyrir eu bod o dan reolaeth y Cyngor, a Chyfnodau Dangosol'. Roedd angen newid y cyfnodau dangosol oherwydd gofynion y broses; er enghraifft gofynion yr Arholiad Annibynnol.




**Ffigur 1.1. Dangosir y prif gyfnodau sy'n rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol a'r amserlen a osodwyd ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yng Ngheredigion.**

1.2.10 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd ac ymateb y gymuned i 'Ddogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol Cyn-Adneuo ac Adneuo'. Mae 'Strategaeth a Ffefrir' y Cynllun Datblygu Lleol yn rhan allweddol o ddogfennau Cyn-Adneuo y Cynllun Datblygu.

1.2.11 Mae Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi:

- Y tueddiadau a'r ystyriaethau allweddol sy'n sail wybodaeth i'r Strategaeth a Ffefrir – a ddynodwyd trwy baratoi Adroddiad Cwmpasu Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd ac adolygiad cyffredinol o wybodaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylfaenol;
- Y fframwaith polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y cafodd y Cynllun Adneuo ei baratoi oddi mewn iddo;

- Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer datblygu Ceredigion at y dyfodol a'i amcanion o ran cyflawni datblygu cynaliadwy ac ar gyfer rhoi sylw i dueddiadau ac ystyriaethau allweddol;
- Y twf strategol allweddol a'r dewisiadau gofodol y gwnaeth y Cyngor eu hystyried wrth benderfynu ar ei Strategaeth a Ffefrir;
- Y Strategaeth a Ffefrir gan gynnwys y Diagram Allweddol; a'r
- Polisïau strategol allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth.

1.2.12 Roedd Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn cynnwys:

- Trafodaeth am yr ystyriaethau strategol allweddol yng Ngheredigion;
- Gweledigaeth ac amcanion strategol;
- Strategaeth;
- Polisïau Defnyddio Tir Strategol, Penodol a Rheoli Datblygu;
- Mapiau o'r Cynigion;
- Datganiadau Grŵp y Setliad; ac
- Amserlen y Safleoedd a Neilltuwyd.

1.2.13 Y fersiwn derfynol o'r CDLl yw'r ddogfen a fabwysiedir gan y Cyngor. Mae'r ddogfen yn cynnwys yr union un elfennau â'r fersiwn Adneuo o'r Cynllun, er ei fod hefyd yn cynnwys yr holl newidiadau a gynigwyd ac a dderbyniwyd yn y cam Newidiadau â Ffocws, newidiadau'n ymwneud â Materion yn Codi yn ystod y cam Archwilio ac unrhyw newidiadau ychwanegol yr oedd yn angenrheidiol yn ôl adroddiad yr Arholwr.

## 1.3 Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.3.1 Mae Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Llywodraeth Ei Mawrhydi 1998). Mae Adran 39 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Llywodraeth Ei Mawrhydi 2004) yn mynnu bod rhaid i'r corff sy'n cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (Cyngor Sir Ceredigion) gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

1.3.2 Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw dynodi effeithiau pwysig tebygol y cynllun mewn perthynas ag ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Trwy ddangos beth fydd effeithiau tebygol y cynllun, gellir gweithredu mesurau lliniaru addas i leihau'r effeithiau negyddol a maneisio i'r eithaf ar yr effeithiau cadarnhaol.

1.3.3 Mae gwneud Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi helpu i feithrin proses mwy cynhwysol a thryloyw o gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol. Mae pob prif agwedd o'r cynllun wedi bod drwy'r broses graffu ac mae'r rhesymau am ddewis rhai opsiynau a gwrthod rhai eraill wedi cael eu cyfiawnhau a'u hegluro.

1.3.4 Mae gwneud yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi helpu sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei integreiddio gyda pholisïau eraill. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys adolygiad polisi (gweler Adran 2 ac atodiad 1 o'r Adroddiad Cwmpasu) a oedd yn dangos nodau'r dogfennau a'r ffordd y gall y Cynllun Datblygu Lleol helpu i gyflawni'r amcanion hynny. Wrth i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd fynd rhagddo, cafodd yr adolygiad hwn ei ddiweddaru er mwyn cynnwys dogfennau polisi newydd a fu'n sail wybodaeth i ddatblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Cynllun Datblygu Lleol. Ar ben hynny, mae arfarniad y Cynllun wedi cynnwys ystod o bartneriaid (o'r Cyngor ei hun ac yn allanol) gan hwyluso mwy o gyfranogiad gan randdeiliaid.

1.3.5 Yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Lleol, mae Llywodraeth Cymru yn gweld bod y gofyniad am Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gyflawni fel rhan o Arfarniad o Gynaliadwyedd ehangach sy'n cynnwys ystyriaethau economaidd a chymdeithasol. Felly mae Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael ei integreiddio yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 1.4 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

1.4.1 Y ddogfen hon yw Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynllun terfynol y Cynllun Datblygu Lleol (2007-2022). Mae'n amlinellu'r ffordd y mae gofynion statudol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi bod yn sail wybodaeth i ddatblygu'r y fersiwn derfynol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhan annatod o broses y Cynllun Datblygu Lleol ac fe'i gweithredwyd trwy gydol y gwaith o baratoi'r Cynllun. Mae'r AC/AAS yn nodi'n glir oblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol polisïau a chynigion y Cynllun er mwyn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar egwyddorion cynaliadwy cadarn. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r holl waith arfarnu a wnaed hyd yn hyn gan gynnwys rhagfynegi a gwerthuso effeithiau'r opsiynau strategol yn erbyn amcanion cynaliadwyedd yr AC/AAS.

1.4.2 Ochr yn ochr â'r broses AC/AAS roedd rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol. Gweler paragraff 1.5.1 am ragor o fanylion.

1.4.3 Lluniwyd Crynodeb Annhechnegol o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n dynodi effeithiau pwysig tebygol y cynllun, ac yn rhoi trosolwg o'r broses, gyda golwg ar ganfod sut y mae'r AC/AAS wedi dylanwadu ar Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r ddogfen hon ar gael ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## 1.5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.5.1 Roedd hefyd yn ofynnol i'r Cyngor wneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol. Rhaid i'r Asesiad

Rheoliadau Cynefinoedd benderfynu beth fydd effeithiau pwysicaf tebygol y Cynllun ar Safleoedd Ewropeaidd o bwysigrwydd cadwraeth natur a, lle bo'n berthnasol, sefydlu a fydd angen cael "asesiad priodol" a sut i'w weithredu. Mae Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol ar gael fel dogfen gefndir ar wefan y Cyngor Sir neu ar gais. I grynhoi, roedd yr adroddiad hwn yn gwneud asesiad manwl o'r tebygolrwydd y bydd cynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael effaith arwyddocaol ar 20 safle rhyngwladol yng Ngheredigion ac o amgylch y sir. Roedd nifer o gynigion a oedd naill ai'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar y Safleoedd Rhyngwladol, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Ond unwaith y'u hystyriwyd mewn perthynas â mesurau lliniaru, ni welwyd bod unrhyw bolisïau na dyraniadau yn debygol o gael effaith arwyddocaol, yn unigol nac mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen gwneud Asesiad Priodol.

# 2. Ymgynghori

## 2.1 Gweithgor Cynaliadwyedd

2.1.1 Sefydlwyd Gweithgor Cynaliadwyedd er mwyn gosod sail o wybodaeth a chyngor ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

2.1.2 Amcanion y Grŵp oedd:

i. helpu i ddatblygu'r fethodoleg ar gyfer yr AC/AAS ;
ii. helpu i ddynodi problemau a chyfleoedd addas o safbwynt amgylcheddol a chynaliadwy (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, llywodraethu da a defnyddio gwyddoniaeth yn gyfrifol);
iii. helpu i ddynodi a mesur amcanion cynaliadwyedd a dangosyddion monitro;
iv. darparu canllawiau ar gyfer asesu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n datblygu, o ran amcanion a dangosyddion AC/AAS
v. cyfrannu fel y bo'n briodol i'r broses Asesiad Priodol.

2.1.3 Trefnwyd aelodaeth y Grŵp er mwyn ceisio cydbwyso cyfraniadau sy'n adlewyrchu tair o'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy a rennir yn y Deyrnas Unedig, sef: "byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol", "sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn" a "sicrhau economi cynaliadwy". Rhestrir y sefydliadau sy'n aelodau o'r Grŵp yn Atodiad 9.

## 2.2 Ymgynghoriad Cwmpasu

2.2.1 Mae ymgynghori yn ofyniad gorfodol ar wahanol gyfnodau o'r broses AC/AAS. Yn ôl Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol Cymru, mae'n rhaid ymgynghori â'r tri chorff Ymgynghori (Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Cadw) ynglŷn â chwmpas a manylder yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol. Anfonwyd yr Adroddiad Cwmpasu i'r cyrff Ymgynghori yn unol â'r gofynion ymgynghori ar gyfer y cyfnod hwn yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yn ogystal â hynny cafodd adrannau eraill o'r Cyngor Sir (er enghraifft Hybu Iechyd a lles) gyfle i wneud sylwadau. Er mwyn gwneud y broses mor gynhwysol ag y bo modd, cafodd y cyhoedd gyfle cyfartal i wneud sylwadau am y ddogfen gwmpasu. Yn unol â Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol Cymru, gosodwyd cyfnod ymgynghori o bum wythnos ar gyfer y cyfnod cwmpasu. Ond oherwydd camgymeriad yn y cyfnod ymgynghori cychwynnol, roedd rhaid ymgynghori ynglŷn â'r adroddiad cwmpasu am gyfnod o naw wythnos.

2.2.2 Mae'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu wedi cael eu bwydo trwodd i gyfnodau nesaf yr AC/AAS. Mae crynodeb o'r sylwadau a gafwyd ynghyd ag eglurhad o'r ffordd y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yng nghyfnodau dilynol yr AC/AAS i'w gweld yn Atodiad 8 o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd

Cychwynol (2009), sydd ar gael ar wefan y Cyngor Sir www.ceredigion.gov.uk.

2.2.3 Yn ogystal â'r cam ymgynghori gorfodol, bu ymgynghori anffurfiol parhaus gyda'r cyrff ymgynghori wrth baratoi ar gyfer yr Adroddiad Cwmpasu. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy cwmpasu, cylchredeg drafftiau cynnar o'r adroddiad, a gweithdai eraill a fynychwyd gan ystod eang o randdeiliaid.

## 2.3 Ymgynghoriadau Eraill

2.3.1 Ym mis Mawrth 2009 ymgynghorwyd ynglŷn â Dogfennau Cyn-Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion am gyfnod o 6 wythnos (yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru). Y dogfennau yr ymgynghorwyd arnynt oedd Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol, yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) a'r Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

2.2.2 Mae'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghori ar yr Adroddiad Cynaliadwyedd Cychwynnol wedi bwydo ymlaen i gyfnodau nesaf yr AC/AAS. Mae Atodiad 8 o'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwydd – Fersiwn Adneuo (Rhagfyr 2010) yn rhoi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ynghyd ag eglurhad am y ffordd y rhoddwyd ystyriaeth iddynt yn y cyfnodau AC/AAS dilynol.

2.2.3 Ym mis Rhafyr 2010 ymgynghorwyd ar ddogfenau Adneuo CDLl Ceredigion am gyfnod o 8 wythnos (y ddwy wythnos ychwanegol, gan ganiatáu am gyfnod y Nadolig). Y dogfennau yr ymgynghorwyd arnynt oedd y CDLl Adneuo (Rhifynnau 1, 2A a 2B), yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd – Fersiwn Adneuo (gan ymgorffori'r Asesiad Strategol Amgylcheddol) a'r Adroddiad Sgrinio Asesu Rheoli Cynefinoedd Adneuo.

2.2.4 Mae'r barnau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghori ar yr Adroddiad Cynaliadwyedd Adneuo wedi bwydo i'r cyfnodau nesaf o'r AC/AAS. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ynghyd ag esboniadau o'r ffordd y cawsant eu hystyried yn y cyfnodau AC/AAS dilynol i'w weld yn Atodiad 1 o'r Atodiad i CDLl Ceredigion: Adroddiad Cynaliadwyedd Adneuo (Rhagfyr 2011).

2.2.4 Ym mis Rhagfyr 2011 a Gorffennaf 2012 ymgynghorwyd ar y dogfennau Newidiadau â Ffocws i CDLl Ceredigion a Newidiadau Materion yn Codi. Mae'r rhain yn cynnwys ygmyhgoriadau ar Arfarniadau Cynaliadwyedd (gan ymgorffori'r Asesiadau Amgylcheddol Strategol) ar gyfer y ddwy ddogfen, wedi'u cyflwyno fel atodiadau i'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Adneuo. Ni chafwyd unrhyw sylwadau i unrhyw rai o'r ddwy ddogfen Arfarniad o Gynaliadwyedd hyn.

2.2.5 Rhoddwyd datganiad yn dangos sut y rhoddwyd ystyriaeth i gasgliadau'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, a sylwadau am yr ymgynghoriad, ar gael i bawb yr ymgynghorwyd â hwy.

# 3. Methodoleg Gwerthuso

**Gofynion Deddfwriaethol**

## 3.1 Y Gofynion ar gyfer Arfarniad o Gynaliadwyedd

3.1.1 Mae Adran 62(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (Llywodraeth y Deyrnas Unedig 2004) yn mynnu bod y Cyngor yn gwneud Arfarniad o Gynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn paratoi adroddiad am y canfyddiadau fel rhan annatod o broses paratoi'r cynllun. Diffiniwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd fel: "proses systematig ac ailadroddol a gynhelir yn ystod paratoi (ac adolygu) cynllun sy'n dynodi ac yn adrodd i ba raddau y bydd gweithredu'r cynllun yn cyflawni'r amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y gellir diffinio datblygu cynaliadwy yn eu herbyn ac sy'n dynodi cyfleoedd i wella perfformiad y cynllun mewn perthynas â hwy" (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2002: 2).

3.1.2 Diben yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yw gwerthuso effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y strategaeth, y polisïau a'r cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol o ddechrau i ddiwedd y broses, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu Arfarniad o Gynaliadwyedd yn bwysig i ddangos bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn trwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy ac y bydd yn cyfrannu at gyfiawnhau'r polisïau yn rhesymegol.

## 3.2 Y Gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol

3.2.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) yn arnodi bod rhaid i Arfarniad o Gynaliadwyedd gynnwys ofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC, Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004), sy'n mynnu asesiad amgylcheddol ffurfiol wrth lunio rhai cynlluniau a rhaglenni (gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol) sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

3.2.2 Amcan y Gyfarwyddeb yw: 'darparu ar gyfer lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau … gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy, trwy sicrhau, yn unol â'r Gyfarwyddeb hon, y cynhelir asesiad amgylcheddol gyda rhai cynlluniau …sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd'. (Erthygl 1, 2001/42/EC).

3.2.3 Mae'r gyfarwyddeb yn cael ei chefnogi gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2004) lle mae Atodlen 2 o'r Rheoliadau yn mynnu bod y Cyngor yn asesu effeithiau arwyddocaol tebygol ei gynlluniau a rhaglenni ar: "yr amgylchedd, gan gynnwys yr effaith ar faterion megis bioamrywiaeth, poblogaeth, iechyd dynol, ffawna, fflora, pridd, dŵr, aer, ffactorau hinsoddol, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archaeolegol, y dirwedd a rhyngberthynas y ffactorau uchod gan gynnwys graddfa effeithiau cadarnhaol a negyddol, yn y tymor byr, tymor canol neu dymor hir, yn barhaol neu dros dro".

3.2.4 Bydd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi ac yn rhagfynegi unrhyw effeithiau amgylcheddol pwysig sy'n codi o'r cynigion; gan gynnwys unrhyw ddewisiadau eraill a'i fod yn cynnig mesurau i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Bydd raid i'r effeithiau sylweddol gael eu monitro unwaith y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei weithredu.

3.2.5 Un o ofynion allweddol rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yw bod Adroddiad Amgylcheddol yn cael ei baratoi ac y dylai'r adroddiad hwnnw ddynodi, disgrifio a gwerthuso'r effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd trwy:

- Weithredu'r cynllun neu raglen (y Cynllun Datblygu Lleol);
- Dewisiadau rhesymol eraill sy'n cymryd i ystyriaeth amcanion a sgôp daearyddol y cynllun neu raglen

3.2.6 I bob pwrpas bydd y papur hwn yn gweithredu fel Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ogystal ag Adroddiad Amgylcheddol. Pan fabwysiedir y CDLl, mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gynhyrchu Datganiad Amgylcheddol; mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi fel rhan o Ddatganiad Mabwysiadu'r Cynllun (Ebrill 2013).

### 3.3 Cydymffurfio gyda'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol

3.3.1 Mae'r gofynion statudol sy'n ymwneud â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad Cwmpasu (Cyngor Sir Ceredigion 2008) Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol, ac Aroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Paratowyd y tri adroddiad yn unol â'r canllawiau a nodir yn yr isod:

- Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006),
- Arfarniad o Gynaliadwyedd Strategaethau Gofodol Rhanbarthol a Dogfennau Datblygu Lleol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog 2005), a
- Canllaw Ymarferol i'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog et al 2005).

**Tabl 3.1. Y Gofynion o ran Adroddiadau Amgylcheddol**

| Cyfnodau yr Adroddiad Amgylcheddol | Cyfeiriadaeth |
|---|---|
| 1. Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun neu raglen, a'i gydberthynas (os yn berthasol) gyda chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill. | Adrannau 1, 2 ac Atodiad 1 o'r Adroddiad Cwmpasu<br><br>Adrannau 1, 3, a 4 o'r ISAR.<br><br>Adrannau 1, 3, 5, 6, ac Atodiadau 2 a 3 o'r SAR adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 2. Agweddau perthnasol am gyflwr | Adran 3 ac Atodiadau 2 i 13 o'r |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfredol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol pe na bai'r cynllun neu raglen yn cael eu gweithredu. | Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Adran 4 ac Atodiad 4 o'r ISAR.<br><br>Adran 4 ac Atodiad 7 o'r SAR Adneuo a'r Adrddiad hwn. |
| 3. | Nodweddion amgylcheddol yr ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol. | Adran 4 a 5 ac atodiadau 1 a 4 yr ISAR.<br><br>Adrannau 4 a 5 ac Atodiadau 1 a 7 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 4. | Unrhyw broblemau amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen gan gynnwys, yn arbennig, problemau sy'n gysylltiedig ag unrhyw ardal o arwyddocâd amgylcheddol arbennig, er enghraifft ardaloedd dynodedig yn ôl Cyfarwyddeb y Cyngor 79/409/EEC ar gadwraeth adar gwyllt a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | Adrannau 3, 4 ac Atodiadau 2 – 13 yr Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Adran 4 ac Atodiad 1 a 4 yr ISAR.<br><br>Adran 4 ac Atodiad 1 a 7 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 5. | Yr amcanion diogelu'r amgylchedd, a sefydlwyd ar lefel Rhyngwladol, Cymunedol neu Aelod Wlad, sy'n berthnasol i'r cynllun neu raglen a'r ffordd y mae'r amcanion hynny ac unrhyw ystyriaethau amgylcheddol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ei baratoi. | Adrannau 4 a 5 yr Adroddiad Cwmpasu.<br><br>Adran 5 ac Atodiad 1 yr ISAR.<br><br>Adrannau 3, 4 a 5 ac Atodiadau 1, 2 a 3 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 6. | Yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau tymor byr, tymor canol a thymor hir, effeithiau parhaol a dros dro, effeithiau cadarnhaol a negyddol, ac effeithiau eilaidd, crynodol a synergaidd, ar ystyriaethau gan gynnwys (a) bioamrywiaeth; (b) poblogaeth; (c) iechyd dynol; (d) ffawna; (e) fflora; (f) pridd; (g) dŵr (h) aer; (i) ffactorau hinsoddol; (j) asedau materol; (k) treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys pensaernïol ac archaeolegol a | Adrannau 4, 5, 6 a 7 ac Atodiadau 2 a 3 yr ISAR.<br><br>Adrannau 4, 5, 6 a 7 ac Atodiadau 4, 5 a 6 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | threftadaeth archaeolegol; (l) i dirwedd; a'r (m) ryngberthynas rhwng yr ystyriaethau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (a) i (l). | |
| 7. | Y mesurau a ragwelir i atal, lleihau a chyn belled ag y bo'n bosibl, gwrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd wrth weithredu'r cynllun neu raglen. | Adrannau 4, 5, 6 a 7 ac Atodiadau 2 a 3 yr ISAR.<br><br>Adrannau 4, 5, 6, a 7 ac Atodiadau 4, 5 a 6 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 8. | Amlinelliad o'r rhesymau am ddewis y dewisiadau eraill yr ymdrinnir â hwy, gyda disgrifiad o'r ffordd y cynhaliwyd yr asesiad gan gynnwys unrhyw anawsterau a wynebwyd wrth lunio'r wybodaeth ofynnol. | Adrannau 5 a 6 ac Atodiad 2 yr ISAR.<br><br>Adrannau 6, 7, 8 ac Atodiad 5 o'r SAR Adneuo a'r Adroddiad hwn. |
| 9. | Disgrifiad o'r mesurau a ragwelir ynglŷn â monitro yn unol â rheoliad 17. | Adran 8 ac Atodiad 1 o'r ISAR.<br><br>Adran 9 ac Atodiad 1 o'r SAR Adneuo ac Adran 10 ac Atodiad 1 o'r Adroddiad hwn. |
| 10. | Crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth a ddarparwyd ym mharagraffau 1 i 9. | Cyhoeddwyd crynodeb annhechnegol ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ac mae ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor Sir - www.ceredigion.gov.uk |

## 3.4 Camau a Thasgau yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd

3.4.1 Mae Ffigur 3.2 yn rhestru cyfnodau a thasgau'r AC/AAS, sy'n seiliedig ar y cyfnodau a thasgau a nodir yng nghanllawiau y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. Mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd hwn yn adlewyrchu'r hyn a gyfalwnwyd hyd at gyfnod D o'r broses AC/AAS.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod A** | Casglu gwybodaeth sylfaenol (gwaelodlin) / Adolygu Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni / Ymgynghori gyda Rhanddeiliaid | **Sefydlu beth yw'r prif ystyriaethau** | **Awst 2007 hyd at Fawrth 2008** |
| | ↓ Dynodi Ystyriaethau Amgylcheddol a Chynaliadwyedd | **Datblygu methodoleg yr Asesiad** | |
| | ↓ Diffinio Amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol | **Diffinio amcanion i asesu perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o ran cynaliadwyedd** | |
| **Cyfnod B** | ↓ Ystyried Dewisiadau Amgen | **Archwilio ffyrdd eraill o ddarparu'r Cynllun Datblygu Lleol** | **Mawrth 08 hyd at Fawrth 09 a Mawrth 2009 hyd at Ragfyr 2010** |
| | ↓ Asesu Effeithiau Pwysicaf gwahanol opsiynau'r CDLl | **Penderfynu pa effeithiau cynaliadwyedd sy'n arwyddocaol** | |
| | ↓ Cynnig mesurau Lliniaru a Gwella | **Lliniaru effeithiau negyddol a mwyhau effeithiau cadarnhaol** | |
| **Cyfnod C a D** | ↓ Cyhoeddi'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Ymgynghori | **Rhyddhau gwybodaeth i randdeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.** | **Mawrth 09 hyd at Ebrill 09 a Rhagfyr 2010 hyd at Chwefror 2011** |
| **Cyfnod E** | ↓ Monitro'r Effeithiau a Ragwelir | **Monitro a oedd rhagfynegiadau yn gywir a mesurau lliniaru yn effeithiol** | **Pan gaiff y Cynllun ei fabwysiadu** |

**Ffigur 3.2. Y prif gyfnodau yn y broses AC/AAS (SA/SEA) gydag amserlen a awgrymir ar gyfer cwblhau'r broses.**

## 3.5 Cwmpas yr Arfarniad

3.5.1 Mae'r meysydd testun a ystyriwyd gan AC/AAS Ceredigion yn cwmpasu'r testunau hynny sy'n ofynnol gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Ar ben hynny, mae testunau wedi cael eu cynnwys i ehangu sgôp cynaliadwyedd yr AC/AAS ac i sicrhau mwy o gydlyniad gyda Chynllun Gofodol Cymru a hefyd i sicrhau bod testunau sy'n arbennig o berthnasol i Geredigion wedi cael eu hystyried. Mae Tabl 3.3 yn dangos cwmpas y meysydd testun sydd i gael sylw yn AC/AAS Ceredigion; ynghyd â'r testunau a nodwyd yn y rheoliadau. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw ryngberthynas rhwng meysydd testun mewn perthynas â'r testun perthnasol fel yr argymhellir yn y canllawiau.

**Tabl 3.3. Meysydd testunau a ddewiswyd i'w cynnwys yn AC/AAS (SA/SEA) Ceredigion o gymharu â thestunau a restrwyd yn Rheoliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol**

| Testunau a restrir yn y Rheoliadau | Testunau sydd wedi eu cynnwys yn AC/AAS (SA/SEA) Ceredigion | Maes Cynaliadwyedd |
|---|---|---|
| Ffactorau Hinsoddol | Newid yn yr Hinsawdd a Llifogydd | Amgylcheddol |
| Pridd<br>Aer<br>Dŵr | Pridd, Aer a Dŵr | |
| Asedau Materol | Asedau Materol<br>i gynnwys cyfleustodau, gwastraff a mwynau | |
| Bioamrywiaeth<br>Ffawna<br>Fflora | Bioamrywiaeth<br>i gynnwys Ffawna a Fflora | |
| Tirwedd<br>Treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys Treftadaeth Bensaernïol ac Archaeolegol | Y Dirwedd a'r Amgylchedd Hanesyddol<br>i gynnwys Treftadaeth Ddiwylliannol.<br>Treftadaeth Bensaernïol ac Archaeolegol | |
| Poblogaeth<br>Iechyd Dynol | Poblogaeth a Thai<br>Iechyd Dynol a Lles<br>Hamdden, Adloniant a Thwristiaeth<br>Addysg a Sgiliau<br>Yr Iaith Gymraeg | Cymdeithasol |
| | Trafnidiaeth<br>Cyflogaeth ac Economi | Economaidd |
| Rhyngberthynas | Ymdrinnir â materion trawsbynciol pwysig mewn perthynas â phob testun | Ddim yn berthnasol |

3.5.2 Yn y Cyfnod Adneuo o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ynglŷn â'r Polisïau Manwl a'r Safleoedd a Neilltuwyd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Felly mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Adneuo, ynghyd â'i atodiadau, yn ymdrin â'r agweddau hyn. Aseswyd y Weledigaeth, Dewisiadau Strategol, y Strategaeth a Ffefrir a Pholisïau Strategol yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol.

# 4. Cyd-destun Cynaliadwyedd, Gwaelodlin ac Amcanion

## 4.1 Cynlluniau a Pholisïau Perthnasol / Y Cyd-destun Polisi

Beth mae Canllawiau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei ddweud...

> Gellir dylanwadu ar gynllun neu raglen mewn nifer o ffyrdd gwahanol gan gynlluniau neu raglenni eraill, neu gan amcanion diogelu amgylcheddol allanol fel y rhai a osodir gan bolisïau neu ddeddfwriaeth. Mae'r cydberthnasau hyn yn galluogi'r Awdurdod sy'n Gyfrifol i fanteisio ar synergeddau posibl ac i ddelio ag unrhyw anghysonderau a chyfyngiadau.
> (Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, 2005a)

4.1.1 Cynhaliwyd adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill er mwyn adnabod Amcanion Cynaliadwyedd amgylcheddol ac amcanion ehangach a fyddai'n gallu gosod cyfyngiadau neu achosi synergeddau trwy'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yr adolygiad o'r ddogfen yn cynnwys:

- Deddfwriaeth ryngwladol, confensiynau a chytuniadau y mae'r Deyrnas Unedig wedi ymuno â hwy;
- Deddfwriaeth Ewropeaidd ;
- Deddfwriaeth, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol (materion penodol i'r Deyrnas Unedig a Chymru);
- Nodiadau Cyngor Technegol ar gyfer cynllunio yng Nghymru; ac
- Adroddiadau, strategaethau a chanllawiau perthnasol eraill.

4.1.2 Mae rhestr wedi ei diweddaru o'r holl gynlluniau, polisïau a rhaglenni a adolygwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad hwn, a gellir gweld yr adolygiad gwreiddiol llawn o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni yn Atodiad 1 o'r Adroddiad Cwmpasu. Cyflwynwyd yr adolygiad ar sail testun wrth destun er mwyn ei gwneud yn haws adnabod yr Amcanion Cynaliadwyedd sy'n berthnasol i bob testun. Ond nid yw rhai o'r dogfennau a adolygwyd yn syrthio'n rhwydd i unrhyw un maes tesun arbennig, ac mae dogfennau eraill yr un mor bwysig ar draws nifer o destunau. Felly dylai cynlluniau, polisïau a rhaglenni gael eu rhannu rhwng testunau yn ôl yr hyn sy'n gweddu orau, yn hytrach na bod yn broses gategoreiddio bendant.

## 4.2 Cynllun Gofodol Cymru

4.2.1 Datblygwyd y dewisiadau polisi a ffefrir ar gyfer Strategaeth a Ffefrir a Chynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion er mwyn parchu nodau Strategaeth Ardal Canol Cymru Cynllun Gofodol Cymru.

4.2.2 Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Gofodol Cymru yn dynodi nifer o fesurau lliniaru cyffredinol er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yr Hierarchaeth Setliad Allweddol yn cael eu lleihau neu eu hosgoi, a bod y buddion posibl yn cael eu mwyhau yn ardal Ganol Cynllun Gofodol Cymru. Dyma'r mesurau:

- Sicrhau bod yr holl dai newydd yn cael eu hadeiladu i safonau uchel o ran effeithlonrwydd adnoddau, yn arbennig mewn perthynas â chadwraeth dŵr a defnyddio ynni a bod mesurau ar y raddfa ddatblygu, megis cyflenwi gwres a phŵer wedi eu cyfuno, yn cael eu hystyried yn ogystal â mesurau ar y raddfa unigol/lleol. Gellir gwneud asesiadau BREEAM ar y raddfa gymunedol, yn ogystal ag ar raddfa ddatblygu unigol mwy manwl.

- Annog datblygiadau economaidd newydd sy'n seiliedig ar gongl o'r farchnad/ ychwanegu gwerth ac sy'n debygol o ganolbwyntio mwy ar yr amgylchedd.

- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio llafur a deunyddiau o ffynonellau lleol, ac ystyrir ailddefnyddio deunyddiau mewn datblygiadau newydd, yn arbennig mewn perthynas â deunyddiau gydag egni isel ymgorfforedig a deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu.

- Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cael ei wasanaethu'n dda gan gynlluniau ailgylchu lleol, ac y buddsoddir mewn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o ailgylchu.

- Bioamrywiaeth – Blaenoriaethu datblygu safleoedd tir llwyd; rhaid i ddatblygiadau agos at gynefinoedd naturiol barchu cyfyngiadau rheoli datblygu; creu cynefinoedd sy'n digolledu unrhyw rai a gollir.

- Ffactorau hinsoddol (risg o lifogydd) – Rhaid cael Asesiadau Risg o Lifogydd ar gyfer pob datblygiad ym mharthau llifogydd Math B ac C; rhaid i ddatblygiadau mewn parthau arfordirol ystyried Cynlluniau Rheoli Traethlin.

- Tirwedd – rhaid i ddatblygiadau yng nghyffiniau Ardaloedd Cadwraeth ddilyn canllawiau dylunio, defnyddio deunyddiau lleol, ystyried mentrau cymeriad lleol ar gyfer datblygiadau newydd.

- Pridd – Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu safleoedd tir llwyd, annog adfer in-situ ac ailddefnyddio priddoedd.

- Dŵr – Rhaid i adeiladau mewn ardaloedd sydd mewn risg o lifogydd allu wrthsefyll llifogydd, cymryd gofal gyda gweithgareddau twristiaeth mewn amgylcheddau afonol.

4.2.3 Mae'r paragraffau canlynol yn adolygu sut y gall y polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion weithredu'r mesurau lliniaru ar gyfer yr Hierarchaeth Setliad Allweddol a fabwysiadwyd o Gynllun Gofodol Cymru.

**Sicrhau bod pob tŷ newydd yn cael ei adeiladu at safon uchel o effeithlonrwydd adnoddau**

4.2.4 Mae canllawiau cenedlaethol yn mynnu bod pob tŷ sy'n cael ei adeiladu yn ôl Lefel 3 y Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy, sy'n mynnu ei fod o safon amgylcheddol uchel. Mae hyn yn cwmpasu cadwraeth dŵr a'r defnydd o ynni. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn cynnwys cyfres o bolisïau sy'n delio â materion dylunio, yn arbennig Polisi DM06 Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel, Polisi DM11 Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd a Pholisi DM12 Seilwaith Cyfleustodau. Mae Polisi DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy hefyd yn cefnogi hyn.

**Annog datblygiadau economaidd newydd sy'n hawlio cornel o'r farchnad, yn ychwanegu gwerth ac yn debygol o fod â mwy o ffocws amgylcheddol.**

4.2.5 Nod y Cynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â'r economi yw annog economi blaengar, amrywiol a hyblyg ac yn hyn o beth y mae'n cefnogi'r camau lliniaru a awgrymir yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae Polisi LU11 Cynigion ar safleoedd a neilltuwyd: a Pholisi LU12 Cynigion cyflogaeth ar safleoedd heb eu neilltuo yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion a nodir yn asesiad diweddaraf Ceredigion o anghenion economaidd (DTZ, Diweddariad 2010).

**Sicrhau bod datblygiad newydd yn cael ei ddarparu trwy ddefnyddio llafur a defnyddiau o ffynonellau lleol, ac y rhoddir ystyriaeth i ailddefnyddio defnyddiau mewn datblygiadau newydd, yn arbennig mewn perthynas â defnyddiau sydd ag ynni ymgorfforol isel a defnyddiau wedi eu hailgylchu.**

4.2.6 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn annog defnyddio defnyddiau sy'n tarddu o ffynonellau lleol ym Mholisi LU27 Cyflenwad cynaliadwy o adnoddau mwynol, ond ni all y Cynllun Datblygu Lleol ddylanwadu'n uniongyrchol ar y ffynonellau y mae datblygwyr yn eu dewis ar gyfer eu defnyddiau. O safbwynt y farchnad lafur, mae Adran Polisïau a Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn anelu at gyflawni anghenion economaidd a'r angen am dai yn y Sir, a ddylai gynorthwyo i gadw a hyrwyddo twf gweithlu cryf ac amrywiol.

**Gofalu bod pob datblygiad newydd yn cael ei wasanaethu yn dda gan gynlluniau ailgylchu lleol ac y buddsoddir mewn cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus o ailgylchu.**

4.2.7 Ni all y Cynllun Datblygu Lleol godi ymwybyddiaeth uniongyrchol o ailgylchu, ond fe all helpu i ddarparu'r cyfleusterau sy'n ei gwneud yn bosibl ailgylchu. Mae Polisi LU31: Adennill adnoddau a chyfleusterau rheoli gwastraff a Pholisi LU32 Datblygu a'r hierarchaeth gwastraff yn cefnogi hyn.

**Bioamrywiaeth – Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu safleoedd tir llwyd; rhaid i ddatblygiadau cyfagos i gynefinoedd naturiol barchu cyfyngiadau rheoli datblygu; a chreu cynefinoedd newydd i wneud iawn am unrhyw golledion.**

4.2.8 Gan fod Ceredigion yn sir wledig i raddau helaeth, ychydig o dir llwyd sydd yma i gael ei ddatblygu. Ond, lle chwiliwyd am ddyraniadau tir o'r fath, mae'r Safleoedd Posibl sydd wedi cael eu dynodi ar dir llwyd wedi cael asesiad mwy ffafriol yn gyffredinol na safleoedd tebyg ar safleoedd tir glas. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi arwain at ddyraniadau tir, er enghraifft, M0302 Maes Parcio Heol y Felin yn Aberystwyth. Gwnaethpwyd astudiaeth fel rhan o'r broses asesu Safleoedd Posibl i ddynodi'r ardaloedd sydd o werth mwyaf o ran bioamrywiaeth. Pan ddaeth yn amser dewis safleoedd a neilltuwyd, tueddwyd yn gyffredinol i osgoi'r ardaloedd o werth mwyaf. Lle nad oedd yn bosibl eu hosgoi, neu lle roedd ardaloedd bychan o werth uchel o ran bioamrywiaeth yn cael eu cynnwys fel rhan o'r safle, defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd gan y Ganolfan Cofnodion Leol i lunio mesurau lliniaru posibl. Mae'r mesurau hynny'n cael eu hamlinellu yn Rhestrau Safleoedd a Neilltuwyd y Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 2a). Hefyd bydd Polisïau DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol a DM15 Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol yn ystyriaethau materol ym mhob datblygiad ac maent yn cynnwys elfennau sy'n ymwneud â chreu cynefinoedd i wneud iawn am unrhyw golledion.

**Ffactorau hinsawdd (risg o lifogydd) – Mae angen Asesiadau Risg o Lifogydd ar gyfer pob datblygiad ym mharthau llifogydd B ac C; bydd datblygiadau mewn parthau arfordirol yn rhoi ystyriaeth i Gynlluniau Rheoli Traethlin.**

4.2.9 Mae Polisi DM11 Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd yn mynnu bod y risg o lifogydd yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw ddatblygiadau, ac mae gofynion TAN 15 yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â'r mathau penodol o ddefnydd y gellir eu caniatáu ar barthau llifogydd Math B ac C. Mae Polisi DM23 Rheoli'r Arfordir yn mynnu bod pob datblygiad yn rhoi ystyriaeth i Gynllun Rheoli Traethlin Bae Ceredigion. Cynhaliwyd Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn Aberystwyth ac Aberteifi i ganfod ym mha safleoedd y mae'r risg mwyaf o lifogydd ac i awgrymu mesurau lliniaru posibl. Pan gyflwynir unrhyw gais cynllunio ar gyfer safleoedd a neilltuwyd lle mae risg o lifogydd, boed yn afonol, arfordirol neu o ddŵr ffo arwyneb, mae'n rhaid cynnwys Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gyda'r cais.

**Tirwedd - bydd datblygiadau yng nghyffiniau Ardaloedd Cadwraeth yn dilyn canllawiau dylunio, yn defnyddio defnyddiau lleol ac yn ystyried y cymeriad lleol mewn unrhyw ddatblygiad newydd.**

4.2.10 Mae Polisïau DM06: Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel, DM07 Ardaloedd Cadwraeth, DM09 Dyluniad a Symudiad a DM10 Dyluniad a'r Dirwedd i gyd yn cynnwys elfennau sy'n mynnu bod safleoedd ac adeiladau mewn Ardaloedd Cadwraeth a'u cyffiniau yn cael eu datblygu'n addas. Mae Polisïau DM17 Tirwedd Gyffredinol, DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig (SLA) a DM19 Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol, sy'n delio â thirwedd mewn termau mwy cyffredinol, lle mae cymeriad hanesyddol yr Ardaloedd Cadwraeth yn ffactor, hefyd yn helpu i gefnogi'r mesur lliniaru yma a awgrymir.

**Pridd – Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu safleoedd tir llwyd, annog adfer ac ailddefnyddio pridd ar y safle ei hunan.**

4.2.11 Gan fod Ceredigion yn sir wledig i raddau helaeth, ychydig o dir llwyd sydd yma i gael ei ddatblygu. Ond, lle chwiliwyd am ddyraniadau tir o'r fath, mae'r Safleoedd Posibl sydd wedi eu lleoli ar dir llwyd wedi cael asesiad mwy ffafriol yn gyffredinol na safleoedd tebyg ar safleoedd tir glas. Mewn llawer o achosion mae hyn wedi arwain at ddyraniadau tir, er enghraifft, M0302 Maes Parcio Heol y Felin yn Aberystwyth.

**Dŵr – Bydd adeiladau mewn ardaloedd lle mae risg o lifogydd yn gallu gwrthsefyll llifogydd. Rhaid bod yn ofalus gyda gweithgareddau twristiaeth mewn amgylcheddau afonol.**

4.2.12 Mae Polisi DM11 Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd yn mynnu bod y risg o lifogydd yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiadau, ac mae gofynion TAN 15 yn cyfeirio at fathau penodol o ddefnydd y gellir eu caniatáu ym mharthau llifogydd Math B ac C. Mae Polisi LU17 Cyfleusterau Twristiaeth/Atyniadau yn ceisio cyfeirio gweithgareddau twristiaeth at ddatblygu cynaliadwy, gan gynnwys gweithgareddau mewn amgylcheddau afonol.

## 4.3 Cynlluniau Datblygu a Chynlluniau Cymunedol Awdurdodau Cyfagos

4.3.1 Bydd perthynas agos rhwng Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion a chynlluniau statudol eraill y cyngor – y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Iechyd a Lles a phan gyhoeddir ef, y Cynllun Integredig Sengl. Bydd hefyd, i wahanol raddau, yn rhyngweithio gyda chynlluniau awdurdodau cyfagos, sef, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Syr Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ar ben hynny, mae tref fwyaf y sir, Aberystwyth, yn dref o bwys cenedlaethol a dylanwadir ar ei datblygiad gan nifer o strategaethau cenedlaethol sydd yng Nghynllun Gofodol Cymru a'i statws fel Ardal Adfywio Strategol.

4.3.2 Gan hynny, wrth gynllunio ar gyfer twf ar raddfa briodol a dyrannu safleoedd i'w datblygu, bydd y canlyniad mewn nifer o ardaloedd yn deillio o gyfuniad o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion a chynlluniau

datblygu'r ardaloedd cyfagos. Gallai rhai amgylchiadau fod wedi codi lle mae pob awdurdod yn cynllunio ar gyfer lefel briodol o dwf mewn anheddiad, ond bod eu cynlluniau o'u cyfuno at ei gilydd yn arwain at lefel annerbyniol o dwf ar draws yr anheddiad cyfan, neu mewn aneddiadau cyfagos o boptu'r ffin sirol. Er mwyn delio â'r broblem honno, wrth asesu addasrwydd safleoedd datblygu posibl (yn arbennig o ran Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) rhoddwyd ystyriaeth i leoliad a maint dyraniadau datblygu Awdurdodau cyfagos, ac i'r twf crynodol a allai ddigwydd. Gwnaethpwyd hynny trwy weithio'n agos gyda swyddogion o Awdurdodau cyfagos, gan drafod polisïau, amcanion a gweledigaeth, a chydgysylltu ymatebion i broblemau a rennir.

4.3.3 Daeth yn glir drwy'r broses o ymgynghori gydag Awdurdodau cyfagos bod maint a natur y canlyniadau posibl yn amrywio o un lle i'r llall. Er enghraifft, oherwydd y ddaearyddiaeth leol, a lleoliad y prif ganolfannau twf, cyfyngedig iawn yw'r effeithiau crynodol sy'n deillio o dai a thwf economaidd rhwng Cyngor Sir Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Penfro, Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Ond yn y gogledd gallai statws cenedlaethol Aberystwyth fod yn ddylanwadol, ond gan ei fod yn gymharol bell o drefi pwysig eraill Canol Cymru y mae'n annhebygol y bydd yn ddylanwadol iawn yn yr ardaloedd hynny.

4.3.4 Canfuwyd mai rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin y bydd tai a thwf economaidd yn cael y dylanwad mwyaf ar draws y ffiniau, gan fod nifer o aneddiadau pwysig y ddwy sir wedi eu lleoli ar hyd Dyffryn Teifi. Yng Ngheredigion, y rhain yw Canolfannau Gwasanaethau Trefol Llanbedr Pont Steffan a Llandysul a Chanolfannau Gwasanaethau Gwledig Cenarth ac Adpar. Yn Sir Gaerfyrddin yr aneddiadau hynny yw Anheddiad Haen 2 Castell Newydd Emlyn ac Anheddiad Haen 3 Llanybydder (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2009). Mae pob un o'r aneddiadau hyn yn gysylltiol â, neu'n gyfagos i anheddiad neu ganolfan poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin (hynny yw Llanbedr Pont Steffan a Chwmann, Llandysul a Phontwelly, Adpar a Chastell Newydd Emlyn a Llanybydder a Highmead). Mae Cenarth yn pontio dwy ochr afon Teifi a'r ffin sirol ac mae perthynas agos rhwng poblogaeth y ddwy sir. Gan hynny, bu'r ddwy Sir yn ofalus wrth ysgrifennu Strategaethau Anheddiad eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Adlewyrchir hynny yn y statws a roddir i'r aneddiadau yn Strategaethau a Ffefrir y ddwy sir, ac yn achos Ceredigion, yn y Cynllun Adneuo. Yn y rhain gofelir bod darpariaeth ar gyfer lefel briodol o dwf yn yr ardal, bod anghenion yn cael eu diwallu yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a bod unrhyw orddarpariaeth yn cael ei osgoi.

4.3.5 Yng nghyd-destun twf, gwelwyd bod ystyriaethau trawsffiniol posibl rhwng Ceredigion a Chyngor Sir Penfro hefyd. Mae Aberteifi, y dref fwyaf ond un yng Ngheredigion wedi ei lleoli yn agos at y ffin Sirol, ac er nad yw'r berthynas rhwng Aberteifi a threfi mwyaf Sir Benfro,

sef Llandudoch, Cilgerran, Boncath a Chrymych mor bwysig â'r berthynas rhwng pentrefi Teifi, cymerwyd gofal i ddarparu ar gyfer anghenion yr ardal yn ei chyfanrwydd, gan sicrhau bod yr angen yn cael ei ddiwallu yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a bod unrhyw orddarpariaeth yn cael ei osgoi. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan statws Aberteifi fel Canolfan Gwasanaethau Trefol, a gan statws Crymych fel Canolfan Gwasanaetau a statws Llandudoch, Cilgerran a Boncath fel Prif Bentrefi Gwasanaethau yn hierarchaeth aneddiadau Strategaeth Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro (2013).

4.3.6 Mae effaith grynodol bosibl y ffactorau trawsffiniol ar ansawdd y dirwedd wedi bod yn ystyriaeth bwysig, nid yn unig wrth ffurfio'r polisi ond hefyd yn yr asesiad AC/AAS o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion. Gallai datblygu ffermydd gwynt gael effaith trawsffiniol sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â lleoli Ardaloedd Chwilio Strategol. Ym Mynyddoedd Cambria, mae Ardal Chwilio Strategol D yn croesi ffin Ceredigion/Powys, ac mae Ardal Chwilio Strategol G, sy'n gyfan gwbl o fewn Sir Gaerfyrddin, yn y golwg o nifer helaeth o brif dderbynyddion yng Ngheredigion. Er bod datblygu Ardaloedd Chwilio Strategol yn cael ei gyfeirio'n genedlaethol i raddau helaeth, y polisi wrth lunio Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion oedd datblygu mewn mannau eraill er mwyn cyfyngu ar yr effeithiau crynodol y mae datblygu ffermydd gwynt yn eu cael ar y dirwedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym Mynyddoedd Cambria sy'n dirwedd o bwys cenedlaethol (System Wybodaeth LANDMAP, 2007 - 2013), a rennir gyda Phowys ac sydd yn y golwg o Barciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog.

4.3.7 Er mwyn lleihau effaith pob math o ddatblygiad ar ansawdd y dirwedd, mae Cynghorau Sir Ceredigion a Chaerfyrddin wedi dewis amddiffyn eu tirwedd fwyaf gwerthfawr trwy eu dynodi yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae gweithredu'n gyson fel hyn o fudd amlwg i'r ddwy sir, ac mae'n cyfateb i'r ffordd y mae tirwedd yn cael ei rheoli'n genedlaethol trwy ddynodi ardaloedd megis Parciau Cenedlaethol Eryri a Sir Penfro yng Ngheredigion, a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn achos Powys a Sir Gaerfyrddin.

4.3.8 Ar hyn o bryd mae peth ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y bydd tirwedd yn cael ei rheoli gan Gyngor Sir Gwynedd, sydd heb Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn ei Gynlluniau Datblygu Unedol (Cyngor Sir Gwynedd, 2009). Ar adeg ysgrifennu, nid yw Cyngor Sir Gwynedd eisoes wedi ymgynghori ar ei ddogfennau CDLl Cyn-Adneuo. Mae Cynghorau Sir Penfro (2013) a Phowys (2012) yn ystyried meini prawf sy'n seiliedig ar ymagweddau polisi tuag at eu tirweddau yn eu CDLlau.

4.3.9 Mae mwynau a gwastraff yn ddau faes arall lle mae gorgyffwrdd yn digwydd. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn gosod fframwaith ar gyfer echdynnu mwynau. Mae'r materion hyn wrthi'n cael eu trafod

gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Orllewin Cymru. Trwy’r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, mae’n ofynnol i’r Cyngor Sir sicrhau lleoliad i gyfleuster trin gwastraff posibl yn y rhanbarth. Yr ydym yn cwrdd â’r gofyniad hwn trwy ddynodi tir yng Nglanyrafon, Aberystwyth (E0301).

# 5. Gwaelodlin Gymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd

## Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud

> Mae gwybodaeth sylfaenol (gwaelodlin) yn gosod y sail i ragamcanu a monitro effeithiau amgylcheddol ac yn helpu i ddynodi problemau amgylcheddol a ffyrdd posibl eraill o ymateb iddynt. Gellir defnyddio gwybodaeth ansoddol a meintiol at y diben hwnnw.
>
> Mae nodi problemau amgylcheddol yn gyfle i ddiffinio ystyriaethau allweddol a gwella amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Bydd awdurdodau cyfrifol yn ymwybodol o lawer o broblemau amgylcheddol y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Ond mae'n bwysig chwilio am unrhyw broblemau posibl, ar sail:
>
> i. Profiadau blaenorol gyda phroblemau a nodir mewn cynlluniau a rhaglenni eraill;
> ii. Nodi tensiynau posibl gyda chynlluniau, rhaglenni ac amcanion eraill o ran amddiffyn yr amgylchedd;
> iii. Dynodi tensiynau posibl rhwng amodau'r waelodlin bresennol/ ac yn y dyfodol a'r amcanion, targedau ac ymrwymiadau presennol; ac
> iv. Ymgynghori gyda'r Cyrff Ymgynghori a'r cyhoedd.
>
> Mae'n rhaid i'r dasg o ddynodi problemau amgylcheddol fod yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth sylfaenol.
> (ODPM, 2005a)

5.1.1 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn wybodaeth a data meintiol ac ansoddol sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r sir gyfan gan ei bod yn bosibl i'r Cynllun Datblygu Lleol ddylanwadu'n sylweddol ar bob ardal.

5.1.2 Mae dau ddiben i wybodaeth sylfaenol. Mae'n helpu i nodi ar ba ystyriaethau y dylai'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ganolbwyntio, ac mae'n gosod meincnod ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun (a chywirdeb unrhyw ragamcanion). Yn ogystal â dangos beth yw'r sefyllfa gyfredol mae'r data sylfaenol yn dangos, lle bo modd, beth oedd y sefyllfa yn y gorffennol a beth yw'r rhagamcanion yn y dyfodol, er mwyn awgrymu tueddiadau at y dyfodol. Lle bo gwybodaeth am dueddiadau o'r fath yn bodoli, mae'n bwysig sylweddoli bod hyn yn gallu newid yn y dyfodol mewn ymateb i newid mewn deddfwriaeth neu ymyriadau eraill.

5.1.3 Mae Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gyfer Cymru yn mynnu bod gwybodaeth yn cael ei darparu ynglŷn â'r "... agweddau perthnasol o gyflwr presennol yr amgylchedd a'i esblygiad tebygol pe na bai'r cynllun neu raglen yn cael eu gweithredu". Fe all fod yn

anodd disgrifio sut y byddai'r amgylchedd yn debygol o esblygu pe na bai'r Cynllun Gweithredu yn bodoli (yn aml, cyfeirir at hyn fel y senario 'heb y cynllun' neu waelodlin y dyfodol). Yn aml nid oes data ar gael ynglŷn â'r tueddiadau i'r dyfodol. Ond yn yr adroddiad hwn gwnaethpwyd ymdrech lle bynnag y bo modd i ddisgrifio gwaelodlin y dyfodol ar gyfer pob un o bynciau'r AC/AAS.

5.1.4 Yn Atodiad 7 yr adroddiad hwn ceir portread o waelodlin amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer Ceredigion. Cyflwynir y waelodlin gan ddefnyddio'r un dull, seiliedig ar bapur pwnc, a ddefnyddir yn yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'n cwmpasu newidiadau a gwybodaeth ychwanegol a gasglwyd ers ymgynghori ynglŷn â'r adroddiad hwnnw.

## 5.2 Y prif broblemau ac ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a nodwyd

5.2.1 Yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn rhestrir y prif ystyriaethau sy'n effeithio ar Geredigion a'r amcanion a dangosyddion posibl a gynigir i asesu a monitro'r ystyriaethau hynny. Mae'r gwaith o gasglu tystiolaeth yn dal ar y gweill ac mae anawsterau yn dal i fodoli mewn perthynas â chasglu gwybodaeth a data ar rai pynciau.

## 5.3 Amcanion Cynaliadwyedd

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> Er nad yw'r Gyfarwyddeb yn mynnu'n benodol bod amcanion Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael eu pennu, y mae hynny'n ffordd gydnabyddedig o ystyried effeithiau amgylcheddol cynllun neu raglen a chymharu effeithiau dewisiadau eraill. Mae eu hamcanion yn wahanol i amcanion y cynllun neu raglen er y gallant fod yn gorgyffwrdd i raddau. Defnyddir amcanion Asesiad Amgylcheddol Strategol i helpu i ddangos a yw amcanion y cynllun neu raglen yn fuddiol i'r amgylchedd, er mwyn cymharu effeithiau amgylcheddol gwahanol bosibiliadau, neu er mwyn awgrymu gwelliannau. Er enghraifft, gall gwella bioamrywiaeth fod yn un o amcanion cynllun neu raglen, yn ogystal ag Asesiad Amgylcheddol Strategol, ond fe allai'r cynllun neu raglen hefyd gynnwys yr amcan o amddiffyn safleoedd bywyd gwyllt penodol a gellir rhoi prawf ar hynny yn erbyn amcan o wella bioamrywiaeth.
> Yn aml gall amcanion Asesiad Amgylcheddol Strategol ddeillio o amcanion amgylcheddol a sefydlir mewn deddfwriaeth, polisi neu gynlluniau a rhaglenni eraill, neu o arolwg o wybodaeth sylfaenol a phroblemau amgylcheddol. Gellir eu defnyddio neu eu haddasu ar gyfer Asesiadau Amgylcheddol Strategol o gynlluniau a rhaglenni cysylltiedig, er bod gan bob cynllun neu raglen unigol eu hamcanion penodol eu hunain. (ODPM, 2005a)

5.3.1 Ar ôl penderfynu ynghylch yr ystyriaethau, fe'u defnyddiwyd i lunio Amcanion Cynaliadwyedd sydd, rhyngddynt, yn ffurfio Fframwaith Asesu Cynaliadwyedd. Defnyddiwyd y fframwaith hwnnw i asesu

cynaliadwyedd yr elfennau sy'n ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol (er enghraifft, amcanion, polisïau, dyraniadau ac ati). Yn Atodiad 1 ceir fersiwn o'r fframwaith wedi ei ddiweddaru.

5.3.2 Mae Atodiad 1 hefyd yn dangos y berthynas rhwng y materion cynaliadwyedd a nodwyd a'r Amcanion Cynaliadwyedd a bennwyd. Hefyd gwneir asesiad o gydweddoldeb mewnol yr amcanion. Yn Adran 3 yr adroddiad hwn dangosir sut y mae'r Amcanion Cynaliadwyedd yn cyflawni gofynion Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd 2001/42/EC (Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol).

5.3.3 Bwriedir bod amcanion yr AC/AAS yn cwmpasu'r ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a allai ddeillio o gynllun neu raglen. Felly mae amcanion yr AC/AAS a ddefnyddir yn yr AC/AAS yn cynrychioli holl gwmpas yr asesiad a wnaethpwyd i ganfod yr effeithiau posibl hynny.

5.3.4 Roedd gan y Gweithgor Cynaliadwyedd swyddogaeth hanfodol o adnabod yr amcanion hynny a chytuno arnynt. Y mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd wedi cytuno arnynt (13/12/2007).

5.3.5 Bwriad yr amcanion hynny yw nodi cyfeiriadau ar gyfer newid, yn hytrach na chanlyniadau terfynol. Am y rheswm hwnnw ni phennir unrhyw dargedau. Yng nghyd-destun yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y nod yw cyflawni'r amcan yn llawn. Yn Atodiad 1 cyflwynir dangosyddion posibl ar gyfer yr Amcanion Cynaliadwyedd ac amlinellir y cynigion i fonitro canlyniadau Cynaliadwyedd y Cynllun. Mae dangosyddion Atodiad 1 wedi eu mireinio yn Nhabl 9.1, sydd i'w weld yn Rhan 9 Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

5.3.6 Mae'r holl amcanion (prif amcanion ac is-amcanion) wedi eu hystyried wrth wneud asesiadau. Fodd bynnag, at ddibenion cofnodi'r asesiadau, defnyddiwyd y prif amcanion yn unig.

**Tabl 5.1. Y Prif Amcanion Cynaliadwyedd ar gyfer Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion**

| Rhif yr Amcan | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| 1a | Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod. |
| 1b | Sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru effeithiau newid hinsawdd. |
| 1c | Lleihau'r risg o lifogydd |
| 2a | Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a chyfaint y pridd. |
| 2b | Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion. |
| 2c | Lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a chyfaint |

| Rhif yr Amcan | Amcan Cynaliadwyedd |
|---|---|
| | adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol. |
| 3a | Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. |
| 3b | Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. |
| 4a | Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth. |
| 5a | Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, arwahanrwydd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion. |
| 6a | Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod gofynion demograffig newidiol yn cael eu hadlewyrchu. |
| 6b | Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol |
| 7a | Hybu cymunedau iach a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i'w cynnal. |
| 8a | Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar yng Ngheredigion |
| 9 | Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion. |
| 10 | Gwarchod cymunedau trwy hybu defnydd o'r iaith Gymraeg |
| 11a | Lleihau'r angen i deithio/defnyddio trafnidiaeth a hybu ffurfiau cynaliadwy o drafnidiaeth |
| 11b | Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau a gwella cysylltedd er budd yr economi. |
| 12 | Annog economi bywiog ac amrywiol. |

## 5.4 Newidiadau tebygol yn y cyd-destun amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn absenoldeb unrhyw Gynllun

5.4.1 Wrth ragamcanu'r senario 'dal ymlaen fel arfer' neu 'heb y cynllun' y cam cyntaf yw penderfynu beth yn union mae hynny'n ei olygu. Yr ydym wedi cymryd y byddai gweithredu heb gynllun yn golygu parhau gyda'r Cynllun Datblygu Unedol presennol. Ond wrth i'r Cynllun ddod yn nes at ddiwedd ei oes (2016), mae'n debygol o fod yn llai perthnasol a defnyddiol, a bydd angen gwneud penderfyniadau yn ôl polisïau cenedlaethol, ac yn unol â gwybodaeth, barn a blaenoriaethau Aelodau a Swyddogion y Cyngor (Tabl 5.2). Dylid nodi bod y Cynllun Datblygu Unedol heb ei fabwysiadu, fodd bynnag, ac eithrio Polisïau H1.2B a H1.3, roedd pob polisi'n cario pwys perthansol sylweddol a than i'r CDLl gael ei fabwysiadu roeddent yn cael eu defnyddio ar gyfer pwrpasau Rheoli Datblygiad.

5.4.2 O ran cynaliadwyedd, mae effeithiau'r dehongliad hwn yn cael eu rhagfynegi yn y tabl isod yng nghyd-destun Amcanion Cynaliadwyedd. Dewiswyd yr Amcanion Cynaliadwyedd fel cyd-destun i'r ymarferiad hwn oherwydd eu bod yn gosod y cyd-destun a ddefnyddiwyd i fesur effeithiau tebygol y Cynllun. Maent hefyd yn gosod y fframwaith arfaethedig ar gyfer monitro cynaliadwyedd.

## Tabl 5.2. Y newidiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a fyddai'n deillio o absenoldeb Cynllun.

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod | Prif ffynonellau Carbon Deuocsid yng Ngheredigion yw trafnidiaeth a gwresogi domestig a masnachol.<br><br>Mae'r tueddiadau mewn trafnidiaeth ceir yn dangos cynnydd graddol ym Mhrydain Fawr yn ei chyfanrwydd, ac yng Ngheredigion. Fe all polisi cenedlaethol a ffactorau allanol eraill, megis pris olew, gwtogi neu wrthdroi'r tueddiad yma, ond mae'r defnydd o geir wedi parhau i dyfu yn y blynyddoedd diweddar er gwaethaf cynnydd ym mhris tanwydd.<br><br>Mae strategaeth ofodol y cynllun datblygu cyfredol a pholisi cenedlaethol, fel cynigion y Cynllun Datblygu Lleol, yn ceisio crynhoi datblygiadau yn y prif aneddiadau, gyda'r nod o leihau trafnidiaeth ceir.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio canolbwyntio datblygiad yn chwe phrif dref Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron, ond mae hefyd yn caniatáu dyraniadau cyfyngedig mewn aneddiadau llai. Mae'r dull hwn o weithredu yn gosod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn agos at y cyfleusterau a'r gwasanaethau presennol fel bod llai o angen i bobl deithio i fanteisio arnynt.<br><br>Pan ddaw'r Cynllun i ben, ac os caniateir datblygiadau ar hap yn niffyg strategaeth prif aneddiadau, yna mae'r defnydd o geir yn debygol o ddal i gynyddu yn fwy nag y byddai pe bai'r fath strategaeth yn bodoli.<br><br>Nid yw'r Cynllun Datblygu Unedol presennol yn rhoi cefnogaeth weithredol i ddatblygu adeiladau o ddyluniad cynaliadwy. Gan hynny, ni fyddai bod hebddo yn cael llawer o effaith ar leihau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn y cartref ac yn fasnachol. Ond byddai gweithredu safonau uwch ar gyfer adeiladu cynaliadwy, megis y Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy a BREEAM ar lefel genedlaethol yn gallu arwain at gyfyngu allyriadau. |
| Sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru effeithiau newid hinsawdd | Boed Cynllun Datblygu yn bodoli neu beidio bydd TAN 15 yn rhoi canllawiau manwl ynglŷn â datblygu a llifogydd. Bydd dogfennau polisi eraill, fel Cynllun Rheoli Traethlin Ceredigion, hefyd yn dylanwadu ar gyfeiriad lle y gellir lleoli twf yn y dyfodol.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys polisïau i ddelio gyda draenio dŵr a dŵr ffo, ond mae angen mwy o fanylion yn y polisïau gan nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i ddefnyddio seilwaith SDCau nag unrhyw fath arall o reolaeth dŵr cynaliadwy. Heb fod cynllun, gallai datblygiadau ad-hoc arwain at gynnydd annerbyniol mewn dŵr ffo arwyneb pe bai dulliau anaddas o reoli dŵr yn cael eu defnyddio.<br><br>Mae'r polisïau bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd sydd yn y cynllun hefyd yn cynnwys elfen o hyblygrwydd, a gallai colli hynny arwain at ddifodiant rhai rhywogaethau yn y sir. |
| Lleihau'r risg o lifogydd | Boed Cynllun Datblygu yn bodoli neu beidio bydd TAN 15 yn rhoi canllawiau manwl ynglŷn â datblygu a llifogydd. Mewn ardaloedd arfordirol bydd Cynllun Rheoli Traethlin Caeredigion hefyd yn dylanwadu ar gyfeiriad lle y gellir lleoli |

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| | twf y dyfodol.<br><br>Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys polisïau a fwriedir i ddelio â draeniad dŵr a dŵr ffo, ond mae angen mwy o fanylion yn y polisi gan nad oes unrhyw ofynion i sefydlu seilwaith SDCau nac unrhyw fath arall o reolaeth dŵr cynaliadwy. Heb fod cynllun, gallai datblygiadau ad-hoc arwain at gynnydd annerbyniol yn y dŵr ffo arwyneb pe bai dulliau amhriodol o reoli dŵr yn cael eu defnyddio. |
| Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a chyfaint y pridd | Bydd unrhyw fath o ddatblygiad yn arwain yn anochel at golli rhywfaint o bridd. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio lleihau'r effaith honno trwy grynhoi datblygiadau mewn canolfannau trefol ac ar safleoedd o ddwysedd uchel.<br><br>Mae gan y Cynllun Datblygu Unedol bolisïau i ddelio gydag adferiad tir, ansefydlogrwydd tir a chorsydd mawn, ond nid yw'r rhain yn werthfawr iawn yn achos datblygu cyffredinol.<br><br>Pe na bai'r cynllun yn bodoli, gallai datblygu hap fasnachol arwain at gynnydd yn nifer y datblygiadau ar safleoedd tir glas ac mewn lleoliadau gwledig, gan arwain at ganlyniadau negyddol o ran cyfaint pridd. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig pe bai datblygiadau mawr yn cael eu caniatáu ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |
| Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion | Mae gan y Cynllun Datblygu Unedol bolisïau ar gyfer lleihau llygredd aer. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chanoli datblygiadau mewn lleoliadau priodol a gostwng amseroedd teithio.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio crynhoi datblygiadau yn y chwe phrif dref sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron, ond y mae hefyd yn caniatáu rhai dyraniadau ar gyfer aneddiadau llai. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau sy'n bodoli'n barod fel bod llai o angen i bobl deithio er mwyn manteisio arnynt.<br><br>Pan fydd y cynllun yn dod i ben ac os caniateir datblygu hap fasnachol yn niffyg strategaeth anheddu allweddol, yna mae'r defnydd o geir yn debygol o barhau i gynyddu mwy nag y byddai pe bai strategaeth o'r fath yn bodoli.<br><br>Nid yw'r Cynllun Datblygu Unedol presennol yn rhoi cefnogaeth weithredol i ddatblygu adeiladu trwy ddylunio cynaliadwy. Felly ni fyddai ei absenoldeb yn cael fawr ddim effaith ar leihau nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu cynhyrchu yn y cartref ac yn fasnachol. Ond, fe all gweithredu safonau uwch o adeiladu cynaliadwy, megis y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM ar lefel genedlaethol gyfyngu rhywfaint ar allyriadau. |
| Lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys polisïau sydd â'r bwriad o leihau effaith datblygiadau ar ansawdd a chyfaint dŵr trwy ganiatáu datblygu lle mae adnoddau eisoes yn bodoli yn unig, a lle nad oes effaith niweidiol sylweddol ar ddŵr yn gyffredinol.<br><br>Yn absenoldeb cynllun gallai datblygiad ad-hoc olygu bod adnoddau dŵr yn cael eu niweidio trwy leoli yn anaddas. I ryw raddau, bydd polisi cenedlaethol yn gallu cyfyngu ar rywfaint o'r effeithiau hyn trwy gyfyngu ar ddatblygiad ar orlifdir cydnabyddedig. |

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | Mae adnoddau naturiol yn cwmpasu amrywiaeth eang o elfennau, rhai ohonynt yn dod o fewn dylanwad y Cynllun Datblygu Unedol a rhai y tu allan iddo.<br><br>Mae'r Cynllun yn annog datblygu seilwaith ynni adnewyddadwy yn y sir, ac mae nodyn arweiniad, sy'n gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun, yn annog gwneud defnydd o ddefnyddiau o ffynonellau lleol.<br><br>Yn absenoldeb Cynllun bydd TAN 8 yn cyfeirio'r ffordd y mae'r Sir yn datblygu seilwaith ynni adnewyddadwy. Bydd canllawiau eraill, megis Polisi Cynllunio Cymru sy'n mynnu gweithredu'r Cod ar gyfer Tai Cynaliadwy a BREEAM, yn annog gwneud defnydd o ddefnyddiau o ffynonellau cynaliadwy addas.<br><br>Mewn perthynas â mwynau, byddai MTAN 1 yn rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â lleoli datblygiadau, ond heb y dyraniadau a'r clustogfeydd a gynigir yn y Cynllun, fe allai fod yn anodd osgoi rhai o'r effeithiau negyddol. |
| Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | Mae gwasanaethau a seilwaith yn cwmpasu ystod eang ac amrywiol o bynciau gan gynnwys trafnidiaeth, dŵr, carthffosiaeth, gwastraff, TGCh, gofal iechyd a hamdden. Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys ystod eang o bolisïau i ddelio â hyn, a hynny mewn ffordd sy'n effeithio cyn lleied ag y bo modd ar yr amgylchedd. Mae cwmnïau cyfleustodau, megis Dŵr Cymru yn seilio eu rhaglenni buddsoddi ar y twf a bennir at y dyfodol mewn cynlluniau datblygu. Felly yn niffyg cynllun o'r fath ni fyddai gan y cwmnïau hyn arweiniad lleol i fod yn sail i'w penderfyniadau. Gan hynny, byddai cyfleustodau yn debygol o gael eu darparu ar sail ad-hoc. |
| Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth | Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys polisïau sy'n cwmpasu diogelu bioamrywiaeth, amddiffyn safleoedd, cysylltedd ac amddiffyn rhywogaethau, yn ogystal â nifer o bolisïau yn ymwneud â mathau penodol o gynefinoedd.<br><br>Yn absenoldeb y Cynllun byddai polisïau cenedlaethol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored, a byddai deddfwriaeth genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer safleoedd cadwraeth yn parhau i'w hamddiffyn rhag datblygu uniongyrchol. Ond gallai diffyg polisïau ynglŷn â chysylltedd niweidio gwerth bioamrywiaeth cyffredinol y safleoedd a'r sir gyfan.<br><br>Byddai bioamrywiaeth yn debygol o ddirywio mwy pe na bai'r Cynllun yn bodoli. Mae hyn yn debygol oherwydd bod polisïau tirwedd a bioamrywiaeth y cynllun yn darparu canllawiau polisi ychwanegol, sy'n cael eu chwyddo trwy baratoi canllawiau cynllunio ategol. |
| Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol a nodweddion unigryw lleol Ceredigion, a'i threftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol. | Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys nifer o bolisiau sy'n mynnu y cymerir tirwedd i gyfrif fel rhan o bob datblygiad. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel perthynas â'r ffurf adeiledig, dylunio sympathetig ac amddiffyn nodweddion fel coed a gwrychoedd. At hyn, mae'r cynllun hefyd yn amddiffyn tirweddau gwerth mwyaf Ceredigion trwy ddynodi nifer o Ardaloedd Tirwedd Arbennig.<br><br>Yn absenoldeb polisïau tirwedd y Cynllun Datblygu Unedol gallai integriti cyffredinol y dirwedd yng Ngheredigion fod mewn perygl, er y byddai canllawiau cenedlaethol yn cyfyngu ar y risg yma trwy gyfyngu ar ddatblygiad mewn cefn gwlad agored. |

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| | Byddai ansawdd y dirwedd yn debygol o ddirywio mwy pe na bai'r Cynllun yn bodoli. Mae hyn yn debygol oherwydd bod dynodi tirwedd a pholisïau'r Cynllun yn rhoi arweiniad ychwanegol ynglŷn â pholisi. Mae hyn yn cael ei chwyddo drwy baratoi canllawiau cynllunio ategol. |
| Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod gofynion demograffig newidiol yn cael eu hadlewyrchu | Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol yn cwmpasu materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, diogelu'r amgylchedd hanesyddol, a darparu Tai Fforddiadwy. Mae materion megis newidiadau demograffig yr ardal hefyd yn cael sylw yno, a bydd hyn yn cael ei gryfhau trwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol. Ar ben hynny, mae cymhwyso Asesiadau Effaith Cymunedol yn ffordd werthfawr o benderfynu effeithiau posibl datblygiad a'r ffordd y gellir rhoi sylw i'r effeithiau hynny.<br><br>Ni all cynllunio'r defnydd o dir gael dim mwy nag effaith gyfyngedig ar y pwnc hwn. Yn absenoldeb y Cynllun byddai'r amgylchedd hanesyddol yn dal i gael ei ddiogelu trwy'r gwahanol ddynodiadau. Fe allai fod rhyw gymaint o ddirywiad pe na bai Cynllun yn bodoli ond mae'n anodd pwyso a mesur hynny.<br><br>Byddai'n bosibl delio'n rhannol gyda newid demograffig ar lefel genedlaethol a thrwy reoli adeiladu er enghraifft gofyniad bod tai preswyl yn cwrdd â safonau Cartrefi Gydol Oes. |
| Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | Mae polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol yn cwmpasu materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg, diogelu'r amgylchedd hanesyddol a darparu Tai Fforddiadwy. Hefyd mae cymhwyso'r Asesiadau Effaith Cymunedol yn offeryn gwerthfawr i benderfynu beth fydd effeithiau posibl gwahanol ddatblygiadau a sut y gellir delio â'r canlyniadau hynny.<br><br>Ni all cynllunio'r defnydd o dir gael dim mwy nag effaith gyfyngedig ar y pwnc hwn. Yn absenoldeb y Cynllun byddai'r amgylchedd hanesyddol yn dal i gael ei ddiogelu trwy'r gwahanol ddynodiadau. Fe allai fod rhyw gymaint o ddirywiad pe na bai Cynllun yn bodoli ond mae'n anodd pwyso a mesur hynny. |
| Hybu cymunedau iach a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i'w cynnal | Fe all gwasanaethau gynnwys ystod eang o gyfleusterau ac mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys polisïau sy'n cwmpasu darparu ac amddiffyn cyfleusterau addysg, gofal iechyd, cymuned, hamdden ac adloniant.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio crynhoi datblygiad yn y chwe phrif dref sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron, ond y mae hefyd yn caniatáu rhyw gymaint o ddyraniadau mewn aneddiadau llai. Mae'r dull hwn o weithredu yn gosod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn agos at y cyfleusterau a gwasanaethau presennol ac felly'n gwneud y cymunedau hynny yn fwy gwydn.<br><br>Yn absenoldeb y cynllun gallai datblygu ad-hoc arwain at leoli tai mewn mannau lle nad yw'n bosibl cynnal y cyfleusterau hynny, gan gynyddu'r angen i bobl deithio i'w cyrraedd.<br><br>Canlyniad posibl arall yw y byddai rhai cyfleusterau'n diflannu gan na fydd unrhyw bolisïau i wrthsefyll newid defnydd ohonynt. |

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar yng Ngheredigion | Mae twristiaeth yn un o sectorau economaidd mwyaf Ceredigion ac mae'n dod o dan nifer o bolisïau a luniwyd gyda golwg ar wahanol agweddau ar y diwydiant. Mae'r polisïau'n pwysleisio'r angen i ymgorffori mesurau cynaliadwy mewn datblygiadau twristiaeth, yn arbennig eu bod o fewn cyrraedd trafnidiaeth gyhoeddus. Hefyd mae polisi sy'n delio'n benodol â Thwristiaeth Werdd a Thwristiaeth Ddiwylliannol.<br><br>Mae polisïau seiliedig ar y gymuned i ddelio â chyfleusterau cyffredinol hamdden ac adloniant ac maent yn ceisio cyfyngu ar unrhyw golli safleoedd hamdden yn ogystal ag annog datblygu rhai newydd.<br>Yn absenoldeb y cynllun byddai'n bosibl datblygu caeau chwarae a mannau gwyrdd anffurfiol eraill, gan eu bod gan amlaf wedi eu lleoli ar dir gwastad sy'n draenio'n dda, sy'n cael eu ffafrio gan ddatblygwyr.<br><br>Fe all cyfleusterau twristiaeth fod wedi eu lleoli mewn mannau anhygyrch, a byddai hynny yn achosi cynnydd mewn trafnidiaeth y ffyrdd a dirywiad yn ansawdd yr aer. |
| Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion | Mae darparu'n uniongyrchol ar gyfer addysg a sgiliau y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun Datblygu Unedol, ond mae polisïau yn bodoli sy'n cefnogi datblygu cyfleusterau o'r fath.<br><br>Yn absenoldeb Cynllun, gellid colli cyfleusterau cymunedol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion addysg gan na ellid gwrthsefyll newid defnydd ohonynt. Ar ben hynny, byddai datblygu tai ad-hoc ar draws y sir yn golygu bod cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd lle nad oes dim neu fawr ddim darpariaeth addysgol. Trwy annog twf economaidd bydd y Cynllun Datblygu Unedol, a'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill, yn helpu i hwyluso datblygiad sgiliau newydd. Heb unrhyw gynllun, gallai'r cyfleoedd hynny fynd ar ddifancoll. |
| Amddiffyn cymunedau Cymraeg a hybu defnydd o'r iaith Gymraeg | Er bod yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth wrth benderfynu ceisiadau cynllunio, nid oes gan y Cynllun Datblygu Unedol bolisi penodol sy'n pennu sut i ddelio â hyn. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio datrys hynny trwy weithredu asesiadau cymunedol a ieithyddol gyda golwg ar adeiladu sail o dystiolaeth ar gyfer penderfynu ceisiadau yn y dyfodol, o safbwynt yr iaith. Gan hynny mae effaith bod heb gynllun yn ansicr. |
| Lleihau'r angen i deithio a hybu dulliau cynaliadwy o deithio | Mae'r tueddiadau o ran defnyddio ceir yn dangos cynnydd cyson yng Ngheredigion ac ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Gallai polisi cenedlaethol neu ffactorau allanol eraill, megis prisiau olew, arafu neu wrthdroi'r tueddiad yma, ond bu cynnydd mewn defnyddio ceir dros y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf y codiad ym mhrisiau tanwydd.<br><br>Mae strategaeth ofodol y cynllun datblygu cyfredol a pholisi cenedlaethol yn ceisio, fel y mae cynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn crynhoi datblygiadau i'r prif aneddiadau, gyda golwg ar leihau teithio mewn ceir.<br><br>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio crynhoi datblygiad yn y chwe phrif dref sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron, ond y mae hefyd yn caniatáu rhyw gymaint o ddyraniadau mewn aneddiadau llai. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau sy'n bodoli'n |

| Amcan Cynaliadwyedd | Fersiwn Addasiadau a Gynigir Cynllun Datblygu Unedol Ceredigion (2001-2016) |
|---|---|
| | barod fel bod llai o angen i bobl deithio er mwyn manteisio arnynt.<br><br>Pan ddaw'r Cynllun i ben ac os caniateir datblygu hapfasnachol yn absenoldeb strategaeth anheddu allweddol, y mae'n debygol y bydd cynnydd mewn defnyddio ceir. |
| Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau a gwella cysylltedd er budd yr economi | Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn ceisio crynhoi datblygiad yn y chwe phrif dref sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul a Thregaron, ond y mae hefyd yn caniatáu rhyw gymaint o ddyraniadau mewn aneddiadau llai. Mae'r dull hwn o weithredu yn golygu bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau sy'n bodoli'n barod fel bod llai o angen i bobl deithio er mwyn manteisio arnynt. Wrth wneud hynny mae'n haws sicrhau cysylltedd rhwng gwahanol rannau o'r sir, ac mae gosod datblygiadau cyflogaeth yn y prif ganolfannau hefyd yn hwb i'r economi.<br><br>Yn absenoldeb unrhyw gynllun gallai datblygiadau ad-hoc arwain at broblemau cysylltedd, gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn gorfod dibynnu ar geir preifat i gyrchu gwasanaethau a chyfleusterau. Gallai canllawiau cenedlaethol i atal datblygu yng nghefn gwlad agored gyfyngu ar hyn i raddau. |
| Annog economi bywiog ac amrywiol | Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn cefnogi'r economi trwy ddyrannu safleoedd ar gyfer cyflogaeth mewn ardaloedd allweddol, a thrwy bennu polisïau, yn seiliedig ar feini prawf, ar gyfer datblygiadau mewn mannau eraill.<br><br>Yn absenoldeb y Cynllun, gallai datblygu economaidd ddigwydd yn unrhyw le, heblaw am gefn gwlad agored neu mewn ardal breswyl ddwys. Gallai hynny fod yn fuddiol i'r economi gan na fyddai'n rhaid i fusnesau penodol leoli eu hunain mewn safleoedd cyflogaeth lle gall rhenti a gwerth tiroedd fod yn uwch. Ond fe allai canlyniadau hynny fod yn niweidiol iawn i'r amgylchedd, yn ogystal ag i ddiogelwch y cyhoedd.<br><br>Gallai caniatáu i gyfleusterau twristiaeth, er enghraifft safleoedd carafannau, ddatblygu yn ddigyfyngiad achosi i'r sector dyfu. Ond gallai datblygu digyfyngiad arwain at ddirywiad yn ansawdd y dirwedd. Mae hyn yn agwedd ar y Sir sy'n werthfawr iawn i ymwelwyr. Felly gallai twf digyfyngiad niweidio ei hun yn y pendraw. |

## 5.5 Cysondeb Amcanion

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> Bydd yn rhaid rhoi prawf ar amcanion y cynllun neu raglen yn erbyn yr amcanion Asesiad Amgylcheddol Strategol i ganfod unrhyw synergedd ac unrhyw anghysondebau posibl. Gallai'r wybodaeth honno fod yn help i ddatblygu posibiliadau eraill wrth ddatblygu'r cynllun neu raglen, ac mewn rhai achosion gallai helpu i fireinio amcanion y cynllun neu raglen ei hun. Lle bo gan gynllun neu raglen nifer o amcanion fe allai hefyd fod yn help rhoi prawf arnynt yn erbyn ei gilydd, gan y gallai anghysondebau achosi canlyniadau amgylcheddol niweidiol.
>
> Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005a)

5.5.1 Mae amcanion AC/AAS a nodir yn Adran 5.3 wedi cael eu profi o ran cydweddoldeb yn unol â'r canllawiau uchod. Defnyddiwyd dull matrics i wneud hynny, sy'n gyson â'r canllawiau yn ogystal â'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer AC/AAS Cynllun Gofodol Cymru. Dangosir crynodeb o'r asesiad cydweddoldeb yn Ffigur 5.3. Dylid nodi mai'r 'prif' amcanion yn unig a ystyriwyd fel rhan o'r prawf cydweddoldeb.

5.5.2 Fel y gwelir yn Ffigur 5.3, mae nifer fawr o amcanion AC/AAS naill ai'n gyson â'i gilydd, neu bod dim perthynas rhyngddynt. Lle nad oes unrhyw berthynas rhwng yr amcanion mae hynny'n golygu bod modd eu cyflawni yr un pryd â'i gilydd heb unrhyw wrthdaro.

5.5.3 Ond mae ansicrwydd rhwng cydweddoldeb rhai amcanion a gallai hynny achosi gwrthdaro posibl. Er enghraifft fe all yr amcanion ar gyfer twf a'r economi effeithio'n niweidiol ar bynciau amgylcheddol, oni bai bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r ffordd y gweithredir hynny.

5.5.4 Gellir rhoi sylw i unrhyw anghydweddoldeb rhwng amcanion AC/AAS trwy:

- Ailddiffinio un amcan neu'r ddau ohonynt er mwyn dileu neu leihau maint y gwrthdaro; neu
- Ymchwilio i ystod o wahanol ddewisiadau ar gyfer cyflawni un o'r amcanion fel bod ei effaith ar yr amcan arall yn amrywio. Bydd yr amrywiad effaith yn cael ei asesu mewn cyfnodau diweddarach o'r AC/AAS gan arwain at ddewis opsiynau polisi sy'n lleihau'r gwrthdaro rhwng yr amcanion.

5.5.5 Ni nodwyd unrhyw anghydweddoldeb rhwng amcanion Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Ceredigion.

# Ffigur 5.3. Cymharu cydweddoldeb Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (fersiwn cryno).

| | |
|---|---|
| C | Yr amcanion yn cydweddu â'i gilydd |
| ? | Ansicrwydd ynglŷn â chydweddoldeb |
| N | Nid yw'r amcanion yn cydweddu |
| - | Dim perthynas rhwng yr amcanion |

| | 1a. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid hinsawdd | 1c. Lleihau'r risg o lifogydd | 2a. Diogelu ansawdd a chyfaint pridd | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Gwarchod ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr | 3a. Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | 3b. Gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella'r dirwedd | 6a. Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw | 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth gynaliadwy a chyfleusterau adloniant a hamdden | 9a. Adeiladu'r sylfaen addysg a sgiliau | 10. Hybu defnydd o'r iaith Gymraeg | 11a. Hybu mathau cynaliadwy o drafnidiaeth/teithio | 11b. Gwella hygyrchedd gwasanaethau | 12a. Annog economi bywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1a. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1b. Addasu i newid hinsawdd | C | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 1c. Lleihau'r risg o lifogydd | C | C | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2a. Diogelu ansawdd a chyfaint pridd | C | C | C | | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | C | C | - | C | | | | | | | | | | | | | | | |
| 2c. Gwarchod ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr | - | - | C | C | C | | | | | | | | | | | | | | |
| 3a. Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | C | C | - | C | C | C | | | | | | | | | | | | | |
| 3b. Gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | | | | | | | | | | | |
| 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth | C | C | C | C | C | C | C | ? | | | | | | | | | | | |
| 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella'r dirwedd a threftadaeth yn eu cyfanrwydd | - | - | C | C | C | C | C | ? | C | | | | | | | | | | |
| 6a. Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw | - | - | - | - | - | - | - | - | - | C | | | | | | | | | |
| 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | ? | ? | C | ? | ? | ? | ? | C | ? | - | C | | | | | | | | |
| 7a. Cynnal cymunedau iach | ? | ? | ? | C | C | C | ? | C | C | ? | ? | C | | | | | | | |
| 8a. Twristiaeth gynaliadwy a chyfleusterau adloniant a hamdden | ? | ? | C | - | C | C | ? | C | C | C | ? | C | C | | | | | | |
| 9. Adeiladu'r sylfaen addysg a sgiliau | - | - | - | - | - | - | - | C | - | - | ? | C | C | ? | | | | | |
| 10. Hybu defnydd o'r iaith Gymraeg | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | - | C | C | | | | |
| 11a. Hybu mathau cynaliadwy o drafnidiaeth/teithio | C | C | C | - | C | - | C | ? | C | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | | | |
| 11b. Gwella hygyrchedd gwasanaethau | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | C | C | C | C | ? | | |
| 12. Annog economi bywiog ac amrywiol | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | ? | C | ? | C | C | ? | ? | C | |

# 6. Arfarniad o Gynaliadwyedd o Weledigaeth ac Amcanion y Cynllun

## 6.1 Datblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion

6.1.1 Mae Strategaeth Gymunedol 2005 - 2020 (Cyngor Sir Ceredigion 2005) yn sefydlu'r weledigaeth ar gyfer Ceredigion ac yn gosod y fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer cynlluniau a strategaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r strategaeth yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, ac fel rhan o'r adolygiad, cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu mewn perthynas â'r Strategaeth Gymunedol/Cynllun Datblygu Lleol er mwyn cael consensws ynglŷn â gweledigaeth ac amcanion posibl y dogfennau. Gan fod amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn fwy ar y blaen na'r Strategaeth Gymunedol, lluniwyd gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn unig, ond maent wedi cael eu seilio ar yr un wybodaeth a fydd yn sail i'r Strategaeth Gymunedol neu'r hyn a fydd yn ei ddisodli.

6.1.2 Yn dilyn y gweithgareddau hyn, lluniwyd gweledigaeth ddrafft ac amcanion drafft ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Ymgynghorwyd ymhellach â'r rhain trwy ymgysylltu â Gweithgorau'r Rhanddeiliaid Allweddol ac Aelodau'r Cyngor. Cawsant eu hasesu ymhellach yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd a'u rhyddhau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Mawrth 2009.

6.1.3 Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol:

- Gorwel o 15 mlynedd,
- Mae'n neilltuol ar gyfer Ceredigion,
- Mae'n rhoi ystyriaeth i agenda a pholisïau Llywodraeth Cymru ac i strategaethau a chynlluniau awdurdodau cyfagos, ac
- Mae'n dal hanfod y teimladau a aseswyd yn y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd.

6.1.4 Nodir isod y weledigaeth a fynegir yn y Cynllun Datblygu Lleol.

> O Fynyddoedd Cambria i Fae Ceredigion, bydd Ceredigion yn parhau i fod yn sir gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth, gydag ymrwymiad i gynnal, gwella a chael budd o harddwch ei harfordir, uwchdiroedd a dyffrynnoedd afonol.
>
> Bydd yn gartref i rwydwaith bywiog o gymunedau dwyieithog cysylltiedig, rhai trefol a gwledig, y mae eu trigolion yn mwynhau iechyd da a lles. Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol, ac yn cofleidio a dylanwadu ar newid i gwrdd â heriau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys newid hinsawdd. Wrth gefnogi a gwella canolfannau Gwasanaethau trefol a gwledig y Sir, bydd eu rhyngberthynas yn cael ei hatgyfnerthu, yr angen i deithio yn lleihau a hygyrchedd y cyfleusterau lleol a chynaliadwy yn cael eu gwella a'u diogelu.
>
> Trwy ddatblygu cynaliadwy a gwarchod ei hadnoddau, bydd Ceredigion hefyd yn cael ei hadnabod am y gwelliant yn ei hamgylchedd ac yn darparu a sicrhau tai priodol o ansawdd uchel ac economi cadarn, amrywiol a blaengar.

6.1.5 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi 18 o amcanion sy'n ymateb i faterion penodol y mae'n rhaid i'r Cynllun eu trafod. Bydd yr amcanion hynny'n helpu i gyflawni Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ac yn helpu i ymateb i'r materion a'r tueddiadau a danlinellir yn yr Adroddiad Cwmpasu ac i wneud arolwg cyffredinol o'r wybodaeth economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylfaenol. Rhestrir amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn Nhabl 6.1.

**Tabl 6.1. Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol**

| **Lefel, Dosbarthiad a Math o Dwf** |
|---|
| Amcan 1: Darparu ar gyfer adeiladu ystod ac amrywiaeth o dai i gwrdd â'r angen mewn ardaloedd trefol a gwledig ac i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth Ceredigion sy'n cynyddu ac yn heneiddio, rhwng 2007 a 2022. |
| Amcan 2: Hybu economi gwledig cynaliadwy, amrywiol a blaengar er budd Ceredigion a'i chymunedau lleol; ac annog adfywiad ac esblygiad trefi'r Sir fel eu bod yn barod i gwrdd â heriau economi modern a deinamig. |
| Amcan 3: Hyrwyddo twf y sector manwerthu cynaliadwy er mwyn cynnal a gwella canolfannau bywiog mewn trefi a diogelu a gwella cyfleusterau manwerthu lleol a chymunedol trwy'r Sir. |
| Amcan 4: Annog a hyrwyddo sector twristiaeth cynaliadwy, ecogyfeillgar blwyddyn gron trwy Geredigion a gynhelir gan sail gadarn o lety da sy'n darparu ar gyfer ystod eang o farchnadoedd ac yn darparu ystod o gyfleusterau ar gyfer pob tymor. |
| Amcan 5: Hybu patrwm o dwf sy'n helpu i gynnal bywiogrwydd nid yn unig mewn trefi a'r ardaloedd gwledig o'u hamgylch, ond hefyd cymunedau gwledig y sir fawr hon mewn ffordd sy'n hyrwyddo nodweddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ac yn hybu hygyrchedd a chysylltedd cynaliadwy i'r eithaf posibl. |
| **Ffurf y Datblygiad** |
| Amcan 6: Cynnal a gwella amgylchedd adeiledig o ansawdd uchel sy'n: caniatáu ar gyfer dyluniad arloesol, yn adlewyrchu ymdeimlad o le, sy'n hygyrch iawn, yn ddefnyddiol, yn ddiogel byw ynddo ac yn helpu i wella iechyd a lles ei gymunedau. |
| **Cymuned** |
| Amcan 7: Gwella a helpu i sicrhau y darperir ac y cynhelir lefel briodol o fynediad i gyfleusterau a gwasanaethau addysg, iechyd, diwylliannol, cymdeithasol, adloniant, cymunedol, chwaraeon a hamdden. |
| **Yr Iaith Gymraeg** |
| Amcan 8: Cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg a hyrwyddo cymunedau dwyieithog cynhwysol yng Ngheredigion. |
| **Amgylchedd / Newid Hinsawdd** |
| Amcan 9: Sicrhau bod datblygiadau unigol a chrynodol yn helpu i leihau cyfraniad Ceredigion at nwyon tŷ gwydr. Sicrhau bod pob datblygiad yn gallu addasu ac ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a gweithio tuag at leihau'r risg o lifogydd. |
| Amcan 10: Ceisio cael cydbwysedd rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol, yn arbennig mewn perthynas ag ynni gwynt ac wrth benderfynu beth fydd swyddogaeth technolegau ynni adnewyddadwy eraill. |
| Amcan 11: Cynnal a gwella tirwedd Ceredigion gan gwmpasu'r amgylcheddau gweledol, |

| |
|---|
| hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol. |
| Amcan 12: Atal colledion mewn bioamrywiaeth a hybu gwelliant a chysylltedd mewn bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn perthynas â rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth leol, gan wella mwynhad a dealltwriaeth o fioamrywiaeth trwy hybu mynediad i safleoedd o ddiddordeb cadwraeth, yn amodol ar allu diogelu eu huniondeb ecolegol. |
| Amcan 13: Annog dull cynaliadwy o ddatblygu mewn lleoliadau arfordirol tra'n amddiffyn uniondeb treftadaeth naturiol a materol yr ardal. |
| Amcan 14: Diogelu a rheoli gwasanaethau ecosystem ac adnoddau naturiol Ceredigion, gan gynnwys pridd, aer dŵr a geoamrywiaeth, er mwyn cynnal a gwella eu gwerth heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| Amcan 15: Darparu cyflenwad digonol a chynaliadwy o adnoddau mwynol i gwrdd ag anghenion cymdeithas, heb gyfaddawdu ag anghenion yr amgylchedd, mwynderau, geoamrywiaeth nac adnoddau'r dyfodol. |
| **Seilwaith a Gwasanaethau** |
| Amcan 16: Cynorthwyo i wella'r potensial ar gyfer teithio cynaliadwy; cydraddoldeb mynediad; a chysylltedd y sir er budd ei heconomi, ei chymunedau a'u hiechyd a lles. |
| Amcan 17: Hyrwyddo darpariaeth ddigonol o gyfleustodau drwy'r sir. |
| Amcan 18: Darparu ar gyfer rheolaeth gynaliadwy gwastraff ac adennill adnoddau, yn anelu at leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, iechyd dynol, cymdeithas a'r economi, creu mwy o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd a chwrdd â gofynion cymunedau a busnesau. |

## 6.2 Cydweddoldeb y Weledigaeth gydag Amcanion yr AC/AAS

6.2.1 Er mwyn gwneud Arfarniad o Gynaliadwyedd y weledigaeth hon, mae tri pharagraff y weledigaeth yn cael eu hystyried gyda'i gilydd mewn cymhariaeth â'r Amcanion Cynaliadwyedd (Ffigur 6.2). Cynhwysir y matrics llawn ar gyfer yr arfarniad yn Atodiad 4.

**Ffigur 6.2. Yr asesiad o Weledigaeth Ddrafft Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion**

| Amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd | Gweledigaeth | |
|---|---|---|
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod | "Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol, ac yn mabwysiadu a dylanwadu ar newid i gwrdd â heriau'r 21ain Ganrif gan gynnwys Newid Hinsawdd". Mae hyn yn cefnogi'r amcan. | + |
| Sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru effeithiau newid hinsawdd | "Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol, ac yn mabwysiadu a dylanwadu ar newid i gwrdd â heriau'r 21ain Ganrif gan gynnwys newid hinsawdd". Mae hyn yn cefnogi'r amcan. | + |
| Lleihau'r risg o lifogydd | "Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol, ac yn mabwysiadu a dylanwadu ar newid i gwrdd â heriau'r 21ain Ganrif gan gynnwys newid hinsawdd". Bydd angen ystyried yr angen i leihau'r risg o lifogydd. | ? |
| Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a chyfaint y pridd | Ni ragwelir unrhyw effeithiau. | 0 |
| Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion | "Bydd y cymunedau hyn yn dathlu eu treftadaeth ddiwylliannol, ac yn mabwysiadu a dylanwadu ar newid i gwrdd â heriau'r 21ain Ganrif gan gynnwys newid hinsawdd". Bydd angen lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y sir. | + |
| Lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol | Ni ragwelir unrhyw effeithiau. | 0 |
| Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | "Trwy ddatblygu cynaliadwy a diogelu ei hadnoddau". Mae hyn yn cefnogi'r amcan. | + |
| Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel | Mae'r weledigaeth yn anelu at ddarparu tai o ansawdd uchel. | + |
| Gwerthfawrogi, diogelu a gwella | "Bydd Ceredigion yn parhau i fod yn sir | + |

| | | |
|---|---|---|
| bioamrywiaeth | gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth". Mae hyn yn cefnogi'r amcan. | |
| Deall, gwerthfawrogi, amddiffyn a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol a nodweddion unigryw lleol Ceredigion, a'i threftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol. | Mae'r weledigaeth yn anelu at ddiogelu tirwedd a threftadaeth, gan gynnwys ei harfordir, uwchdiroedd a dyffrynnoedd afonol. | + |
| Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau bod gofynion demograffig newidiol yn cael eu hadlewyrchu | Mae'r weledigaeth yn anelu at ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol y sir a datblygu cymunedau dwyieithog. | + |
| Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | Mae'r weledigaeth yn anelu at ddarparu tai o ansawdd uchel. | + |
| Hybu cymunedau iach a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i'w cynnal | Mae'r weledigaeth yn anelu at hybu "cymunedau trefol a gwledig y mae eu trigolion yn mwynhau iechyd da a lles". | + |
| Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac ecogyfeillgar yng Ngheredigion | Ni ragwelir unrhyw effeithiau. | 0 |
| Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion | Ni ragwelir unrhyw effeithiau. Ond gallai fod manteision addysgol posibl trwy'r weledigaeth o economi amrywiol gref. | 0 |
| Amddiffyn cymunedau Cymraeg a hybu defnydd o'r iaith Gymraeg | Mae'r weledigaeth yn anelu at hybu cymunedau dwyieithog. | + |
| Lleihau'r angen i deithio a hybu dulliau cynaliadwy o deithio | Gallai datblygu cynaliadwy helpu i leihau'r angen i deithio a hybu dulliau trafnidiaeth gynaliadwy. | ? |
| Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau a gwella cysylltedd er budd yr economi | Mae'r weledigaeth yn anelu at sicrhau bod gan bob unigolyn fynediad da i wasanaethau. | + |
| Annog economi bywiog ac amrywiol | Dylai'r weledigaeth arwain at economi bywiog ac amrywiol. | + |

## 6.3 Cydweddoldeb Amcanion y Cynllun gydag Amcanion AC/AAS

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> Bydd angen rhoi prawf ar amcanion y cynllun neu raglen yn erbyn amcanion Asesiad Amgylcheddol Strategol i ganfod unrhyw synergedd neu anghysondebau posibl. Gall yr wybodaeth honno helpu i ddatblygu cynigion posibl eraill wrth i'r cynllun neu raglen gael eu datblygu, ac mewn rhai achosion gallai helpu i ailddiffinio amcanion y cynllun neu raglen ei hun. Pan mae gan cynllun neu raglen nifer o amcanion fe all fod yn helpu profi'r naill yn erbyn y llall, gan y gallai anghysondebau achosi effeithiau amgylcheddol niweidiol.
>
> Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (2005a)

6.3.1 Aseswyd Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol o ran eu cydweddoldeb â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw'r camau angenrheidiol ar gyfer gweithredu amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o fod yr un rhai a fyddai'n cyflawni'r Amcan Cynaliadwyedd. Roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl a wnaethpwyd ar gyfer pob opsiwn o fen pob Amcan o'r Cynllun Datblygu Lleol yn creu sylfaen o wybodaeth ar gyfer asesu pob Amcan o'r Cynllun Datblygu Lleol mewn cymhariaeth â phob un o'r Amcanion Cynaliadwyedd. Yn wahanol i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n asesu a fydd Amcan y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu (neu beidio) at gwrdd â'r Amcan Cynaliadwyedd, mae'r asesiad yma hefyd yn caniatáu ystyriaeth o chwith, hynny yw a fydd gweithredu'r Amcan Cynaliadwyedd yn helpu i gyflawni Amcan y Cynllun.

6.3.2 Cafodd cydweddoldeb yr Amcanion eu hasesu trwy ddefnyddio'r meini prawf canlynol. I'w wneud yn haws ei ddarllen, defnyddir fersiynau byr o'r Amcanion yn y tabl. I weld fersiynau llawn yr Amcanion Cynaliadwyedd gweler Atodiad 1; i weld fersiynau llawn o Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol gweler Tabl 6.1.

| Cymhariaeth | Disgrifiad |
|---|---|
| C | Yr amcanion yn cydweddu |
| ? | Ansicrwydd ynglŷn â chydweddoldeb |
| N | Nid yw'r amcanion yn cydweddu |
| - | Dim perthynas rhwng yr amcanion |

6.3.3 Yn gyffredinol gwelwyd bod Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Gan amlaf mae'r eithriadau prin yn adlewyrchu ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y byddai'r amcan yn cael ei fynegi mewn amgylchiadau penodol. Mae rhai marciau cwestiwn ynglŷn â chydweddoldeb yr amcanion hefyd yn codi o'r ffaith bod dilyn un o amcanion y Cynllun Datblygu Lleol neu Amcan Cynaliadwyedd, heb roi ystyriaeth i'r lleill yn gallu golygu llwyddiant i un ar draul y llall. Er enghraifft gallai cyflawni cynnydd yn y sector tai a thwf economaidd yn y Sir fod yn niweidiol i'r dirwedd a bioamrywiaeth os caniateir gorddatblygu.

6.3.4 Dangosir y dadansoddiad o gydweddoldeb yn Ffigur 6.3.

| **Ffigur 6.3. Cymharu cydweddoldeb Amcanion AC/AAS (SA/SEA) ac Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol (fersiwn cryno)**<br><br>**Amcanion** | 1a. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid hinsawdd | 1c. Lleihau'r risg o lifogydd | 2a. Diogelu ansawdd a chyfaint pridd | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Gwarchod ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr | 3a. Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | 3b. Gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella tirwedd a threftadaeth yn eu cyfanrwydd | 6a. Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw | 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth gynaliadwy a chyfleusterau adloniant a hamdden | 9. Adeiladu'r sylfaen addysg a sgiliau | 10. Gwarchod cymunedau trwy hybu defnydd o'r iaith Gymraeg | 11a. Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio | 11b. Gwella hygyrchedd gwasanaethau | 12. Annog economi bywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Darparu ar gyfer ystod ac amrywiaeth o dai | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 2. Hybu economi gwledig cynaliadwy, amrywiol a blaengar | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 3. Hyrwyddo twf sector manwerthu cynaliadwy | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | ? | ? | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 4. Annog a hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy, eco-gyfeillgar drwy'r flwyddyn gyfan | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | C | C | C | C | - | - | C | C | - | C | C | C |
| 5. Hybu patrwm o dwf sy'n helpu i gynnal bywiogrwydd y trefi a'r cefnwledydd gwledig yn union o'u hamgylch | C | C | C | C | C | C | C | C | - | ? | C | C | C | C | C | C | C | C | C |
| 6. Cynnal a gwella amgylchedd adeiliedig o ansawdd uchel | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | - | C | C | C | C |
| 7. Helpu i sicrhau y darperir cyfleusterau ar gyfer addysg, iechyd, cymuned, chwaraeon a hamdden. | - | - | - | - | - | - | - | C | - | C | C | C | C | C | C | C | - | C | C |
| 8. Cefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg | - | - | - | - | - | - | - | - | - | C | C | C | C | - | C | C | - | - | - |
| 9. Sicrhau bod datblygiad yn helpu i leihau cyfraniad Ceredigion at nwyon tŷ gwydr | C | C | C | - | C | C | C | C | C | - | - | - | - | C | - | - | C | - | - |
| 10. Ceisio cydbwysedd rhwng cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chadwraeth amgylcheddol | C | C | C | ? | C | C | C | C | ? | - | - | - | - | C | - | - | - | - | |
| 11. Cynnal a gwella tirwedd Ceredigion | - | C | - | C | C | C | C | - | C | C | C | - | C | C | C | C | - | - | C |
| 12. Atal colledion mewn bioamrywiaeth a hybu gwelliant a chysylltedd mewn bioamrywiaeth | - | C | - | C | C | C | C | - | C | C | - | - | C | C | C | - | - | - | C |
| 13. Annog agwedd gynaliadwy at ddatblygiadau yn y parth arfordirol | - | C | C | C | - | C | C | C | C | C | ? | C | - | ? | - | - | - | - | ? |
| 14. Amddiffyn a rheoli adnoddau naturiol Ceredigion | C | C | - | C | C | C | C | C | C | C | - | - | - | C | C | - | - | - | - |
| 15. Darparu cyflenwad digonol a chynaliadwy o adnoddau mwynol | ? | C | - | C | C | ? | C | C | C | ? | - | - | - | - | - | - | C | - | - |
| 16. Cynorthwyo i wella'r potensial ar gyfer teithio cynaliadwy | C | C | - | ? | C | - | C | C | C | C | C | C | - | C | - | - | C | C | C |
| 17. Hyrwyddo darpariaeth ddigonol o gyfleustodau drwy'r sir. | ? | ? | - | ? | C | C | C | C | C | - | - | C | C | - | - | - | C | C | - |
| 18. Darparu ar gyfer rheolaeth gynaliadwy gwastraff ac adennill adnoddau. | C | C | C | ? | C | C | C | C | C | C | - | - | - | - | - | - | C | C | C |

## 6.4 Prif negeseuon y gwerthusiad

6.4.1 Yn gyffredinol roedd Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn sgorio'n uchel yn yr arfarniad ac er y nodwyd nifer o ansicrwyddau, ni welwyd bod unrhyw un o'r Amcanion yn anghydnaws â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Ond yn ystod yr arfarniad penderfynwyd newid geiriad rhai o Amcanion y CDLl, naill ai i'w gwneud yn fwy cydnaws, neu i wneud eu hamcanion yn haws eu deall. Mae Tabl 6.4 yn amlinellu'r newidiadau a wnaethpwyd i Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.

**Ffigur 6.4. Newidiadau i Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn Deillio o Werthusiad o'i Amcanion**

| Amcan Gwreiddiol | Amcan Diwygiedig | Rheswm dros newid |
|---|---|---|
| Amcan 6: Hyrwyddo patrwm o dwf sy'n helpu i gynnal bywiogrwydd nid yn unig yn y trefi a'r cefnwledydd gwledig yn union o'u hamgylch ond hefyd bywiogrwydd cymunedau gwledig iawn y sir fawr hon mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol niweidiol ac yn mwyhau hygyrchedd cynaliadwy a chysylltedd. | Amcan 6: Hybu patrwm twf sy'n gymorth nid yn unig i gynnal bywiogrwydd y trefi a'r gefnwlad o'u cwmpas ond sydd hefyd yn cynnal bywiogrwydd y cymunedau gwledig iawn hynny a geir yn y sir fawr hon drwy gryfhau eu nodweddion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a thrwy sicrhau cymaint o hygyrchedd a chysylltedd ag y bo modd | Mae'r newid yn caniatau i'r amcan gael ei ddefnyddio mewn ffordd bositif, gan symud y ffocws o leihau tuag at ddatblygu |
| Amcan 9: Sicrhau nad yw datblygiadau, ar eu pen eu hunain na gyda'i gilydd, yn cynyddu'n sylweddol gyfraniad Ceredigion at nwyon tŷ gwydr; a cheisio lleihau'r cyfraniad lle bynnag y bo modd. Sicrhau bob pob datblygiad yn gallu addasu ac ymateb i'r newid hinsawdd a gweithio tuag at leihau'r risg o lifogydd. | Amcan 9: Sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu cyn lleied ag y bo modd at ollyngiadau nwyon tŷ gwydr Ceredigion, o ran datblygiadau unigol ac o ran y sir i gyd; a cheisio lleihau hynny lle bynnag y bo modd. Sicrhau bod modd addasu pob datblygiad a'u bod yn gallu gwrthsefyll natur gyfnewidiol yr hinsawdd ac yn gweithio tuag at leihau risg o lifogydd. | Mae'r newid yn caniatau i'r amcan gael ei ddefnyddio mewn ffordd bositif, gan ei wneud yn ofynnol i'r cynllun leihau'r holl allyriadau tŷ gwydr, yn hytrach na dim ond ceisio rheoli'r cynnydd. |

6.4.2 Bu ymgynghori ynglŷn ag Amcanion yr AC/AAS a chytunodd y Cyngor Llawn arnynt, ac nid oedd eu haddasu ymhellach yn nod yn yr asesiad. Fodd bynnag, wrth i'r asesiad fynd yn ei flaen daeth yn amlwg bod angen rhai mân addasiadau er mwyn eglurder a chysondeb ac er mwyn gallu defnyddio'r amcan yn haws yn ystod yr asesiad. Gan hynny, er bod yr Amcanion yn cadw'r un nod a gytunwyd gan y Cyngor, gwnaethpwyd rhai newidiadau, fel a amlinellir yn Nhabl 6.5.

## Tabl 6.5. Newidiadau i Amcanion yr AC/AAS (SA/SEA) yn Deillio o Werthuso Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol

| Pwnc | Mater yn codi | Newid |
|---|---|---|
| Asedau Materol | Dylid delio â materion newid hinsawdd o dan yr Amcan priodol yn yr AC/AAS (SA/SEA) ac nid oes angen eu hailadrodd yma. | Symud yr is amcan newid Hinsawdd i'r adran newid hinsawdd. |
| Tirwedd ac Amgylchedd Hanesyddol | Dylid newid trefn y geiriau diwylliannol a hanesyddol er mwyn sicrhau darllenadwyedd. | Dylai diwedd yr amcan gyfeirio at 'dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol'. |
| Addysg a Sgiliau | Yn yr is amcan dylid newid 'Anllythrennedd' am 'llythrennedd' | Rhoi'r gair 'rhifedd' yn lle 'Anrhifedd' yn yr is amcan. |
| Yr Iaith Gymraeg | Cytunodd y Cyngor y dylai fod gan y pwnc hwn ddau amcan.<br><br>Serch hynny, yr amcan cyntaf yn unig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r iaith, mae'r llall yn ymwneud â chynnal cymunedau yn eu cyfanrwydd. Er mwyn dangos bod pwnc AC/AAS yn ymwneud yn benodol â'r Iaith Gymraeg yn hytrach nag â chymunedau, sy'n dod o dan y pwnc Poblogaeth a Thai, dylid gwneud yr ail amcan felly yn is amcan o Amcan Poblogaeth a Thai yr AC/AAS. Dylid ail-eirio Amcan cyntaf yr AC/AAS fel ei fod yn ymwneud â defnyddio'r iaith Gymraeg trwy ddatgan 'Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg'. | Ail-eirio'r amcan cyntaf fel a ganlyn:<br><br>'Gwarchod cymunedau trwy hybu defnydd o'r iaith Gymraeg'.<br><br>Symud yr ail amcan fel ei fod yn is amcan o'r adran ar boblogaeth a thai yn yr AC/AAS. |
| Trafnidiaeth | Dylid addasu Amcan trafnidiaeth yr Asesiad Amgylcheddol Strategol fel ei fod yn ymwneud â chludo nwyddau ac yn y blaen yn ogystal â thrafnidiaeth pobl.<br><br>Addasu is amcan (bwled 3) a'i wneud yn fwy darllenadwy - ychwanegu 'defnyddio' o flaen 'trafnidiaeth gyhoeddus' | Ail-eirio'r prif amcan cyntaf fel a ganlyn: 'Lleihau'r angen ar gyfer teithio/trafnidiaeth a hybu dulliau cynaliadwy o gludiant ar gyfer teithio'.<br><br>Newid is amcan (bwled 3) – trwy ychwanegu 'defnyddio' o flaen 'trafnidiaeth gyhoeddus' |
| Adloniant, Hamdden a Thwristiaeth | Addasu'r 5ed is amcan i wneud yn glir ei fod yn cyfeirio at gyfleoedd hamdden ac adloniant yn hytrach na phob gwasanaeth cymunedol. | Newid y 5ed is amcan:<br><br>Yn lle 'gwasanaethau cymunedol' rhoi 'cyfleoedd hamdden ac adloniant' |

# 7. Arfarniad o Gynaliadwyedd o Bolisïau Adneuo'r Cynllun

Beth mae'r Canllawiau yn ei ddweud:

> Bydd yr adroddiad amgylcheddol yn cynnwys gwybodaeth y gallai'n rhesymol fod yn angenrheidiol gan ddwyn i ystyriaeth yr wybodaeth gyfredol ar ddulliau asesu, y cynnwys a'r lefel o fanylder sydd yn y cynllun neu raglen, [a'i] gyfnod yn y broses o wneud penderfyniadau.
> ODPM (2005a)

## 7.1 Datblygu Polisïau Adneuo

7.1.1 Er mwyn datblygu strategaeth effeithiol a chydlynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, ystyriwyd ystod o opsiynau strategol ar gyfer lefel a dosbarthiad gofodol twf yn y dyfodol. Yng Ngheredigion mae'r prif feysydd twf yn debygol o fod yn y sector tai (gan gynnwys tai fforddiadwy) a chyflogaeth. Ond bydd y meysydd hyn hefyd yn cael effaith ategol ar anghenion ynni, seilwaith, iechyd, addysg, twristiaeth a datblygu manwerthu. Nodir y dewisiadau mewn perthynas â'r materion hyn yn yr adroddiad i'r Cyngor ar 11 Tachwedd 2008. Gellir cael copi ohono trwy wneud cais i'r Cyngor Sir.

7.1.2 Cafodd yr opsiynau eu datblygu a'u trafod o ganlyniad i nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â Rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod hanner cyntaf 2008, ac mewn trafodaethau dilynol gyda Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol y Cynllun Datblygu Lleol ac Aelodau'r Cyngor yn hydref a gaeaf 2008. Aseswyd yr opsiynau yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd, ac ar sail yr asesiad hwnnw, ymgysylltiad â rhanddeiliaid a thrafodaethau gydag Aelodau'r Cyngor, nodwyd nifer o Opsiynau Strategol a Ffefrir. Ceir crynodeb o'r opsiynau a'r asesiad yma yn Adran 6 o Adroddiad Cychwynnol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, a cheir arfarniadau llawn yn Atodiad 2 yr un adroddiad.

7.1.3 Yn seiliedig ar yr opsiynau a ffefrir dynodwyd 25 o Bolisïau Strategol ar gyfer Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol. Gwnaethpwyd arfarniad o'r Polisïau Strategol hyn gan ddefnyddio fersiwn diweddar o'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd a ddatblygwyd yn ystod proses Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Yn ystod yr arfarniad aseswyd yr effeithiau a'u hystyried yn erbyn amrywiaeth o feini prawf, gan gynnwys cyfradd amser, sefydlogrwydd, ffeithiau eilaidd, synergaidd a chrynodol, a'r berthynas briodol rhwng y naill a'r llall. Cyflwynir yr arfarniad llawn yn Atodiad 3 o'r Adroddiad Cynaliadwyedd Cychwynnol.

7.1.4 O'r 25 Polisi Strategol, datblygwyd 56 o bolisïau mwy manwl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol terfynol. Rhoddir cyfiawnhad dros gynnwys pob un o'r polisïau hyn yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn ôl tair thema polisi amlwg. Y themâu hynny yw:

a. Y Strategaeth;

b. Mathau Penodol o Gynigion Defnydd Tir; a
c. Rheoli Datblygu.


Gwnaethpwyd yr asesiad o bolisïau'r CDLl trwy ddefnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd a ddefnyddiwyd yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol (ISAR), a ddatblygwyd yn wreiddiol yn ystod proses Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Cyflwynir crynodeb o'r Polisïau yn Nhabl 7.1, a gwelir y polisïau llawn yn Atodiad 3. Ceir arfarniad llawn o bob polisi yn Atodiad 4. Noder, oherwydd diwygiadau i bolisiau a fu yn ystod proses archwilio'r CDLl, mae rhai bylchau yn rhifau'r polisiau. Mae hyn oherwydd bod rhai o'r polisiau drafft wedi cael eu dileu, er enghraifft, nid oes polisi LU01.

**Tabl 7.1. Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Adneuo**

| **Y Strategaeth** |
|---|
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy |
| Polisi S02: Datblygu Canolfannau Gwasanaethau Trefol |
| Polisi S03: Datblygu Canolfannau Gwasanaethau Gwledig |
| Polisi S04: Datblygu Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill |
| Polisi S05: Tai Fforddiadwy |
| **Mathau penodol o gynigion defnydd tir** |
| Polisi LU02: Y gofynion mewn perthynas â phob datblygiad tai |
| Polisi LU04: Cwrdd ag Ystod o Anghenion Tai |
| Polisi LU05: Cyflawni Datblygiad Tai |
| Polisi LU06: Dwysedd Tai |
| Polisi LU07: Is-ddosbarthu Tai Presennol |
| Polisi LU08: Amnewid Tai Presennol |
| Polisi LU09: Adnewyddu hen adeiladau preswyl/murddunod |
| Polisi LU10: Carafannau Preswyl Dros Dro |
| Polisi LU11: Cynigion cyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd |
| Polisi LU12: Cynigion cyflogaeth ar safleoedd sydd heb eu neilltuo |
| Polisi LU13: Newid defnydd mewn perthynas â thir neu adeiladau cyflogaeth sy'n bodoli'n barod |
| Polisi LU14: Safleoedd Llety Twristiaeth ledled y Sir: Carafannau Sefydlog a Theithiol, safleoedd gwersylla, Cabannau a Chalets. |
| Polisi LU15: Adleoli Carafannau, Cabannau a Chalets |
| Polisi LU16: Llety Twristiaeth - Mathau o Lety nad ydynt yn dod o fewn Polisi LU14 |
| Polisi LU17: Cyfleusterau Atyniadau/Twristiaeth |
| Polisi LU18: Cynigion manwerthu drwy'r sir |
| Polisi LU19: Cynigion manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol |
| Polisi LU20: Cynigion manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig |
| Polisi LU21: Newid defnydd o ddefnydd manwerthu |
| Polisi LU22: Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Adloniant a Hamdden |

| |
|---|
| Polisi LU24: Darparu Mannau Agored Newydd |
| Polisi LU25: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy |
| Polisi LU26: Ffermydd Gwynt Mawr a Chymedrol eu Maint |
| Polisi LU27: Cyflenwad cynaliadwy o adnoddau mwynol |
| Polisi LU28: Meini prawf ar gyfer cynigion mewn perthynas â mwynau |
| Polisi LU29: Datblygu o fewn clustogfeydd *(buffer zones)* |
| Polisi LU30: Diogelu |
| Polisi LU31: Adennill adnoddau a chyfleusterau rheoli gwastraff |
| Polisi LU32: Datblygu a’r hierarchaeth wastraff |
| **Polisïau rheoli datblygu** |
| Polisi DM01: Rheoli Effeithiau Datblygu Cymunedau a’r Iaith Gymraeg |
| Polisi DM03: Teithio Cynaliadwy |
| Polisi DM04: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel ystyriaeth berthnasol |
| DM05: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio |
| Polisi DM06: Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel |
| Polisi DM07: Ardaloedd Cadwraeth |
| Polisi DM08: Arwyddion ac Enwau Llefydd Dwyieithog |
| Polisi DM09: Dyluniad a Symudiad |
| Polisi DM10: Dyluniad a Thirweddu |
| Polisi DM11: Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd |
| Polisi DM12: Seilwaith Cyfleustodau |
| Polisi DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy |
| Polisi DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol |
| Polisi DM15: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol |
| Polisi DM16: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol (RIGS) |
| Polisi DM17 Tirwedd Gyffredinol |
| Polisi DM18: Ardaloedd Tirwedd Arbennig |
| Polisi DM19: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol |
| Polisi DM20: Amddiffyn Coed, Perthi a Choetiroedd |
| Polisi DM21: Effaith ar y Dirwedd o Ddatblygu Ffermydd Gwynt o Fewn Ardal Chwilio Strategol D |
| Polisi DM22: Diogelu a Gwella’r Amgylchedd Cyffredinol. |
| Polisi DM23: Rheoli’r Arfordir |

## Ffigur 7.2. Diagram Allweddol: Cynllun Datblygu Lleol Adneuo Ceredigion



**Tabl 7.3: Strategaeth Anheddu ar gyfer Dosbarthu Twf: Grwpiau o Aneddiadau Gwledig a Threfol sy’n seiliedig ar Ganolfannau Gwasanaethauau**

(Mae’r rhifau’n cynrychioli’r rhif unigryw a roddir i bob Canolfan Gwasanaethau Trefol neu Wledig ac sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio i ddynodi grŵp yr aneddiadau).

| **Canolfannau Gwasanaethauau Trefol (Trefi)** | **01**<br>**Aberaeron (Llwyncelyn)** | **02**<br>**Aberteifi** | **03**<br>**Aberystwyth /Llanbadarn Fawr /Waunfawr /Penparcau** | **04**<br>**Castell Newydd Emlyn, [Sir Gâr] (Adpar)** | **05**<br>**Llanbedr Pont Steffan** | **06**<br>**Llandysul** | **07**<br>**Tregaron** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Anheddau Cysylltiedig** | Aberarth<br>Ciliau Aeron<br>Ffosyffin<br>Pennant | Ferwig<br>Gwbert<br>Llangoedmor<br>Llechryd<br>Penyparc | Blaenplwyf<br>Capel Bangor<br>Capel Seion<br>Commins Coch<br>Goginan<br>Llanfarian<br>Llangorwen<br>Rhydyfelin | Betws Ifan<br>Beulah<br>Brongest<br>Bryngwyn<br>Cwm Cou<br>Llandyfriog | Betws Bledrws<br>Cellan/Fisher's Arms<br>Cwrtnewydd<br>Drefach<br>Gorsgoch<br>Llangybi<br>Llanwnnen<br>Llwynygroes<br>Silian | Aberbanc<br>Capel Dewi (S)<br>Coedybryn<br>Croeslan<br>Ffostrasol<br>Henllan<br>Horeb<br>Maesymeillion<br>Penrhiwllan<br>Pentrellwyn/Gorrig<br>Prengwyn<br>Rhydlewis<br>Rhydowen<br>Talgarreg<br>Tregroes | Bronnant<br>Llanddewi Brefi<br>Llangeitho |

| **Canolfannau Gwasanaethau Gwledig** | **08**<br>**Aberporth / Parcllyn** | **09**<br>**Bow St** | **10**<br>**Ceinewydd** | **11**<br>**Cenarth** | **12**<br>**Felinfach/Ystrad Aeron** | **13**<br>**Llanarth** | **14**<br>**Llanilar** | **15**<br>**Llanon** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aneddiadau Cyswllt** | Blaenannerch<br>Blaencelyn<br>Blaenporth<br>Brynhoffnant<br>Llangrannog<br>Pontgarreg<br>Sarnau<br>Tanygroes<br>Tresaith | Llandre | Caerwedros<br>Cross Inn (Ceinewydd)<br>Maenygroes<br>Pentre'r Bryn<br>Plwmp | Llandygwydd | Bwlch-llan<br>Cilcennin<br>Cribyn<br>Dihewyd<br>Talsarn | Gilfachreda<br>Derwen Gam<br>Mydroilyn | Cnwch Coch<br>Llanafan<br>Lledrod<br>Llanfihangel y Creuddyn | Bethania<br>Cross Inn (Llannon)<br>Nebo |

| **Canolfannau Gwasanaethau Gwledig** | **16**<br>**Llanrhystud** | **17**<br>**Llanybydder** | **18**<br>**Penrhyncoch** | **19**<br>**Pont-ar-fynach** | **20**<br>**Pontrhydfendigaid** | **21**<br>**Talybont** | **22**<br>**Borth** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aneddiadau Cyswllt** | Llangwyryfon | Alltyblacca<br>Highmead | | Ponterwyd | Pontrhydygroes<br>Ysbyty Ystwyth<br>Ystrad Meurig | Eglwysfach<br>Tre'r Ddol<br>Tre Taliesin | Dolybont<br>Ynyslas |

## 7.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd Polisïau CDLl

7.2.1 Aseswyd y Polisïau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol i ganfod eu heffaith tebygol ar yr Amcanion Cynaliadwyedd. Hynny yw, a yw'r camau sy'n angenrheidiol i weithredu Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o effeithio ar nodau'r Amcan Cynaliadwyedd. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd manwl ar gyfer gwahanol elfennau ym mhob Polisi Adneuo yn sail o wybodaeth ar gyfer asesiad cyffredinol o bob un o Amcanion Cynaliadwyedd Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol . Ceir crynodeb o'r asesiad o Bolisïau a'r argymhellion yn nhabl 7.4. Mae Atodiad 4 yn cynnwys y tablau matrics o'r arfarniad llawn, gan gynnwys manylion am yr effeithiau a ragamcanir ar gyfer y polisïau.

7.2.2 Ceir crynodeb o'r asesiad yn y tabl canlynol.

| Asesiad o Arwyddocâd | Disgrifiad |
|---|---|
| ++ | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith gadarnhaol fawr yn ei ffurf bresennol gan y byddai'n datrys problem sy'n bodoli neu'n creu gwell cyfleoedd. SYLWEDDOL |
| + | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith gadarnhaol fechan. |
| ? | Mae effaith yr Amcan/Opsiwn yn ansicr. |
| 0 | Ni fyddai'r Amcan/Opsiwn yn cael unrhyw effeithiau a ragamcanir. |
| - | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith niweidiol fechan. |
| -- | Byddai'r Amcan/Opsiwn yn cael effaith niweidiol sylweddol gan y byddai'n achosi gwaethygiad sylweddol i broblemau sy'n bodoli'n barod. Dylid ystyried dileu'r opsiwn. SYLWEDDOL |

7.2.3 Yn gyffredinol rhagwelir y byddai effeithiau gweithredu Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cydweddu â'r Amcanion Cynaliadwyedd. Mae rhai effeithiau niweidiol wedi cael eu rhagfynegi, a'r rhain yn gysylltiedig â thai newydd a datblygu cyflogaeth a'r cynnydd mewn cymryd tir a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau newydd hyn. Mae rhai cwestiynau ynglŷn â chydweddoldeb amcanion yn codi o'r ffaith bod dilyn un o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol neu un Amcan Cynaliadwyedd, heb roi ystyriaeth i'r lleill yn gallu arwain at lwyddiant yn y naill ar draul y llall. Er enghraifft, gallai cyflawni'r nod o ddiwallu'r angen am dai a thwf economaidd yn y Sir arwain at ganlyniadau niweidiol i'r dirwedd a bioamrywiaeth, pe caniateid datblygu gormodol. Dylid nodi mai ychydig iawn o effeithiau negyddol ar yr Amcanion Cynaliadwyedd a ganfuwyd, ac mae hyn yn bennaf oherwydd bod effeithiau niweidiol posibl y polisïau wedi cael sylw yng Nghyfnod Cyn Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol.

**Tabl 7.3. Arfarniad o Bolisïau**

| Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau / Amcan Cynaliadwyedd | 1a. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | 1b. Addasu i newid hinsawdd | 1c. Lleihau'r risg o lifogydd | 2a. Diogelu ansawdd a chyfaint pridd | 2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer | 2c. Gwarchod ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr | 3a. Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy | 3b. Gwasanaethau a seilwaith o ansawdd uchel | 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth | 5a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella tirwedd a threftadaeth yn eu cyfanrwydd | 6a. Cynnal nodweddion diwylliannol unigryw | 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynol | 7a. Cynnal cymunedau iach | 8a. Twristiaeth gynaliadwy a chyfleusterau adloniant a hamdden | 9. Adeiladu'r sylfaen addysg a sgiliau | 10. Darparu dyfodol cynaliadwy i gymunedau | 11a. Hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio | 11b. Gwella hygyrchedd gwasanaethau | 12a. Annog economi bywiog ac amrywiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac Amcanion** | + | ++ | + | + | + | + | + | + | + | + | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + |
| **Y Strategaeth** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi S01: Twf Cynaliadwy | - | + | + | - | - | - | + | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | - | + | + |
| Polisi S02: Canolfannau Gwasanaethau Trefol | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | ? | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S03: Canolfannau Gwasanaethau Gwledig | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | + |
| Polisi S04: Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + |
| Polisi S07: Tai fforddiadwy | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | ++ | + | 0 | 0 | + | + | + | + |
| **Mathau penodol o gynigion datblygu tir** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Polisi LU02: Y gofynion mewn perthynas â phob datblygiad tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | ++ | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU04: Cwrdd ag Ystod o Anghenion Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU05: Cyflawni Datblygiad Tai | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU06: Dwysedd Tai | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU07: Is-rannu'r Anheddau Presennol | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU08: Amnewid Tai Presennol | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU09: Adnewyddu hen adeiladau preswyl/murddunod | ? | ? | 0 | + | ? | ? | 0 | + | ? | ? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi LU10: Carafannau preswyl dros dro | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Polisi LU11: Cynigion cyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd: | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU12: Cynigion cyflogaeth ar Safleoedd Heb eu Neilltuo | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | 0 | + | + | + | + | ++ |
| Polisi LU13: Newid defnydd mewn perthynas â thir neu adeiladau Cyflogaeth presennol | ? | ? | ? | ? | ? | ? | + | 0 | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? |
| Polisi LU14: Safleoedd Llety Twristiaeth ar draws y Sir: Carafannau Sefydlog a Theithiol, safleoedd gwersylla, Cabannau a Chalets. | + | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | + | + | 0 | ++ | 0 | 0 | ? | ? | + |
| Polisi LU15: Adleoli Carafannau, Cabannau a Chalets | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU16: Llety Twristiaeth – Mathau o Lety heb eu cynnwys ym Mholisi LU14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Polisi LU17: Cyfleusterau Atyniadau/Twristiaeth | ? | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | + | + | + | ++ | ? | 0 | ? | 0 | + |
| Polisi LU18: Cynigion Manwerthu drwy'r Sir | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Policy LU19: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Policy LU20: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + |
| Policy LU21: Newid defnydd o ddefnydd manwerthu | ? | ? | ? | ? | ? | ? | + | 0 | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? | ? |
| Policy LU22: Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Adloniant a Hamdden | + | 0 | 0 | 0 | + | ? | 0 | 0 | ? | ? | ++ | ++ | + | ++ | + | + | + | + | + |
| Policy LU24: Darparu Mannau Agored Newydd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | ++ | ++ | 0 | 0 | + | + | 0 |
| Policy LU25: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy | ++ | 0 | 0 | ? | + | ? | + | + | ? | ? | ? | ? | 0 | ? | ? | 0 | 0 | 0 | ? |
| Policy LU26: Ffermydd Gwynt Mawr a Chymhedrol eu Maint | ? | 0 | ? | ? | 0 | ? | 0 | + | ? | + | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy LU27: Cyflenwad Cynaliadwy o adnoddau mwynol | + | 0 | 0 | - | - | ? | ++ | 0 | ? | ? | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | + | 0 | + |
| Policy LU28 Meini prawf ar gyfer cynigion mewn perthynas â mwynau | - | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy LU29: Datblygu o fewn clustogfeydd (buffer zones) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy LU30: Diogelu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy LU31: Adennill adnoddau a chyfleusterau rheoli gwastraff | + | 0 | 0 | ? | ? | ? | ++ | + | ? | ? | 0 | 0 | - | 0 | ? | 0 | + | + | + |
| Policy LU32: Datblygu a'r hierarchaeth gwastraff | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | ? | 0 | + | + | + |
| **Polisïau rheoli datblygu** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Policy DM01: Datblygu Cynaliadwy o ran Cyfradd, Graddfa a Dyluniad | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM02: Datganiadau ac Asesiadau yn ymwneud â Chymunedau ac â'r Iaith Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM03: Teithio Cynaliadwy | + | 0 | 0 | - | + | ? | + | + | ? | ? | + | + | + | + | ? | 0 | ++ | ++ | + |
| Policy DM04: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel ystyriaeth faterol | + | 0 | 0 | - | + | 0 | 0 | + | ? | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | ++ | + | + |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Policy DM5: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | 0 |
| Policy DM06: Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel | 0 | ++ | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | ? | + | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Policy DM07: Ardaloedd Cadwraeth | Mae'r polisi hwn yn ymwneud â gweithdrefnau ac ni ellir ei asesu. | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Policy DM08: Arwyddion ac Enwau Llefydd Dwyieithog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | + | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM09: Dyluniad a Symudiad | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 |
| Policy DM10: Dyluniad a Thirweddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM11: Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd | 0 | ++ | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM12: Seilwaith Cyfleustodau | + | + | + | - | 0 | + | 0 | ++ | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM13: Systemau Draenio Cynaliadwy | + | + | ++ | 0 | 0 | + | 0 | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol | + | + | + | + | + | + | ++ | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM15: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | ++ | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM16: Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM17: Tirwedd Gyffredinol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | ++ | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM18: Ardaloedd Tirwedd Arbennig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | ++ | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM19: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ++ | + | + | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |
| Policy DM20: Amddiffyn Coed, Perthi a Choetiroedd | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM21: Effeithiau Datblygu Ffermydd Gwynt o Fewn Ardal Chwilio Strategol D | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Policy DM22: Amddiffyn a Gwella'r Amgylchedd Cyffredinol. | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? |
| Policy DM23: Rheoli'r Arfordir | 0 | + | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | + |

## 7.3 Gwerthusiad o Ansicrwydd a Risgiau Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

7.3.1 Er bod rhai polisïau yn cael sgôr negyddol yn erbyn un neu fwy o'r Amcanion Cynaliadwyedd, gellir gweithredu mesurau i liniaru, os nad niwtraleiddio rhai o'r effeithiau hynny. Mae'n werth nodi mai bychan yw'r holl effeithiau niweidiol posibl.

7.3.2 Mae'r nifer fwyaf o effeithiau negyddol a ragamcanir yn gysylltiedig â Pholisïau sy'n ymwneud â thwf economaidd (LU11, LU12 a LU13), a hynny yn erbyn yr amcanion amgylcheddol. Y rheswm am hynny yw bod caniatáu datblygiadau newydd yn rhwym o gael rhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, gan y bydd yn arwain at gynyddu nwyon tŷ gwydr, gwaethygiad posibl yn ansawdd yr aer, rhywfaint o golli a selio y pridd, a diraddiad posibl yn ansawdd a chyfaint dŵr trwy effeithio ar batrymau draenio. Hefyd mae ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y gallai datblygiadau newydd effeithio ar fioamrywiaeth a gwerth y dirwedd.

7.3.3 Er gwaethaf yr effeithiau hyn, cynhwyswyd mesurau ym mholisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol gyda golwg ar liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Mae Polisïau S02, S03, LU25, DM04, DM06, DM11 a DM22 yn lliniaru cynnydd mewn nwyon tŷ gwydr a'r dirywiad yn ansawdd yr aer trwy ymgorffori ystod eang o elfennau a fydd yn helpu i leihau'r angen i deithio. Mae Canllawiau Cenedlaethol hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn lliniaru'r effeithiau negyddol hyn, gan gynnwys gofyniad i bob datblygiad newydd a gofynion Lefel 3 y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy, yn mynnu bod mathau eraill o ddatblygiad i gwrdd â safonau BREEAM, datblygu ffynonellau newydd o ynni adnewyddadwy a diogelu dalfeydd carbon. Mae colli pridd yn cael ei liniaru gan Bolisïau sy'n ymwneud â dosbarthu twf, sy'n annog cyfuno datblygiadau mewn canolfannau Gwasanaethau, datblygiadau dwysedd uchel ac ailddefnyddio safleoedd tir llwyd. Mae diraddiad ansawdd a chyfaint dŵr yn cael ei liniaru trwy bolisïau sy'n ymwneud â dyluniad a diogelu'r amgylchedd (DM05, DM06, DM09, DM11, DM12, DM13, DM22 a DM23), sy'n mynnu bod pob datblygiad yn ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr. Er enghraifft, mae Polisi DM13 yn mynnu bod pob datblygiad yn ymgorffori systemau SDCau i reoli dŵr gwastraff a dŵr ffo.

7.3.4 Polisi S05: Fe all Tai Fforddiadwy gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth a thirwedd, gan y gallai arwain at ddatblygu ar safleoedd a eithrir. O safbwynt effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth, bydd Polisïau DM06, DM14 a DM15, DM20 yn lliniaru rhai o'r effeithiau, naill ai trwy fynnu dull cynaliadwy o ddatblygu neu drwy roi cefnogaeth weithredol i'r Amcan Cynaliadwyedd trwy elfennau o bolisi penodol ar fioamrywiaeth a chadwraeth natur. Hefyd, mae astudiaeth gan y ganolfan gofnodion leol wedi helpu adnabod yr aneddiadau a'r lleoliadau lle mae'r bioamrywiaeth mwyaf toreithiog, sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i gyfeirio datblygiadau i'r

ardaloedd hynny sy'n llai sensitif i ddatblygu (Gweler Adran 7 ar gyfer Asesiadau Safleoedd a Ddyrannwyd).

7.3.5 O safbwynt tirwedd, bydd Polisïau DM17, DM19, DM20 a DM21 yn lliniaru rhai o'r effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygu trwy fynnu bod pob math o dirwedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig cynllunio a thrwy annog ymgorffori cynlluniau tirweddu yn rhan o ddatblygiadau newydd. Hefyd dylai gweithredu Polisi DM18, fod o fudd sylweddol yn yr ardaloedd sy'n dod o fewn ffiniau Ardal Tirwedd Arbennig.

7.3.6 Rhagwelir y bydd Polisi DM12 Seilwaith Cyfleustodau, Polisi DM03 Teithio Cynaliadwy a DM04 Seilwaith Trafnidiaeth Gynaliadwy fel ystyriaeth faterol, yn cael effeithiau negyddol ar ansawdd a chyfaint dŵr a phridd. O ran polisïau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, megis y polisïau ynglŷn â thwf, mae'r rhain yn cael eu lliniaru trwy elfennau o'r Polisïau Dylunio a Diogelu'r Amgylchedd, sy'n mynnu bod pob datblygiad yn ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr, a Pholisi DM13, sy'n mynnu bod pob datblygiad yn ymgorffori systemau SDCau i reoli dŵr gwastraff a dŵr ffo. Y mae'n anoddach diogelu ansawdd pridd, ond y mae Polisïau Diogelu'r Amgylchedd yn helpu i gyfyngu ar y canlyniadau gwaethaf.

7.3.7 Dylid nodi na chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol yn ystod yr asesiad ac, mewn nifer o achosion, bod effeithiau cadarnhaol sylweddol.

7.3.8 O safbwynt addasu ar gyfer newid hinsawdd, canfuwyd nifer o ffeithiau cadarnhaol sylweddol mewn cymhariaeth â'r Weledigaeth a'r Amcanion, ac yn erbyn Polisïau DM06 a DM11. Roedd y polisïau dylunio hefyd yn cael nifer o effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â'r risg o lifogydd. Mae canlyniadau'r asesiad o'r polisïau dylunio yn arbennig o bwysig gan eu bod yn effeithio ar bob agwedd ar y Cynllun Datblygu Lleol.

7.3.9 Gwelwyd bod nifer o effeithiau sylweddol hefyd mewn perthynas â materion cysylltiedig â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol. Roedd Polisïau LU27, LU31 a LU32, sy'n ymwneud â mwynau a gwastraff, yn uniongyrchol gefnogol, a gwelwyd bod Polisïau DM14, DM15 a DM16, sy'n ymwneud â materion cadwraeth natur, hefyd o fudd sylweddol.

7.3.10 Fel y gellid disgwyl, gwelwyd bod effeithiau cadarnhaol sylweddol yn deillio o'r Polisïau sy'n ymwneud â chadwraeth natur a'r dirwedd o'u cymharu yn erbyn Amcanion yr AC/AAS mewn perthynas â bioamrywiaeth a'r dirwedd.

7.3.11 Gwelwyd bod y rhan fwyaf o effeithiau cadarnhaol sylweddol yn gysylltiedig ag Amcanion yr AC/AAS mewn perthynas â chynaliadwyedd cymdeithasol (Amcanion Cynaliadwyedd 6a a 6b).

Canfu’r asesiad bod anghenion economaidd cynyddol a’r angen am dai yn y Sir yn cynnig ystod eang o fuddion yn yr ardal, gan eu bod yn darparu cyflogaeth a lle i fyw i bobl, a hynny yn y safleoedd mwyaf cynaliadwy. Mae buddion mawr o ran annog cymunedau bywiog a hyfyw ac mae llawer o fuddion iechyd a lles. Gwelwyd hefyd bod nifer llai o fuddion cadarnhaol sylweddol yn deillio o agweddau economaidd y Cynllun.

## 7.4 Prif negeseuon yr arfarniad

7.4.1 Yn gyffredinol sgoriodd Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau’r Cynllun Datblygu Lleol yn dda yn yr arfarniad ac ni farnwyd bod unrhyw un o’r polisïau yn cael effeithiau niweidiol sylweddol yn erbyn yr Amcanion Cynaliadwyedd.

7.4.2 Ond yn ystod yr arfarniad penderfynwyd newid geiriad rhai o’r polisïau drafft, naill ai i’w gwneud yn cydweddu mwy â’r Amcanion Cynaliadwyedd, neu i wneud eu hamcanion yn haws eu dehongli. Mae Tabl 7.4. yn tanlinellu’r newidiadau a wnaethpwyd i Bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol. Gwnaed Newidiadau eraill i’r polisiau yn ystod Cam Adneuo’r broses, fodd bynnag, cafodd nifer o’r rhain eu disodli yn ystod y broses archwilio ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

## Tabl 7.4. Newidiadau yn Deillio o Arfarnu Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

| Yr Adran berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol | Y Broblem neu ystyriaeth a godwyd neu a welwyd | Camau / Newidiadau |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth ac Amcanion:** | | |
| Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau i'r Weledigaeth a'r Amcanion yn y Cyfnod hwn. I gael gwybodaeth am y newidiadau a wnaethpwyd yn y Cyfnod Cyn Adneuo, gweler Ffigur 5.3 yr ISAR. | | |
| **Polisïau:** | | |
| **Nodyn Cyffredinol** | Wrth archwilio'r polisïau gwelwyd, oherwydd arlliwiau yn y strwythur a'r gramadeg, bod modd dehongli nifer fawr ohonynt mewn gwahanol ffyrdd neu bod eu nodau yn gallu bod yn amwys.<br><br>Ar ben hynny, awgrymwyd newidiadau lle roedd y cyflwyniadau i'r polisïau yn aneglur ynglŷn â sut yr oedd rhai elfennau o'r polisïau i gael eu dehongli. | Newid strwythur a gramadeg y polisïau lle bo angen.<br><br>Diwygio'r cyflwyniadau i bolisïau lle bo angen. |
| **Y Strategaeth:**<br>Er bod Strategaeth y CDLl yr un peth o hyd, cafodd polisiau'r Strategaeth eu hailysgrifennu'n gyfan gwbl wrth Archwilio'r CDLl. Roeddent yn destun i'r broses AC/AAS, ac mae'r canfyddiadau i'w gweld yn yr adroddiad hwn, a chanfuwyd nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau yn sgil y broses hon. Felly mae'r holl asesiadau AC/AAS blaenorol wedi cael eu disodli. | | |
| | | |
| **Mathau penodol o Gynigion Datblygu Tir:** | | |
| | | |

| Yr Adran berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol | Y Broblem neu ystyriaeth a godwyd neu a welwyd | Camau / Newidiadau |
|---|---|---|
| | | |
| **LU09 Ailddefnyddio tai blaenorol sydd wedi cael eu gadael** | Teitl gwreiddiol y polisi oedd LU09 Adnewyddu hen adeiladau preswyl a thai sydd wedi eu gadael. Teimlid bod y teitl hwn yn anghyson â chynnwys y polisi. | Newid y teitl fel a ganlyn:<br><br>LU09 ~~Adfer~~ **Ail-ddefnyddio** aneddiadau sydd wedi eu gadael |
| **LU13 Newid defnydd o ddefnydd ar gyfer cyflogaeth** | Mae'r gofyniad i'r datblygiad hwn gwrdd â maen prawf 1 a maen prawf 2 y polisi yn rhy gaeth. | Rhoi "neu" yn lle "ac" ar ddiwedd maen prawf 2 y polisi. |
| **LU14 Safleoedd Llety Twristiaeth ar draws y Sir: Carafannau Sefydlog a Theithiol, safleoedd gwersylla, Cabannau a Chalets.** | Camdeipio yn y Saesneg – ym maen prawf 2 mae'r gair "not" ar goll | Addasu'r meini prawf fel a ganlyn:<br><br>"iii) **Nid** yw'r cyfleusterau a gynigir ar y safle yn effeithio ar lewyrch y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli yn yr anheddiad agosaf" |
| **LU16 Llety Twristiaeth – Mathau o lety nad ydynt yn dod o fewn polisi LU14** | Mae maen prawf 1 y polisi yn darllen:<br><br>"Gwrthsefyll newid defnydd sefydliadau lle bo modd oni ellir dangos bod:<br>a. y defnydd posibl neu barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn anhyfyw neu nad oes galw am y math yma o lety neu bod modd i ddarparwyr eraill yn y Grŵp Aneddiadau gyflawni'r galw yn ddigonol."<br><br>Teimlid bod y geiriad yn aneglur. | Newid y maen prawf fel a ganlyn:<br><br>"Gwrthsefyll newid defnydd sefydliadau lle bo modd oni ellir dangos bod:<br>a. defnydd posibl neu barhau i ddefnyddio'r cyfleusterau yn anhyfyw;<br>b. nad oes galw am y math yma o lety; neu<br>c. bod y galw yn cael ei ddiwallu'n ddigonol gan ddarparwyr eraill yn y Grŵp Aneddiadau." |
| | | |
| **LU17 Cyfleusterau Twristiaeth/ Atyniadau** | Camdeipiad ym maen prawf 1 yn y Saesneg | Newid "though" i "through" yn y Saesneg. |
| **LU18 Cynigion mân-werthu drwy'r Sir** | Nid oes angen maen prawf 5 yn y polisi gan fod maen prawf 1 o bolisi LU19 ac LU20 yn cyflawni'r un diben. | Dileu maen prawf 5 ym Mholisi LU18. |

| Yr Adran berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol | Y Broblem neu ystyriaeth a godwyd neu a welwyd | Camau / Newidiadau |
|---|---|---|
| **LU22 Cyfleusterau a Gwasanaethau Cymunedol, Adloniant a Hamdden** | Nid yw maen prawf 2 yn y polisi yn 'llifo' o gyflwyniad cyntaf y polisi. | Newid maen prawf 2 i:<br><br>~~"Datblygiad a ddylai gynnwys~~ Ni fyddir yn caniatáu **gwrthsefyll** newid neu golli defnydd o gyfleuster cymunedol, hamdden neu adloniant sy'n bodoli'n barod oni bai". |
| **LU24 Mannau Agored Newydd** | Y teitl gwreiddiol oedd "Tir Hamdden Newydd, Caeau Chwarae, Rhandiroedd a Mannau Agored" ac mae'n aneglur sut y mae hynny'n berthnasol i LU22 (uchod) | Newid y teitl i "Darparu Mannau Agored Newydd". |
| **LU25 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy** | Wrth ei gyflwyno i'w asesu roedd y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu ar sail dau bolisi ar gyfer ynni adnewyddadwy – Targedau Ynni Adnewyddadwy LUXX ac Ynni Adnewyddadwy LUXX. Teimlid bod hynny'n ddiangen gan fod yr ail bolisi yn fater o drefn ac yn amhosibl ei asesu trwy'r AC/AAS. | Cyfuno polisïau Targedau Ynni Adnewyddadwy LUXX ac Ynni Adnewyddadwy LUXX i greu un polisi – LU25 Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy. |
| **Polisïau Rheoli Datblygu:** | | |
| | | |
| **DM06 Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel** | Mae maen prawf 9 y polisi yn dweud: "Lle bo'n ymarferol, cynnwys seilwaith ar gyfer technoleg telathrebu a gwybodaeth fodern er mwyn hwyluso gweithio yn y cartref"<br><br>Mae'r seilwaith ar gyfer telathrebu modern yn ymwneud â mwy na gweithio yn y cartref yn unig, felly mae canolbwyntio ar hyn yn amhriodol. | Newid y maen prawf fel a ganlyn:<br><br>"Lle bo'n ymarferol, cynnwys seilwaith ar gyfer technoleg telathrebu a gwybodaeth fodern er mwyn ~~hwyluso gweithio yn y cartref~~; |

| Yr Adran berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol | Y Broblem neu ystyriaeth a godwyd neu a welwyd | Camau / Newidiadau |
|---|---|---|
| **DM08 Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog** | Mae'r polisi yn dweud:<br><br>"Byddir yn caniatáu ceisiadau am arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal."<br><br>Teimlid y byddai'r polisi yn perfformio'n well yn erbyn Amcanion yr AC/AAS pe bai'n cynnwys elfen o wellhad. | Diwygio'r polisi fel a ganlyn;<br><br>"Byddir yn caniatáu ceisiadau am arwyddion ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad gweledol ac ieithyddol yr ardal **a'u bod, lle bo'n bosibl yn gwella hynny**." |
| **DM11 Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd** | Roedd rhan gyntaf y polisi'n dweud:<br><br>"Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i sicrhau bod datblygiadau yn rhoi sylw i oblygiadau Newid Hinsawdd gan sicrhau bod:"<br><br>Teimlid bod y geiriad hwn yn rhy wan ac y byddai'r polisi yn perfformio'n well yn erbyn Amcanion AC/AAS pe bai'n cael ei gryfhau. | Diwygio'r polisi fel a ganlyn;<br><br>"Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu i sicrhau bod datblygiadau yn rhoi sylw i oblygiadau Newid Hinsawdd ~~gan sicrhau~~ **gan fynnu** bod:" |
| **DM12 Seilwaith Cyfleustodau** | Mae maen prawf 3 y polisi yn hir a gallai fod yn ddryslyd:<br><br>"Mae gwasanaethau yn cael eu cyfeirio o dan y ddaear cyn belled ag y bo modd ac ym mhob achos yn lleihau difrod neu amhariad i'r amgylchedd. Os na ellir gosod gwasanaethau o dan ddaear, rhaid cyfiawnhau fel rhan o'r cais pam nad yw hynny'n ddichonadwy," | Newid y maen prawf i:<br><br>Mae gwasanaethau yn cael eu cyfeirio o dan y ddaear cyn belled ag y bo modd:<br>a) yn lleihau difrod neu amhariad i'r amgylchedd,ac<br>b) os na ellir gosod gwasanaethau o dan ddaear, rhaid cyfiawnhau fel rhan o'r cais pam nad yw hynny'n ddichonadwy; ac |
| | Camdeipiad yn y Saesneg – ac mae "and" ar goll o bwynt a. a b. ym maen prawf 3. | Ychwanegu "and" at ddiwedd pwynt a. maen prawf 3 yn y Saesneg. |
| **DM13 Systemau Draenio** | Mae maen prawf y polisi sy'n ymwneud â throthwyon yn dweud: | Newid y meini prawf i: |

| Yr Adran berthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol | Y Broblem neu ystyriaeth a godwyd neu a welwyd | Camau / Newidiadau |
|---|---|---|
| **Cynaliadwy** | "Bydd datblygiad dibreswyl sy'n 500m² yn cynnwys system SDCau y gellir ei mabwysiadu gan Gorff Cymeradwyo SDCau"<br><br>Y teimlad oedd bod y geiriad hwn yn amwys ac y gellid dehongli na fyddai angen i ddatblygiad sydd dros 500m² weithredu SDCau. | "Bydd datblygiad dibreswyl **sy'n** 500m² **neu fwy** yn cynnwys system SDCau y gellir ei mabwysiadu gan Gorff Cymeradwyo SDCau" |
| **DM17 Tirwedd Gyffredinol** | Er mai nodau'r polisi oedd cyfyngu ar effeithiau negyddol datblygu ar ansawdd a gwerth y dirwedd yn gryf, gwelwyd yn ystod yr asesiad nad oedd ymgais bwriadol i sicrhau gwelliannau i'r dirwedd trwy ddatblygu. | Ychwanegu'r frawddeg ganlynol at ddiwedd y polisi:<br><br>"Lle bo modd dylai'r datblygiadau ychwanegu at y cymeriad arbennig a'r priodweddau hyn." |
| **DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig** | Er mai nodau'r polisi oedd cyfyngu ar effeithiau negyddol datblygu ar ansawdd a gwerth uchel tirwedd o fewn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn gryf, gwelwyd yn ystod yr asesiad nad oedd ymgais bwriadol i wella'r dirwedd trwy ddatblygu. | Diwygio'r polisi fel a ganlyn:<br><br>"Bydd cynigion ar gyfer datblygu o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu hasesu mewn perthynas â maint a natur y datblygiad a phosibilrwydd i'w hymgorffori yn rhan o gymeriad gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol gwerthfawr yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig, heb achosi difrod sylweddol **a lle bo'n bosibl yn ychwanegu at y priodweddau hynny**.<br><br>Mae'r ardaloedd a ddynodir yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu dangos ar y map cynigion a byddant yn cael eu rheoli yn amodol ar Ganllawiau Cynllunio Ategol." |
| **DM19 Tirwedd hanesyddol a Diwylliannol** | Er mai nodau'r polisi oedd cyfyngu ar effeithiau negyddol datblygu ar dirwedd hanesyddol a diwylliannol o ansawdd a gwerth uchel, nid oedd ymgais bwriadol i sicrhau gwelliannau i'r dirwedd trwy ddatblygu. | Ychwanegu'r frawddeg ganlynol ar ddiwedd y polisi:<br><br>"Lle bo modd dylai'r datblygiad ychwanegu at y cymeriad arbennig a'r priodweddau hyn." |

## 7.5 Asesu Effeithiau Crynodol Amcanion, Polisïau a Safleoedd a Neilltuwyd y Cynllun

7.5.1 Mae'n ofynnol dan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol bod effeithiau Amcanion a Pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hasesu mewn cyfuniad ag elfennau eraill y Cynllun (yn hytrach nag ar eu pen eu hunain). Gelwir y cyfuniad o'r effeithiau hyn yn effeithiau crynodol; effeithiau sy'n codi trwy ychwanegu effeithiau nifer o elfennau at ei gilydd fel bod yr effaith yn fwy trawiadol; yn ogystal ag effeithiau synergaidd; sef rhai sy'n codi oherwydd bod effeithiau'r gwahanol amcanion yn rhyngweithio, a bod modd dadlau bod yr effaith gyfun yn fwy nag effaith y gwahanol elfennau ar eu pen eu hunain.

7.5.2 Gan fod Amcanion a Pholisïau Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu casglu mewn adrannau, yr ydym wedi defnyddio'r un adrannau ar gyfer gwneud yr asesiad:

a. Y Strategaeth;
b. Mathau Penodol o Gynigion Datblygu Tir; a
c. Rheoli Datblygu.

7.5.3 Er mwyn asesu Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol y maent yn cael eu helaethu o ran y dewisiadau polisi a fwriedir eu mwyn eu cyflawni. Ceir rhestr lawn o'r Amcanion yn Adran 5.

7.5.4 Mae effeithiau cronnol safleoedd a neilltuwyd wedi cael eu hystyried fel rhan o'r strategaeth gyffredinol ac yn fwy penodol, yn cael eu hystyried o dan ofynion Polisi S01. Gweler Adran 8 am asesiadau o safleoedd unigol.

7.5.5 Yn gyffredinol wrth eu hystyried mewn cyfuniad ar draws y gwahanol adrannau bydd effeithiau cyfun yr amcanion yn gadarnhaol, yn arbennig mewn perthynas â'r amgylchedd, gan y bydd mesurau i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, ac amcanion dylunio ac ynni yn lliniaru neu'n gwrthbwyso unrhyw effeithiau negyddol a gaiff yr amcanion o dan y themâu eraill. Fodd bynnag, mae hynny yn codi'r posibilrwydd y gallai fod canlyniadau economaidd gymdeithasol negyddol i'r amcanion amgylcheddol oherwydd y cyfyngiadau y gallent eu gosod ar ddatblygu i gyflawni amcanion cymdeithasol economaidd.

## 7.6 Y Strategaeth

7.6.1 Er bod nifer yr effeithiau arfaethedig negyddol ar bolisïau'r adran hon oedd yn gymharol isel (cyfanswm o 4 o fân effeithiau negyddol allan o 95 (11%), mae natur strategol y polisiau'n golygu bod gan eu maint y potensial i fod yn fwy na pholisiau yn rhannau eraill y Cynllun. Felly, mae'r prif effeithiau posibl yn codi o'r ffaith fod y polisiau i gyd yn ymwneud â datblygiad newydd i gynnal anghenion y Sir yn y dyfodol, ac mae'n anochel y bydd y rhain yn effeithio ar yr

amgylchedd mewn sawl ffordd. Y prif ffactor sy'n cyfyngu ar yr effeithiau hynny yw'r ffaith bod y polisïau yn canoli'r gyfran helaethaf o ddatblygiadau yn y prif aneddiadau (S01, S02 a S03) ac yn cyfyngu ar ddatblygiadau mewn mannau eraill (S04). Yn y bennod yma hefyd mae'r gyfran uchaf o fân effeithiau (46%) ac effeithiau cadarnhaol sylweddol (7%). Mae'r gyfran o effeithiau niwtral oddeutu 32% a'r effeithiau ansicr oddeutu 11%. Mae pob un o'r rhain yn ymwneud ag Amcanion cymdeithasol economaidd yr AC/AAS. Dylid nodi nad yw effeithiau cymdeithasol economaidd cadarnhaol yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau nac i "wrthbwyso" effeithiau amgylcheddol negyddol a ganfyddir a bod yr adran Rheoli Datblygu yn cynnwys ystod eang o fesurau i liniaru niwed posibl.

**Ffigur 7.6. Crynodeb o Asesiad o Bolisïau Strategol AC/AAS (SA/SEA)**

| Asesiad o Arwyddocâd | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| ++ | 7 | 7% |
| + | 44 | 46% |
| ? | 10 | 11% |
| 0 | 30 | 32% |
| - | 4 | 4% |
| -- | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | 95 | 100% |

*Sylwer: gall talgrynnu'r canrannau fod wedi effeithio ar y cyfanswm.

7.6.2 Yn grynodol, mae Polisïau Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o gael effeithiau cymdeithasol economaidd cadarnhaol trwy hybu twf economaidd a darparu ar gyfer anghenion tai y boblogaeth. Bydd Polisïau amgylcheddol y bennod Rheoli Datblygu yn sicrhau bod yr effeithiau negyddol a nodir naill ai'n cael eu dileu neu'n cael eu lliniaru'n sylweddol.

## 7.7 Mathau penodol o Gynigion Defnydd Tir

7.7.1 Mae'r polisïau yn yr adran hon yn ymwneud i raddau helaeth â ffactorau cymdeithasol economaidd penodol ac o ganlyniad mae nifer gymharol fawr o asesiadau wedi rhagweld mân effeithiau cadarnhaol (22%), yn ogystal â nifer o effeithiau sylweddol (3%). Roedd cyfran fechan o'r asesiadau yn dangos mân effeithiau negyddol (1%), sy'n gysylltiedig â ffactorau amgylcheddol yn bennaf. Yn grynodol, oherwydd natur benodol ac unigryw yr effeithiau negyddol hyn (er enghraifft LU27 a LU28), mae'r polisïau yma'n annhebygol o fod yn sylweddol, yn arbennig oherwydd bod canllawiau cenedlaethol a nifer o bolisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys elfennau sy'n lliniaru'r effeithiau.

7.7.2 Mae'r asesiadau sy'n dod i gasgliadau ansicr (17%) yn gysylltiedig yn bennaf â pholisïau sy'n ymwneud â newid defnydd o gyflogaeth (LU13) a manwerthu (LU21). Y rheswm am hyn yw bod y polisïau yn gyffredinol yn anelu at gadw defnydd presennol o dir ac adeiladau, ond eu bod yn caniatáu newid lle bo'n briodol. Yr anhawster wrth asesu'r polisïau hyn yw y gallai'r defnydd newydd fod yn un rhywbeth o dai i storfeydd mawr, a fyddai'n effeithio'n wahanol iawn ar Amcan yr AC/AAS. Mae'r gyfran gymharol uchel o effeithiau niwtral (57%) yn adlewyrchu'r ffaith bod cynigion defnydd tir yn benodol iawn yn yr agweddau o'r AC/AAS y maent yn gallu effeithio arnynt.

**Ffigur 7.6. Crynodeb o Asesiad AC/AAS (SA/SEA) o Gynigion Polisïau Mathau Penodol o Ddefnydd Tir**

| Asesiad o Arwyddocâd | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| ++ | 15 | 3% |
| + | 121 | 22% |
| ? | 96 | 17% |
| 0 | 314 | 57% |
| - | 5 | 1% |
| -- | 0 | 0% |
| **CYFANSWM** | 551 | 100% |

*Sylwer: gall talgrynnu'r canrannau fod wedi effeithio ar y cyfanswm.

7.7.3 Yn grynodol, mae Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol mewn perthynas â Mathau Penodol o Ddefnydd Tir yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn gymdeithasol economaidd ac yn amgylcheddol.

## 7.8 Polisïau Rheoli Datblygu

7.8.1 Yn grynodol, Polisïau Rheoli Datblygu sydd â'r nifer fwyaf, ond nid y ganran uchaf (38%) o fân effeithiau cadarnhaol, yn ymwneud â chymysgedd o Amcanion amgylcheddol a chymdeithasol economaidd yn yr AC/AAS (SA/SEA). Mae rhai polisïau megis DM03, DM06, DM14 a DM15 yn cael effaith gadarnhaol ar draws bob agwedd o sbectrwm cynaliadwyedd. Mae'r adran hefyd yn cynnwys nifer uchel o effeithiau cadarnhaol sylweddol, sydd eto'n dod o fewn y categori amgylcheddol a chategori cymdeithasol economaidd.

7.8.2 Tri yn unig (<1%) o fân effeithiau negyddol a ganfuwyd. Mae'r rhain yn ymwneud ag effeithiau Polisïau DM03, DM04 a DM12 ar Amcan 2a yr AC/AAS Diogelu ansawdd a chyfaint pridd. Mae'n amhosibl lliniaru'r effaith ar yr Amcan AC/AAS hwn yn ddigonol, ond cymerwyd nifer o gamau i liniaru'r effaith, er enghraifft mae DM22 yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ceisio diogelu ystod o elfennau amgylcheddol, gan gynnwys pridd. Ar sail eu hamcanion i ddiogelu ardaloedd o

bwysigrwydd economaidd, mae polisïau sy'n ymwneud â Chadwraeth Natur (DM14 a DM15) hefyd yn debygol o gael rhai effeithiau synergaidd cadarnhaol gan fod pridd yn rhan bwysig o'r ecosystem. Trwy ddiogelu coetiroedd, coed a pherthi, mae Polisi DM20 yn debygol o gael effeithiau synergaidd tebyg. O ganlyniad, mae effaith grynodol yr elfennau hyn yn annhebygol o fod yn sylweddol.

7.8.3 Nid oedd modd asesu Polisi DM07 Ardaloedd Cadwraeth gan ei fod yn pennu gweithdrefn.

**Ffigur 7.7. Crynodeb o Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol o Bolisïau Rheoli Datblygu**

| Asesiad o Arwyddocâd | Nifer | Cyfran |
|---|---|---|
| ++ | 18 | 5% |
| + | 150 | 38% |
| ? | 11 | 3% |
| 0 | 217 | 54% |
| - | 3 | <1% |
| -- | 0 | 0% |
| CYFANSWM | 399 | 100% |

7.8.4 Yn grynodol, mae Polisïau Rheoli Datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn gymdeithasol economaidd ac yn amgylcheddol.

## 7.9 Effeithiau Crynodol yn ôl Amcan AC/AAS (SA/SEA)

7.9.1 Rhoddwyd ystyriaeth i effeithiau crynodol yn Amcan yr AC/AAS , a dyma grynodeb o'r asesiadau hynny.

**1a. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn datblygiadau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod**

7.9.2 Mae prif effeithiau negyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar Amcan yr AC/AAS i gyd yn gysylltiedig â datblygu newydd sy'n anelu at gyflawni rhagamcanion tai a thwf economaidd y sir. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y nifer fechan o fân effeithiau niweidiol a ganfuwyd ar gyfer Safleoedd a Neilltuwyd sydd wedi eu lleoli gryn bellter oddi wrth brif gyfleusterau eu haneddiad. Ond mae'r effeithiau hyn yn y lleiafrif ac mae gan y Cynllun nifer o bolisïau eraill a fwriedir i liniaru'r effeithiau niweidiol. Yn arbennig, diben y nod yn y Strategaeth i gydleoli tai, gwaith, gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau yw lleihau'r angen i bobl deithio, a dylai hynny yn ei dro gael budd sylweddol trwy leihau'r twf mewn

allyriadau tŷ gwydr oherwydd trafnidiaeth. Mae nwyon tŷ gwydr o ddefnyddio ynni mewn tai a sefydliadau masnachol yn cael eu lliniaru trwy'r canllawiau cenedlaethol sy'n mynnu bod tai newydd yn cyflawni Lefel 3 y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy gyda chwe chredyd gorfodol ar gyfer lleihau $C0^2$ a phob datblygiad arall dros $1000m^2$, neu sy'n amodol ar gyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni Safonau Da Iawn BREEAM gyda chredydau gorfodol ar safon Ragorol ar gyfer lleihau $C0^2$. Er bod y rhan fwyaf o effeithiau'r Amcan AC/AAS yn niwtral neu'n gadarnhaol, maent yn annhebygol o fod yn sylweddol o'u crynhoi, gan y bydd twf, yn gyffredinol bob amser yn achosi cynnydd mewn allyriadau.

**1b. Sicrhau bod mesurau digonol yn bodoli i addasu i newid hinsawdd ac i liniaru effeithiau newid hinsawdd**

7.9.3 Er bod Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol a'r Amcanion yn gefnogol iawn i Amcan yr AC/AAS , ac eithrio Polisïau DM06 Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel a DM11 Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd, mae effeithiau polisïau'r Cynllun yn gyffredinol yn llai cryf, a'r rhan fwyaf ohonynt heb effeithiau a ragwelir. Ond mae hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu'r ffaith nad yw'r polisïau hynny yn berthnasol i ymaddasu. Mewn gwirionedd bydd Polisi DM06 a DM11 yn effeithio ar bron bob un o bolisïau eraill y Cynllun. Gan hynny mae'r effaith gyffredinol yn debygol o fod yn gadarnhaol iawn.

**1c. Lleihau'r risg o lifogydd**

7.9.4 Gan y bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i Bolisi Cynllunio Cymru a TAN 15 pa bynnag agwedd y bydd polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu cymryd, mae gallu'r Cynllun i gael effaith negyddol ar y risg o lifogydd yn gyfyngedig. Gan hynny, ni ragwelir y bydd unrhyw un o'r polisïau yn cael effaith negyddol ar Amcan yr AC/AAS. Yn achos Safleoedd a Neilltuwyd, lle gall fod rhywfaint o risg o lifogydd, mae'r ardal a effeithir arni wedi cael ei chynnwys fel ardal hamdden yn hytrach na thir sydd ar gael i'w ddatblygu. Er y gall fod risg, naill ai ar y safle neu o ganlyniad i ddatblygiad, bydd angen Asesiadau Canlyniadau Llifogydd i ganfod beth yw'r risg (os ydynt yn bodoli) a dangos sut y gellir eu rheoli. Hefyd mae nifer o bolisïau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar Amcan yr AC/AAS , yn benodol mae Polisi DM11 Dylunio ar gyfer Newid Hinsawdd yn mynnu bod pob datblygiad a gyfiawnheir yn y parth llifogydd yn wydn ac yn gallu addasu i effeithiau llifogydd. Rhagamcanir y bydd Polisi13: Systemau Draenio Cynaliadwy sy'n ceisio ymgorffori cynlluniau SDCau i bob datblygiad newydd yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar nodau'r AC/AAS. Yn gyffredinol mae effeithiau crynodol y polisïau ar y risg o lifogydd yn gadarnhaol.

**2a. Lleihau halogiad a diogelu ansawdd a chyfaint y pridd**

7.9.5 Oherwydd natur pob math o ddatblygiad, a nodau'r Cynllun Datblygu Lleol o gyflawni'r twf y mae'r Sir yn ei gynllunio ar ei gyfer ym maes tai a thwf economaidd, y mae'n anochel y bydd rhywfaint o bridd yn cael ei selio ac yn cael ei golli yn sgil hynny. Byddai'n amhosibl

lliniaru'r effaith hon. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y nifer fawr o fân effeithiau niweidiol a nodir yn yr asesiad o Safleoedd a Neilltuwyd. Ond cymerwyd nifer o gamau gweithredu i leihau'r effaith ar golli ansawdd a chyfaint pridd, er enghraifft mae DM22: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Cyffredinol yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ceisio diogelu nifer o elfennau amgylcheddol gan gynnwys pridd. Hefyd mae nod o ddiogelu ardaloedd o bwys ecolegol, sydd mewn polisïau Cadwraeth Natur (DM14 a DM15) yn debygol o gael rhai effeithiau synergaidd cadarnhaol gan fod pridd yn agwedd bwysig ar ecosystemau. Trwy amddiffyn coetiroedd, coed a pherthi, mae Polisi DM20, hefyd yn debygol o gael effeithiau synergaidd tebyg. Ond yn gyffredinol maent yn annhebygol o wrthbwyso effeithiau negyddol crynodol polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol. Gan hynny, mae effaith gyffredinol y cynllun yn debygol o fod yn effaith negyddol fechan.

**2b. Cynnal a gwella ansawdd yr aer ar draws Ceredigion**

7.9.6 Mae prif effeithiau negyddol y Cynllun Datblygu Lleol ar Amcan yr AC/AAS i gyd yn gysylltiedig â datblygu newydd sy'n anelu at gyflawni'r twf a ragamcanir ym maes tai ac economi'r sir. Ond mae'r effeithiau hynny yn y lleiafrif ac mae gan y Cynllun nifer o bolisïau eraill a gynlluniwyd i liniaru'r effeithiau negyddol hynny. Yn benodol, mae nod y Cynllun Datblygu Lleol o gydleoli tai, gwaith, gwasanaethau a chyfleusterau mewn Canolfannau Gwasanaethau yn bwriadu lleihau'r angen i bobl deithio. Bydd hynny yn ei dro yn cael budd sylweddol trwy leihau llygredd aer seiliedig ar draffig. Roedd effeithiau negyddol hefyd yn gysylltiedig ag echdynnu mwynau (LU27), ond oherwydd natur graddfa fechan echdynnu mwynau ar draws Ceredigion a'r doreth o fesurau lliniaru a fynnir gan ganllawiau cenedlaethol, mae effeithiau'r polisi hwn ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â pholisïau eraill y Cynllun yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn. Er bod y rhan fwyaf o'r effeithiau ar Amcan yr AC/AAS yn cael eu hystyried yn niwtral neu'n gadarnhaol, maent yn annhebygol o fod yn sylweddol o safbwynt crynodol, gan y bydd twf yn arwain bob amser at gynnydd mewn llygryddion yn yr aer. Rhwng popeth mae'n debyg y bydd effaith gyffredinol y polisïau ar ansawdd yr aer yn niwtral.

**2c. Lleihau i'r eithaf effeithiau niweidiol defnydd tir ar ansawdd a chyfaint adnoddau dŵr mewndirol ac arfordirol**

7.9.7 Mae'n anochel y bydd adeiladu datblygiadau newydd yn arwain at bwysau cynyddol ar adnoddau dŵr, a gall hynny gael rhai effeithiau negyddol ar ansawdd a chyfaint dŵr. Ond bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lleihau hyd y gellir gan y bydd y datblygiadau'n digwydd o fewn y mesurau a gymerir i ddiogelu a gwella amgylchedd ac adnoddau'r sir, a thrwy bod yn hyblyg i newid trwy Ddatblygu Cynaliadwy, gan sicrhau bod y seilwaith a'r gwasanaethau yn gallu cwrdd â'r heriau hyn. Mae Polisïau, yn arbennig Polisi DM22 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Cyffredinol a DM23 Rheoli'r Arfordir, wedi cael eu dylunio i sicrhau bod hynny'n digwydd. Rhwng popeth mae'r

effeithiau negyddol yn annhebygol o fod yn sylweddol, a gan y bydd gwahanol fathau o fesurau'n cael eu gweithredu i liniaru neu i ragflaenu unrhyw effeithiau negyddol a gaiff datblygiadau newydd, y mae effaith gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol ar ansawdd a chyfaint dŵr yn debygol o fod yn niwtral.

**3a. Defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy**
Gwelwyd bod mân effaith niweidiol mewn perthynas â Pholisi S01 Twf Economaidd, gan y bydd cynnydd yn nifer yr unedau preswyl ac economaidd newydd yn arwain at fwy o alw am ddŵr ac ynni, ac yn arwain at gynnydd yn y galw am agregau ar gyfer adeiladu. Trwy'i gilydd a heb eu lliniaru, fe allai'r polisïau hyn gael effaith niweidiol sylweddol ar Amcan yr AC/AAS , gan eu bod yn ymwneud â bron pob math o ddatblygiad. Ond mae craidd y Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei ddylunio i wneud defnydd cynaliadwy o adnoddau, felly mae'n cynnwys nifer o bolisïau sy'n cynnwys gwahanol raddau o fesurau lliniaru. Efallai mai'r pwysicaf o'r rhain yw Polisi S01 Y Strategaeth mewn gwirioedd, sy'n dylanwadu ar gyfeiriad pob polisi arall, ac yn ceisio sicrhau bod adnoddau Ceredigion yn cael eu defnyddio, eu hamddiffyn a'u gwella mewn ffordd gynaliadwy. Ar ben hynny, mae Polisïau LU27 Cyflenwad Cynaliadwy o Adnoddau Mwynol, DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel ystyriaeth faterol a DM06 Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel i gyd yn cynnwys mesurau lliniaru ac effeithiau cadarnhaol ar yr Amcan AC/AAS. Yn grynodol felly, mae effeithiau cyffredinol polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar Amcan yr AC/AAS yn debygol o fod yn gadarnhaol.

**3b. Adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith eco-gyfeillgar o ansawdd uchel**

7.9.8 Rhagwelir na fydd Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar Amcan yr AC/AAS , ac ni fydd y rhan fwyaf yn cael unrhyw effaith o gwbl. Mae hynny oherwydd nad yw llawer o'r polisïau yn cael fawr ddim effaith ar adeiladu a chynnal gwasanaethau a seilwaith ecogyfeillgar o ansawdd uchel. Oherwydd ei nodau penodol o ddarparu seilwaith cynaliadwy o ansawdd uchel, asesir bod Polisi DM12: Seilwaith Cyfleustodau, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr Amcan. Mae polisïau eraill, sydd i raddau mwy neu lai yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau a seilwaith, yn cael mân effeithiau cadarnhaol. O bwys arbennig y mae'r rhai sy'n ymwneud â'r strategaeth gyffredinol (S01, S02, S03 a S04), tra bod polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio, amnewid neu adfer adeiladau presennol neu rai sydd wedi eu gadael (LU07, LU08 a LU09), ynni adnewyddadwy (LU25 a LU26), rheoli gwastraff (LU31 a LU32), seilwaith teithio (DM03 a DM04) a (DM06) a dylunio o ansawdd uchel (DM06) hefyd yn cael effeithiau synergaidd cadarnhaol. Gan hynny, mae effaith gyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o fod yn gadarnhaol iawn.

### 4a. Gwerthfawrogi, diogelu a gwella bioamrywiaeth

7.9.9 Y mae posibilrwydd y bydd datblygu newydd yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth; ond mae maint yr effaith yn ddibynnol ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gyfran uchel o bolisïau sydd ag ansicrwydd ynglŷn â'u heffeithiau a ragfynegir. Ni welwyd unrhyw effeithiau negyddol fel rhan o'r asesiad polisi; ond roedd yr asesiad o Safleoedd a Neilltuwyd yn nodi effeithiau niweidiol drwy'r cyfan bron, a nifer ohonynt yn cael eu hystyried yn sylweddol. Ond dylid nodi mewn perthynas ag ansicrwydd effaith y polisïau a'r effaith negyddol ar Safleoedd a Neilltuwyd, y bydd cymhwyso Polisïau DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol a DM15 Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol, yn lliniaru'r rhan helaethaf o lawer o effeithiau negyddol, gan gynnwys y rhai mwyaf sylweddol. Mewn rhai achosion gobeithir y ceir cynnydd net mewn bioamrywiaeth. Yn y cyd-destun hwn, gellir gweld bod synergedd o fewn nodau'r polisïau sy'n ymwneud â dwysedd datblygu ac ailddefnyddio tai presennol (LU06, LU07 a LU08), mannau agored (LU22 a LU24), echdynnu mwynau (LU28), trafnidiaeth gynaliadwy (DM03), dyluniad (DM05, DM06, DM09 a DM10), seilwaith cyfleustodau a draeniad (DM12 a DM13), tirwedd (DM17, DM18 a DM20) a diogelu'r amgylchedd (DM22 a DM23). Yn ogystal â'r polisïau hyn, mae gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r broses asesu Safleoedd Posibl ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd wedi cael eu defnyddio i lunio mesurau lliniaru ar gyfer safleoedd penodol. Mae'r mesurau hynny wedi cael eu cynnwys yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd, ac maent yn ystyriaeth faterol o dan ofynion Polisi S08 Twf Cynaliadwy. Yn gyffredinol, mae effeithiau crynodol Amcanion, Polisïau a Dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn ansicr, ond oherwydd y mesurau lliniaru a ddynodir, y maent yn annhebygol o fod yn sylweddol.

### 5a. Gwella, gwerthfawrogi, amddiffyn, gwella a dathlu tirwedd, amgylchedd hanesyddol, amrywiaeth, arwahanrwydd lleol, a threftadaeth hanesyddol a diwylliannol Ceredigion

7.9.10 Mae potensial i ddatblygiadau newydd gael effaith negyddol ar y dirwedd; ond mae maint yr effaith yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y gyfran uchel o bolisïau lle mae ansicrwydd ynglŷn â'r effeithiau a ragfynegir. Ni ddynodwyd unrhyw effeithiau negyddol fel rhan o'r asesiad polisi; ond roedd yr asesiad o'r Safleoedd a Neilltuwyd yn nodi effeithiau niweidiol ym mron pob achos, er nad oedd yr un ohonynt yn arwyddocaol iawn. Ond dylid nodi, mewn perthynas â'r safleoedd, y bydd cymhwyso Polisïau DM17: Tirwedd Gyffredinol, DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig (os yw'r safle yn Ardal Tirwedd Arbennig) DM19 Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol a DM20 Amddiffyn Coed, Perthi a Choetiroedd yn helpu i liniaru'r rhan fwyaf o'r effeithiau negyddol. Mae'n bosibl hefyd y gellir cyflawni effeithiau cadarnhaol gan fod DM17, DM18 a DM19 yn mynnu rhoi ystyriaeth i

welliannau, ac y gallai hynny fod o fudd mawr ar safleoedd tir llwyd neu safleoedd ailddatblygu sydd mewn cyflwr gweledol gwael ar hyn o bryd. Gellir dod o hyd i synergedd, mewn perthynas â thirwedd, yn nodau hirdymor y polisïau sy'n ymwneud â dwysedd datblygu ac ailddefnyddio tai presennol (LU06, LU07 a LU08), twristiaeth (LU15), mannau agored (LU22 a LU24), ynni adnewyddadwy (LU26), echdynnu mwynau (LU28), dylunio (DM01, Polisi DM5 a Pholisi DM10), seilwaith a draenio (DM12 a DM13), cadwraeth natur (DM14 a DM15) a diogelu'r amgylchedd (DM22 a DM23). Mae tirwedd a thirweddu yn un o'r gofynion a amlinellir yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd, ac mae hefyd yn ofynnol rhoi ystyriaeth i gasgliadau System Wybodaeth LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae gofynion yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd yn ystyriaeth faterol o dan ofynion Polisi S01 Twf Cynaliadwy.

7.9.11 Gwelwyd effeithiau niweidiol yn y byrdymor a'r tymor canol ar gyfer Polisi LU25: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy, gan y gallai datblygu ffermydd gwynt a dulliau eraill o gynhyrchu ynni adnewyddadwy gael effaith weledol a morffolegol negyddol ar y dirwedd. Gallai hyn fod yn wir am ddatblygiadau unigol mawr, neu yn ganlyniad i effaith grynodol llawer o ddatblygiadau gwahanol, gan gynnwys cynlluniau cymunedol a microgynhyrchu. Ond yn yr hirdymor mae ansicrwydd ynglŷn â'r union effeithiau, oherwydd bod angen cynlluniau adfer y dirwedd pan fydd datblygiadau'n cael eu dadgomisiynu.

7.9.12 Y mae hefyd yn werth pwysleisio effeithiau posibl Polisi LU26: Ffermydd gwynt mawr a chanolig, sy'n delio â materion sy'n ymwneud â TAN 8 SSA D. Er bod yr asesiad yn cydnabod bod yr ardal o amgylch Nant-y-Moch yn debygol o ddioddef peth niwed lleol yn ansawdd y dirwedd o ganlyniad i ddatblygu ffermydd gwynt, bydd nod y polisi o grynhoi datblygiadau mawr a chymedrol eu maint mewn un ardal yn cyfyngu ar effeithiau niweidiol ehangach datblygiadau ar dirwedd y rhanbarth, yn arbennig yr effeithiau crynodol. Gan hynny, mae effeithiau cyffredinol y polisi yn gadarnhaol. Ar ben hynny mae Polisi DM21 Effaith ar y Dirwedd o Ddatblygu Ffermydd Gwynt o Fewn Ardal Chwilio Strategol D, yn mynnu bod datblygiadau ffermydd gwynt o fewn Ardal Tirwedd Arbennig yn lleihau'r effaith niweidiol ar werth y dirwedd i'r eithaf.

7.9.13 Yn gyffredinol, mae effeithiau crynodol Amcanion, Polisïau a Dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn ansicr, ond oherwydd y mesurau lliniaru a ddynodir, y maent yn annhebygol o fod yn sylweddol.

**6a. Cynnal hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a sicrhau yr adlewyrchir anghenion demograffig cyfnewidiol a 6b. Adeiladu cymunedau bywiog, diogel a chydlynus**

7.9.14 Mae Amcanion, Polisïau a Dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael nifer fawr o effeithiau cadarnhaol bychan a sylweddol ar nodau

Amcanion yr AC/AAS. Gan hynny mae'r effeithiau crynodol ar y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o fod yn gadarnhaol iawn.

**7a. Hybu cymunedau iach a darparu cyfleoedd a gwasanaethau i'w cynnal**

7.9.15 Mae'r rhan fwyaf o Amcanion, Polisïau a dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael mân effeithiau cadarnhaol ar Amcanion yr AC/AAS. Dynodwyd effeithiau cadarnhaol sylweddol ar gyfer Polisi LU24 Darparu Mannau Agored Newydd. Rhagwelir mân effeithiau negyddol pan fydd Safleoedd a Neilltuwyd gryn bellter oddi wrth y rhan fwyaf o gyfleusterau mewn anheddiad, neu pan fydd yn anodd eu cyrchu. Ond mae'n debygol y gellir lliniaru'r effeithiau hynny'n rhannol trwy gymhwyso'r polisiau mannau agored a nodir uchod. Mae'r angen am fannau agored wedi cael ei nodi yn yr Atodlenni Safleoedd a Neilltuwyd, ac maent yn ystyriaeth faterol o dan ofynion Polisi S01 Twf Cynaliadwy. Yn grynodol mae effeithiau'r Cynllun yn annhebygol o fod yn sylweddol gan mai'r unig beth y gall Cynllun Datblygu Lleol ei wneud yw hwyluso gwell iechyd a lles yn hytrach nag effeithio'n uniongyrchol ar ffordd o fyw pobl. Gan hynny, rhwng popeth, rhagwelir mân effaith gadarnhaol.

**8a. Hybu, datblygu a gwella cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau twristiaeth, hamdden ac adloniant cynaliadwy ac eco-gyfeillgar yng Ngheredigion**

7.9.16 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys nifer o Bolisïau sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar Amcan yr AC/AAS. Yn arbennig, mae effaith grynodol LU22 a LU24, sy'n ymwneud â hamdden, adloniant a mannau agored, yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol ar Amcan yr AC/AAS. Mae effeithiau LU14 a LU17, sy'n ymwneud â materion darparu ar gyfer twristiaeth, yn fwy amlwg byth. Gellir gweld effeithiau synergaidd hefyd o fewn polisïau sy'n ymwneud â chadwraeth natur (DM14 a DM15) a thirwedd (DM17, DM18, DM19 a DM20), sy'n ceisio diogelu a gwella nodweddion ffisegol naturiol Ceredigion – gan eu bod yn allweddol ar gyfer denu ymwelwyr i'r sir. Ni chanfuwyd unrhyw effeithiau negyddol felly mae effeithiau crynodol y Cynllun Datblygu Lleol ar Amcan yr AC/AAS yn debygol o fod yn gadarnhaol ac yn sylweddol.

**9a. Cynyddu'r cyfleoedd i adeiladu sylfaen addysg a sgiliau Ceredigion**

7.9.17 Trwy ganiatáu twf economaidd (S01), a thrwy annog datblygu cyfleusterau cymunedol (LU22), a all ymgorffori swyddogaethau addysgol, mae'r cyfle i gadw a helaethu sgiliau yng Ngheredigion yn cael ei hwyluso gan y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r union raddau y bydd polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithio ar sylfaen addysg a sgiliau'r sir naill ai'n niwtral neu'n ansicr ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y gyfran gymharol uchel o asesiadau sydd naill ai'n dod i gasgliad nad oes unrhyw effeithiau rhagweladwy, neu i

gasgliad bod yr effeithiau tebygol yn ansicr. Yn grynodol mae effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar addysg yn debygol o beidio â bod yn gadarnhaol nac yn negyddol gan na all y Cynllun Datblygu Lleol effeithio’n uniongyrchol ar ddarparu cyfleoedd addysgol, dim ond eu hwyluso.

**10a. Gwarchod cymunedau trwy hybu’r defnydd o’r iaith Gymraeg**

Mae’r Cynllun Datblygu Lleol yn creu cyfle i bobl leol gael tai, cyflogaeth a gwasanaethau yn lleol, a thrwy hynny yn sicrhau cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg aros yn yr ardal. Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy nodau cyffredinol Strategaeth y CDLl (gweler Polisi S01 Twf Cynaliadwy). Yn ychwanegol at hynny, bydd ffordd y mae’r Strategaeth yn canolbwyntio ar dwf ar draws y Sir (S02, S03 a S04), yn cadarnhau rhwydwaith Ceredigion o gymunedau ac yn cryfhau’r iaith Gymraeg. Mae hyn yn cael ei fynegi gan gyfran uchel o bolisïau a ragfynegir y byddant yn cael effaith gadarnhaol fechan ar Amcan yr AC/AAS. Er gwaethaf hynny, ni wyddir yn glir i ba raddau y bydd cynllunio defnydd tir yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Gan hynny, mae Polisi DM01 Rheoli Effeithiau Datblygiad ar Gymunedau a’r Iaith Gymraeg yn ceisio casglu gwybodaeth y gellir eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac yn amlygu dulliau o liniaru effeithiau a allai fod yn niweidiol i gymunedau. Gan hynny, mae effeithiau crynodol y Cynllun Datblygu Lleol ar yr Iaith Gymraeg yn ansicr ond yn annhebygol o fod yn negyddol.

**11a. Lleihau’r angen i deithio/cludo a hybu dulliau trafnidiaeth cynaliadwy ac 11b. Gwella hygyrchedd gwasanaethau i gymunedau, a gwella cydgysylltedd er budd yr economi**

